



Aseiad Isadeiledd Gwyrdd Sir Ddinbych

Fersiwn gwbl hygyrch

Cyngor Sir Ddinbych

Adroddiad Terfynol

Paratowyd gan Ymgynghorwyr Defnydd Tir (LUC)

Mai 2024

Fersiwn	Statws	Paratowyd gan	Gwiriwyd gan	Cymeradwywyd gan	Dyddiad
1	Drafft (pennod 1 – 3)	R Finnigan H Germiot J Baker P Massini	J Baker	D McNab	2.2.24
2	Drafft (pob pennod)	R Finnigan H Germiot J Baker P Massini	J Baker	D McNab	30.4.24
3	Terfynol	R Finnigan P Massini J Baker	J Baker	D McNab	13.6.24



Land Use Consultants Limited

Cofrestrwyd yn Lloegr. Rhif cofrestredig 2549296. Swyddfa Gofrestredig: 250 Waterloo Road, Llundain SE1 8RD. Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu 100%.

Asesiad Isadeiledd Gwyrdd Sir Ddinbych

Cynnwys

Pennod 1	6
Cyflwyniad	

Pennod 2	7
Cefndir a Chyd-destun	

Beth yw Isadeiledd Gwyrdd?	7
Manteision Isadeiledd Gwyrdd	9
Gwydnwch ecosystemau	11
Cyd-destun Polisi	11
Beth yw pwrpas yr AIG?	13
Sut cafodd yr AIG ei baratoi?	13

Pennod 3	15
Rhwydwaith IG Presennol	

Cyd-destun Sir Ddinbych	15
Natur	16
Newid yn yr Hinsawdd a Llygredd	28
Lle	42
Pobl	50

Pennod 4	63
Amcanion Strategol	

Amcanion	63
----------	----

Asesiad Isadeiledd Gwyrdd Sir Ddinbych	3
--	---

Cynnwys

Pennod 5 **65** Cyfleoedd IG

Cyfleoedd IG Allweddol 70

Pennod 6 **129** Polisi cynllunio ac adnoddau cynllunio er mwyn cyflawni

Polisi Strategol y CDLI 129

Polisiâu CDLI Penodol i Safle 136

Datganiadau a Chanllawiau Ategol Isadeiledd Gwyrdd 137

Adnoddau eraill 143

Pennod 7 **147** Monitro ac adolygu

Cyflwyniad 147

Dangosyddion 149

Atodiad A **155** Geirfa

Atodiad B **161** Adolygu Polisiâu a Strategaethau

Rhyngwladol 161

Y DU 161

Cenedlaethol 161

Rhanbarthol 166

Lleol 167

Cynnwys

Atodiad C	171
Datblygu fframwaith monitro	
Atodiad D	173
Cyfresi data	
Cyfeiriadau	181

Pennod 1

Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Asesiad Isadeiledd Gwyrdd (AIG) ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych. Mae'r AIG wedi'i gynhyrchu i gefnogi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Sir Ddinbych.

1.2 Mae'r AIG yn nodi ac yn mapio'r rhwydwaith Isadeiledd Gwyrdd (IG) presennol yn Sir Ddinbych, ac yn nodi cyfleoedd i wella ac ehangu'r rhwydwaith a'r buddion niferus y mae'n eu darparu. Mae'r AIG yn gwneud argymhellion ar sut y gellir defnyddio polisi cynllunio ac offer cynllunio i sicrhau bod IG yn cael ei gyflawni a'i wella yn Sir Ddinbych.

1.3 Bydd yr AIG yn cael ei ddefnyddio gan gynllunwyr, datblygwyr a chymunedau lleol i gael gwell dealltwriaeth o IG yn Sir Ddinbych, ei fanteision a sut y gellir ei wella.

Pennod 2


Cefndir a Chyd-destun

Beth yw Isadeiledd Gwyrdd?

2.1 Mae Isadeiledd Gwyrdd (IG) yn cyfeirio at y rhwydwaith o fannau gwyrdd a glas aml-swyddogaeth sy'n amgylchynu trefi a dinasoedd ac yn gweu trwyddynt. Yn union fel y mae rhwydwaith cludiant yn cysylltu pobl ar draws ardal drwy rwydwaith o ffyrdd, rheilffyrdd neu balmentydd – mae IG yn helpu i gysylltu pobl, bywyd gwyllt a natur.

2.2 Mae elfennau o IG yn amrywio yn ôl graddfa a gallant gynnwys; manau gwyrdd a reolir a manau gwyrdd naturiol, fel parciau cyhoeddus, gwarchodfeydd natur a rhandiroedd; agweddau ar gefn gwlad ehangach megis gwlyptiroedd, gorlifdiroedd a choetir; cysylltiadau llinellol megis llwybrau troed, llwybrau beicio ac afonydd, ac elfennau o'r amgylchedd adeiladu megis ymylon, coed stryd a thoeau neu waliau gwyrdd. Mae ffigwr 2.1 yn dangos gwahanol elfennau o rwydwaith IG.

Ffigwr 2.1: Ffigwr yn dangos gwahanol elfennau o Rwydwaith Isadeiledd Gwyrdd



Manteision Isadeiledd Gwyrdd

2.3 Mae Fforwm Isadeiledd Gwyrdd Cymru **[Gweler gyfeirnod 1]** yn amlygu pwysigrwydd nodweddion IG sy'n darparu 'swyddogaethau lluosog' o gymharu ag 'isadeiledd llwyd', sy'n aml ag un swyddogaeth yn unig. Gallai'r rhain gynnwys storio neu gludo dŵr glaw, cael gwared ar lygredd dŵr, darparu cartrefi ar gyfer bywyd gwylt, gwella hygyrchedd at natur, darparu blodau i wenyn a pheillwyr eraill a helpu i gadw ardaloedd trefol yn oer wrth wynebu tymheredd sy'n codi.

2.4 Mae'n hanfodol nad yw asedau IG yn gweithredu ar eu pen eu hunain, dylent gael eu cysylltu i ffurfio rhan o rwydwaith ehangach. Mae hyn yn eu helpu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd ac effeithiau eraill. Mae'r un mor bwysig bod y rhwydwaith yn gwau drwy'r amgylchedd adeiledig ac o'i amgylch ac yn cysylltu'r ardal drefol â'i chefnwlad wledig ehangach.

2.5 Mae Isadeiledd Gwyrdd yn darparu llawer o fanteision i bobl, natur a'r hinsawdd. Mae ffigur 2.2 yn crynhoi rhywfaint o'r manteision hyn.

Ffigwr 2.2: Ffigwr yn dangos manteision Isadeiledd Gwyrdd



- Gwella iechyd corfforol a meddyliol trigolion ac ymwelwyr.
- Gwerth esthetig ac atgyfnerthu ymdeimlad o le.
- Cyfleoedd chwarae, addysg a rhyngweithio gyda natur.
- Gwella ansawdd aer a rheoleiddio sŵn.
- Cyfleoedd cludiant actif, fel cerdded a beicio.
- Lleihau'r perygl o lifogydd a gwella ansawdd dŵr.
- Cyfleoedd ar gyfer twf cymunedol.
- Mwy o weithgarwch economaidd ac atyniad i fewnfuddsoddi.
- Lle i fioamrywiaeth a gwell gwydnwch ecolegol.
- Cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol a chydlyniant cymunedol.

- Atafaelu carbon a lliniaru newid yn yr hinsawdd.
- Oeri trefol, aerdymheru naturiol a chysgodi.

Gwydnwch ecosystemau

2.6 “Mae IG yn gwella gwydnwch ecosystemau drwy hyrwyddo cynaliadwyedd a lleihau bregusrwydd i straen amgylcheddol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cymhwyso’r diffiniad o wydnwch ecosystemau a gyhoeddwyd yn ei adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn 2016, sef: “gallu ecosystemau i ddelio ag aflonyddwch, naill ai drwy eu gwrthsefyll, adfer yn eu sgil, neu addasu iddynt, a dal i ddarparu gwasanaethau a buddion rŵan ac yn y dyfodol”. Gellir cymhwyso fframwaith DECCA (a drafodir yn fanwl ym Mhennod 6) i IG ar wahanol raddfeydd, cynefinoedd a defnyddiau tir. Hefyd, drwy ddefnyddio’r nodweddion hyn yn yr ecosystem fel dirprwyon ar gyfer gwydnwch i arwain dyluniad rhwydweithiau. Mae hyn yn sicrhau dull gweithredu sy’n seiliedig ar wydnwch sy’n wahanol i’r ymatebion traddodiadol, mwy adweithiol wrth reoli adnoddau naturiol ac IG”. Mae nodweddion fframwaith DECCA yn cynnwys: amrywiaeth, maint, cyflwr, cysylltedd a gwedd.

Cyd-destun Polisi

2.7 Mae polisi ar lefel y DU, yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol yn rhoi cyfeiriad ac arweiniad ar weithredu IG. Mae’r ffigwr isod yn amlinellu’r holl ddogfennau polisi sydd wedi’u hadolygu wrth baratoi’r AIG hwn, a darperir adolygiad manwl o bob dogfen bolisi yn Atodiad B.

Ffigwr 2.3: Ffigwr yn dangos polisiau a strategaethau GI perthnasol ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol



Beth yw pwrpas yr AIG?

2.8 Er mwyn mynd i'r afael â'r dull tameidiog o gynllunio ar gyfer yr amgylchedd, mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Cynllunio yng Nghymru gynhyrchu AIG sy'n dwyn ynghyd sylfaen dystiolaeth IG yn eu hardal. Dylai AIGau hwyluso gwaith cynllunio strategol y rhwydwaith IG mewn ardaloedd lleol a ledled Cymru.

2.9 Bydd yr AIG hefyd yn cefnogi gwaith datblygu Cynllun Datblygu Lleol newydd Cyngor Sir Ddinbych (CSDd), sy'n cael ei baratoi ar hyn o bryd. Mae CSDd wedi ymrwmo i ehangu'r rhwydwaith IG ochr yn ochr â datblygiadau newydd, er mwyn sicrhau bod gweledigaeth y Cynllun Datblygu Lleol drafft yn cael ei gwireddu: *“Bydd gan Sir Ddinbych, drwy ddatblygu cynaliadwy, arfordir trefol bywiog, gyda threfi marchnad ac ardaloedd gwledig ffyniannus. Bydd anghenion tai a chyflogaeth y Sir yn cael eu diwallu a bydd yr amgylchedd o ansawdd uchel yn cael ei warchod a'i wella. Bydd bywyd o ansawdd uchel yn cael ei gynnal ar gyfer pob cymuned; gyda chydnabyddiaeth lawn bod gennym ni iaith a diwylliant Cymraeg cryf y dylid eu cefnogi a'u gwella ledled y Sir.”*

2.10 Bydd allbynnau'r AIG yn cynorthwyo cynllunwyr polisi a rheolwyr datblygu CSDd i ddarparu IG newydd a gwell drwy amrywiaeth o bolisiau ac offer cynllunio.

Sut cafodd yr AIG ei baratoi?

2.11 Cynhyrchwyd yr AIG hwn gan ddefnyddio proses pedwar cam, yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar yr hyn y mae angen i'r AIG ei wneud **[Gweler gyfeirnod 2]**.

2.12 Yn gyntaf, **nodwyd** y rhwydwaith IG presennol gan ddefnyddio data mapio ac ymchwil desg arall i greu darlun o gryfderau presennol y rhwydwaith, yn ogystal â nodi'r bylchau yn y rhwydwaith neu feysydd lle gellid ei wella. Mae CNC wedi cynhyrchu canllaw o'r setiau data sydd ar gael i gefnogi'r

Pennod 2 Cefndir a Chyd-destun

dadansoddiad gwaelodlin o'r rhwydwaith IG presennol, ac wedi nodi cyfleoedd ar gyfer gwella. Roedd y rhan fwyaf o'r setiau data hyn yn gyfredol ac yn berthnasol i Sir Ddinbych. Fe'u defnyddiwyd wrth baratoi'r AIG hwn a chawsant eu hategu gan setiau data lleol a chenedlaethol ychwanegol. Darperir rhestr o'r holl setiau data a ddadansoddwyd yn Atodiad D.

2.13 Yn ail, **ystyriwyd** cyfleoedd i wella a fyddai'n cynyddu'r rhwydwaith IG ac yn arwain at fanteision i natur, pobl a lle, gan gynnwys lliniaru a chynyddu gwydnwch i newid yn yr hinsawdd ac yn lleihau llygredd.

2.14 Yn drydydd, datblygwyd argymhellion **perthnasol** ar sut i gyflawni gwelliannau IG drwy bolisi cynllunio ac offer cynllunio ar wahanol lefelau.

2.15 Yn olaf, datblygwyd argymhellion ar fecanweithiau ar gyfer **adolygu'r AIG yn rheolaidd**, ei ddata sylfaenol, a'i weithrediad llwyddiannus.

Pennod 3

Rhwydwaith IG Presennol

Cyd-destun Sir Ddinbych

3.1 Mae Sir Ddinbych yn cwmpasu ardal o 844 cilometr sgwâr, wedi'i lleoli yng Ngogledd-ddwyrain Cymru. Mae'r tir yn wledig yn bennaf, yn ffinio â phum awdurdod lleol arall a Môr Iwerddon. Mae llain arfordirol drefol gyda'r ddwy brif dref arfordirol, y Rhyl a Phrestatyn, yn cynnal dros hanner poblogaeth y sir. Mae'r gweddill yn drefi marchnad a phentrefi gwasgaredig. Mae darpariaeth rheilffordd yn gyfyngedig yn y Sir, dim ond trefi arfordirol y Rhyl a Phrestatyn sy'n cael gwasanaeth gorsafoedd rheilffordd. Mae'r A525 yn darparu cysylltiad rhwng gogledd a de'r sir, sy'n cysylltu'r Rhyl â Rhuthun, a'r A494 yn darparu cysylltiadau i'r dwyrain a'r gorllewin. Mae gwibffordd Gogledd Cymru yn darparu cysylltiad dwyrain-gorllewin drwy ogledd y Sir.

3.2 Mae amaethyddiaeth a choedwigaeth yn bwysig i economi Sir Ddinbych, ond mae'r sir hefyd yn ddibynnol iawn ar dwristiaeth, gydag atyniadau arfordirol ac Afon Dyfrdwy yn enwog am ei chyfleusterau pysgota a hamdden dŵr. Mae amddifadedd sylweddol mewn rhannau o'r sir, gyda Gorllewin y Rhyl yn cael ei nodi fel un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru).

3.3 Mae setliadau Sir Ddinbych wedi bod yn ffocws cyfleoedd adfywio yn ddiweddar, gyda buddsoddiadau sylweddol gan brosiect 'Trawsnewid Trefi' Llywodraeth Cymru a Chronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU, ynghyd â ffynonellau amrywiol eraill.

3.4 Mae Prosiect Adfywio'r Rhyl yn mynd rhagddo, gyda hyd at £65m wedi'i anelu at adfywio canol y dref, creu Canolfan Ieuencid newydd, datblygiadau tai newydd, gwella'r promenâd a'r cysylltiad â'r traeth, creu cynllun amddiffyn yr arfordir, a chynlluniau hamdden eraill sy'n gysylltiedig â'i leoliad arfordirol

[Gweler gyfeirnod 3]. Mae prosiectau mawr yn rhan o Brosiect Adfywio'r Rhyl yn cynnwys;

- Gweledigaeth Canol Tref y Rhyl; yn anelu at wella'r parth cyhoeddus, cyflwyno gwyrddni, gwella manau cymunedol, gwell cysylltiad i gerddwyr a beicwyr, ac adfywio adeiladau Marchnad y Frenhines.
- Gwyrddu'r Rhyl; yn anelu at ddatblygu a gwella manau gwyrdd yng Nghanol Tref y Rhyl, gan greu cynefinoedd newydd a 'choridorau gwyrdd'.

3.5 Mae gan y sir gymysgedd o dirweddau sy'n cael eu gwerthfawrogi am eu harddwch naturiol a'u llongyddwch, yn amrywio o ucheldiroedd a rhostiroedd anghysbell a gwyllt i ddyffrynnoedd cul, iseldiroedd bugeiliol tonnog ac arfordiroedd ysblennydd. Mae'r sir yn elwa o amgylchedd o ansawdd uchel, ac mae ardal fawr o'r Sir o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy; mae Afon Dyfrdwy hefyd wedi'i dynodi'n Ardal Cadwraeth Arbennig. Mae gwaith ar y gweill gan Lywodraeth Cymru i archwilio dynodiad Parc Cenedlaethol newydd a fyddai'n ymgorffori'r AHNE hon ac ardaloedd cyfagos yng ngogledd Powys ac ar draws Gwynedd a'r ffin â pharc cenedlaethol Eryri. Mae rhwydwaith parciau a manau agored y Sir yn amrywio o ran cyflwr, ond nododd Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol 2021-22 i 2029-30 ddiweddar Cyngor Sir Ddinbych fod 62% o dir y mae'r Cyngor yn berchen arno ac yn ei gynnal yn y categorïau isaf o ran cyfoeth rhywogaethau.

Natur

Cyd-destun

3.6 Mae natur (a thirwedd) yn chwarae rhan ganolog yn nhreftadaeth ddiwylliannol Cymru. Mae cynefinoedd naturiol a lled-naturiol a'r fioamrywiaeth a gynhelir ganddynt hefyd yn darparu ystod o wasanaethau ecosystem, sy'n darparu manteision materol megis rheoli llifogydd, dal a storio carbon a'r

manteision economaidd sy'n gysylltiedig â thwristiaeth. Mae mynediad i fyd natur hefyd yn darparu manteision iechyd a lles sylweddol.

3.7 Ond mae'r manteision y mae natur yn eu darparu yn cael eu peryglu gan ddirywiad cynefinoedd naturiol a lled-naturiol yn ogystal â lleihad, neu hyd yn oed golled, llawer o rywogaethau cysylltiedig. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf gan Gynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru yn nodi 'er bod camau cadarnhaol wedi'u cymryd a bod rhai rhywogaethau nodedig yn gwella, mae'r golled mewn bioamrywiaeth yn parhau'. **[Gweler gyfeirnod 4].**

3.8 Mae gan Sir Ddinbych dreftadaeth naturiol gyfoethog ac amrywiaeth o gynefinoedd, o dwyni tywod arfordirol lled-naturiol, rhostir grug, glaswelltir calchaid, coetir llydanddail a nentydd i dirweddau o goedwigoedd conwydd, tir fferm ac afonydd sydd wedi'u cyfyngu gan amddiffynfeydd rhag llifogydd. Mae'r cynefinoedd hyn yn cynnal amrywiaeth o rywogaethau, o rai prin fel y grugiar ddu, llyffant cefnfelyn a heboglys Cymreig sy'n dibynnu ar ardaloedd gwarchodedig arbennig, i rywogaethau sy'n fwy cyffredin fel dyfrgwn, tylluanod gwyn a gwiberod ond sy'n gofyn am reoli'r dirwedd ehangach er mwyn cynnal poblogaethau iach. **[Gweler gyfeirnod 5].**

3.9 Mae CSDd yn rhan o Bionet, y Bartneriaeth Natur ar gyfer gogledd-ddwyrain Cymru sy'n ceisio cydlyn camau gweithredu i wrthdroi'r dirywiad mewn natur drwy gydweithio, cyngor a gwybodaeth. **[Gweler gyfeirnod 6].** Mae wedi paratoi Cynllun Gweithredu Adfer Natur sy'n canolbwyntio i ddechrau ar y tri chynefin allweddol, sef coetir, glaswelltir, ac afonydd, pyllau a gwlyptiroedd. **[Gweler gyfeirnod 7].**

3.10 Fel awdurdod cyhoeddus rhaid i Gyngor Sir Ddinbych gydymffurfio ag Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau "geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth gyflawni eu cyfrifoldebau" a "hyrwyddo gwydnwch ecosystemau". **[Gweler gyfeirnod 8].** Mae cydymffurfio â'r ddyletswydd hon hefyd yn gofyn am adrodd bob tair blynedd ar y camau a gymerwyd. Roedd yr adroddiad diweddaraf ar gyfer y cyfnod 2016-2019 yn nodi'r cyflawniadau allweddol canlynol **[Gweler gyfeirnod 9]:**

- Mae bioamrywiaeth bellach wedi'i restru fel Blaenoriaeth Gorfforaethol yn y Cynllun Corfforaethol.
- Mae CSDd wedi cyflogi Swyddog Bioamrywiaeth ac wedi arwyddo Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Cofnod – Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru.
- Torrodd Cyngor Sir Ddinbych dri chwarter o'r rhwydwaith ymylon ffyrdd (dros 1,800km o ffyrdd) unwaith yn unig, ar ôl 1 Awst.
- Mae CSDd wedi darparu hyfforddiant arbenigol i wasanaethau allweddol.
- Mae gwaith wedi dechrau i sicrhau bod pob prosiect a datblygiad newydd yn ystyried effeithiau ar fioamrywiaeth yn ystod y cam dylunio.

3.11 Mae CSDd hefyd yn cydnabod bod bioamrywiaeth yn ystyriaeth gynllunio berthnasol. Roedd wedi cyhoeddi Canllawiau Cynllunio Atodol ar Gadwraeth a Gwella Bioamrywiaeth er mwyn sicrhau bod pob cais cynllunio yn cydnabod yr angen i ddiogelu ardaloedd allweddol, yn cyd-fynd â gwybodaeth ddigonol i asesu effaith ecolegol datblygiad arfaethedig ac yn cynnwys mesurau lliniaru a/neu wella addas. **[Gweler gyfeirnod 10].**


Cyngor Ecolegol Gadarnhaol

3.12 O ganlyniad i ddatganiad y cyngor o Newid Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol ym mis Gorffennaf 2019, mae CSDd yn anelu at ddod yn Gyngor Ecolegol Gadarnhaol erbyn mis Mawrth 2030. Bydd hyn yn gofyn am warchod, rheoli ac adfer tir y mae'r cyngor yn berchen arno neu'n ei reoli, yn ogystal â chefnogi ac annog cread mannau newydd ar gyfer natur fel bod y cynefinoedd ar draws Sir Ddinbych mor amrywiol, cysylltiedig, helaeth, iach a gwydn â phosibl er mwyn sicrhau bod natur yn adfer. **[Gweler gyfeirnod 11].**

3.13 Er mwyn cyflawni ei nodau, mae Cyngor Sir Ddinbych wedi categorioedd tir y mae'n berchen arno neu'n ei reoli yn fathau o gynefinoedd o gyfoeth rhywogaethau amrywiol – fel y dangosir yn Ffigur 3.1 – ac mae wedi ymrwymo i sicrhau y dylai maint y tir yn y categorïau cyfoeth rhywogaethau isaf fod yn is na

maint y tir yn y categorïau cyfoeth rhywogaethau uchaf erbyn mis Mawrth 2030. Er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn, mae targedau interim wedi'u gosod o ran canran y tir a ddylai fod yn y categorïau isaf ac uchaf - gweler tabl 3.1. Mae Ffigwr 3.1 a Thabl 3.1 isod wedi'u haddasu o Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol Cyngor Sir Ddinbych [\[Gweler gyfeirnod 12\]](#).

Ffigwr 3.1: Siart yn dangos faint o dir y mae Cyngor Sir Ddinbych yn berchen arno neu'n ei reoli ym mhob math o gynefin o gyfoeth rhywogaethau amrywiol



Tabl 3.1: Y newid yng nghanran darged cynefinoedd sydd â'r cyfoeth uchaf ac isaf o ran rhywogaethau

Species richness categories	Starting Point	2030 end goal	Projected % in Year 3 (2023/24)	Projected % in Year 6 (2026/27)
Lowest categories of species richness	62%	Reduce to below 49% or lower	Reduce to 57.7% or lower	Reduce to 53.3% or lower
Highest categories of species richness	38%	Increase to above 51% or higher	Increase to 42.3% or higher	Increase to 46.7% or higher

Asedau natur presennol

3.14 Fel pob ardal cyngor arall ar draws Cymru, mae'r asedau naturiol ar draws y sir – cynefinoedd pwysicaf a lleoliadau poblogaethau allweddol o rywogaethau prin neu anghyffredin – yn cael eu nodi gan amrywiaeth o wahanol ddynodiadau polisi statudol a chynllunio, gan gynnwys y rhai sy'n berthnasol ar lefel ryngwladol, genedlaethol a lleol.

Safleoedd statudol

3.15 Mae Ffigur 1 yn dangos yr holl safleoedd cadwraeth natur statudol yn Sir Ddinbych. Mae'r rhwydwaith safleoedd gwarchodedig statudol yn cynnwys y rhai a nodir drwy ddeddfwriaeth y DU neu ddeddfwriaeth ryngwladol, fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a safleoedd Ramsar. Dyma'r ardaloedd pwysicaf o gynefin sy'n destun amddiffyniadau cyfreithiol i osgoi niwed neu ddifrod - pethau fel newidiadau i reolaeth tir neu effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol datblygiad ar barth dylanwad neu oddi mewn iddo.

3.16 Mae 29 SoDdGA yn Sir Ddinbych, ynghyd â 6 ACA, 3 AGA ac 1 safle Ramsar – pob un ohonynt yn rhan o SoDdGA. Ceir y mwyafrif yn ne a dwyrain pellaf y sir, ond mae yna hefyd safleoedd allweddol megis Twyni Gronant a Thalacre, a rhannau o Aber Afon Dyfrdwy, ar hyd yr arfordir ym Mhrestatyn. Mae safleoedd coetir hefyd megis Coed Nant Mawr (i dde-orllewin Pentre Llanrhaeadr), Coedwig Cil-y-Groeslwyd, Coed a Chreigiau Eyarth a Chraigddwywynt (rhwng Pwll-glas a Llanfair Dyffryn Clwyd) yng nghanol y sir.

Safleoedd anstatudol

3.17 Mae'r rhwydwaith safleoedd gwarchodedig anstatudol yn cynnwys yr ardaloedd hynny o dir a nodir yng Nghynllun Datblygu Lleol CSDd fel Safleoedd o Ddiddordeb Cadwraeth Natur / Safleoedd Bywyd Gwyllt Sirol. Ardaloedd yw'r

rhain sydd wedi'u nodi fel cynefinoedd neu rywogaethau cynhaliol sy'n bwysig ar lefel sirol neu leol. Mae 248 o'r safleoedd hyn yn Sir Ddinbych.

3.18 Mae perchnogaeth a chyfrifoldeb am reolaeth y safleoedd hyn yn amrywio o awdurdodau cyhoeddus ac asiantaethau statudol i sefydliadau amgylcheddol, ffermwyr a thirfeddianwyr preifat eraill. Mae'r dynodiad anstatudol yn sicrhau bod gwerth cadwraeth natur y safleoedd hyn yn cael ei ystyried yn briodol mewn unrhyw benderfyniadau cynllunio. Mae hefyd yn amlygu eu gwerth ecolegol i dirfeddianwyr, rheolwyr tir a chyrff eraill megis awdurdodau cyhoeddus neu gwmnïau cyfleustodau y gall eu gweithredoedd neu benderfyniadau effeithio arnynt.

3.19 Mae Safleoedd Bywyd Gwyllt Sirol yn Sir Ddinbych yn cynnwys sawl un sy'n eiddo i Gyngor Sir Ddinbych ac yn cael ei reoli ganddo, gan gynnwys Moel Findeg, Pwll Brickfields, Pwll Rhuddlan a Bryn Prestatyn.

Cynefinoedd o Bwysigrwydd Mawr

3.20 Nid yw'r holl dir sydd â gwerth ecolegol presennol yn dod o dan y rhwydwaith safleoedd statudol neu anstatudol. Gall hyn fod oherwydd eu bod yn rhy fach, dim ond wedi eu nodi'n ddiweddar, neu eu bod yn ganlyniad creu neu adfer cynefinoedd parhaus. Mae hyn yn cynnwys yr holl feysydd sy'n cynnal 'cynefinoedd o'r pwys mwyaf' fel y nodir o dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 [**Gweler gyfeirnod 13**]. Yn Sir Ddinbych mae hyn yn cynnwys ardaloedd o laswelltir calchaid, ffen a gweundir yn ogystal â choetir hynafol. Mae Ffigur 2 yn dangos cynefinoedd blaenoriaeth a ddarganfuwyd yn Sir Ddinbych.

Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn

3.21 Er bod adfer natur yn gofyn am amddiffyniad cadarn a gwell rheolaeth o'r rhwydwaith safleoedd gwarchodedig statudol ac anstatudol, mae hefyd angen ymyriadau ar raddfa'r dirwedd sy'n ehangu cynefinoedd pwysig presennol yn well, yn darparu ardaloedd ychwanegol i fywyd gwyllt chwilota a bridio, ac yn darparu cysylltedd drwy'r tirwedd ehangach er mwyn galluogi rhywogaethau i

symud, mudo ac ymateb i effeithiau newid hinsawdd. Gellir cefnogi'r gwaith o adfer natur drwy wella'r tir ar gyfer bioamrywiaeth yn unrhyw le yn Sir Ddinbych. Fodd bynnag mae'n well ei dargedu ar dir sy'n gwella neu sy'n cysylltu'r rhwydwaith safleoedd statudol ac anstatudol a'r cynefinoedd o'r pwys mwyaf, i greu rhwydwaith cynefinoedd ehangach sy'n gweithredu ar raddfa tirwedd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi mapio rhwydweithiau cynefinoedd ledled Cymru. Mae'r rhain yn dangos tri math o rwydweithiau i gynrychioli gofynion ystod eang o rywogaethau. Maen nhw'n cynnwys:

- rhwydweithiau craidd, ar gyfer rhywogaethau sydd angen llawer o'u cynefin ac sydd ddim yn gwasgaru'n dda;
- rhwydweithiau ffocws ar gyfer rhywogaethau sydd angen llai o gynefin ac sy'n gwasgaru'n weddol dda; a
- rhwydweithiau lleol ar gyfer rhywogaethau sydd angen ardaloedd bach o gynefin yn unig ac sydd ddim yn gwasgaru'n dda o gwbl.

3.22 Dangosir y 'rhwydweithiau cynefinoedd ffocws tir isel' yn Sir Ddinbych yn Ffigur 3. D.S. Mae'r is-set hon o'r rhwydwaith cynefinoedd ffocws wedi'i dewis gan ei bod yn amlygu'r meysydd hynny lle mae'r lle mwyaf i wella cysylltedd ecolegol, drwy bolisïau cynllunio defnydd tir CSDd. Mae'r rhwydwaith cynefinoedd ffocws ucheldir cyfatebol yn ymwneud ag ardaloedd mawr o dir sy'n debygol o fod y tu allan i'r cwmpas yn bennaf o ran polisi cynllunio CSDd.

3.23 Dyma'r sail i bob pwrpas ar gyfer creu 'rhwydwaith ecolegol gwydn' sef:

"...rhwydweithiau o gynefinoedd mewn cyflwr ecolegol da sy'n cysylltu safleoedd gwarchoddedig a mannau eraill sy'n ymwneud â bioamrywiaeth ar draws y dirwedd ehangach. Mae'n darparu'r budd mwyaf posibl i fioamrywiaeth a lles" ac yn cynnwys "potensial ar gyfer ecosystemau iach a gwydn sy'n darparu ystod o wasanaethau ecosystem pwysig, yn ogystal â chaniatáu symudiad rhywogaethau ar draws tirweddau mewn ymateb i newid hinsawdd."

[Gweler gyfeirnod 14].

Ansawdd

3.24 Mae'r modd y mae'r asedau naturiol presennol ar draws y sir yn cael eu rheoli a'u cynnal yn hanfodol i p'un a ydynt yn cadw eu gwerth ecolegol, ac yn parhau i gyfrannu at neu wella gwydnwch ecolegol y rhwydwaith a'r buddion ehangach y mae hyn yn eu darparu.

3.25 Gellir mesur a monitro ansawdd asedau cadwraeth natur y sir drwy:

- asesiad uniongyrchol o gyflwr cynefinoedd (a rhywogaethau cysylltiedig) o fewn safleoedd unigol;
- monitro tueddiadau ym mhoblogaethau rhywogaethau allweddol i weithredu fel dangosydd o iechyd ecolegol y dirwedd ehangach; a
- cynnal asesiadau cyfalaf naturiol i bennu a yw'r buddion amgylcheddol ac economaidd ehangach a ddarperir gan yr asedau cadwraeth natur presennol yn cael eu cynnal neu'n cronni dros amser wrth i'r 'rhwydweithiau ecolegol gwydn' gael eu sefydlu.

3.26 Mae'r rhwydwaith safleoedd statudol yn cael ei fonitro'n gymharol reolaidd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, er mwyn sicrhau bod y rhesymau dros ddynodi'r safle (h.y. y cynefinoedd arbennig neu'r poblogaethau pwysig y maent yn eu cynnal) yn cael eu cynnal mewn 'cyflwr ffafriol'.

3.27 Nid yw ansawdd y rhwydwaith safleoedd anstatudol ac ardaloedd eraill o gynefinoedd o'r pwys mwyaf yn cael eu monitro cystal, yn rhannol oherwydd yr ardaloedd helaeth o dir y mae angen eu hasesu. Serch hynny, mae safleoedd allweddol, fel y rhai y mae sefydliadau amgylcheddol yn berchen arnynt, yn destun monitro mwy rheolaidd a systematig. Mae dulliau ac arferion synhwyro o bell sy'n datblygu'n gyflym yn darparu ffyrdd llawer mwy effeithlon a chost-effeithiol o fesur ansawdd a chadernid y rhwydweithiau ecolegol gwydn arfaethedig. Elfen allweddol o waith Bionet yw sefydlu'r rhaglenni monitro hyn.


Crynodeb o'r materion allweddol

- Mae rhannau helaeth o Sir Ddinbych wedi'u gorchuddio gan ddynodiadau cadwraeth natur presennol, ond mae diffyg dealltwriaeth o ansawdd llawer o'r ardaloedd hyn.
- Mae rheoli a chynnal y meysydd hyn yn dibynnu ar ddefnyddio amrywiaeth o wahanol ysgogiadau, cymhellion a rheolaethau gan nifer o wahanol sefydliadau ac asiantaethau. Mae'n bosibl y bydd dylanwad polisïau a phwerau cynllunio defnydd tir CSDd yn gyfyngedig ar draws llawer o'r rhwydwaith.

Cyfleoedd sy'n codi

- Mae'r rhwydwaith cynefinoedd ffocws tir isel a nodir gan y mapiau a ddarperir gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi lle y dylid targedu ymdrechion i sefydlu rhwydwaith ecolegol mwy gwydn.
- Dylid integreiddio 'atebion sy'n seiliedig ar natur' ym mhob prosiect ar gyfer gwella parciau a mannau gwyrdd a'r parth cyhoeddus ehangach, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny lle mae'r prosiectau hyn yn cyd-fynd â rhwydwaith cynefinoedd ffocws yr iseldir.
- Dylai fod yn ofynnol i ddyraniadau safle a/neu ddatblygiadau newydd o fewn y rhwydwaith cynefinoedd ffocws tir isel neu'n agos atynt nodi sut y gallant gyfrannu at wydnwch y rhwydwaith.


Ffigur 1: Safleoedd Cadwraeth Natur Statudol



- Ffin Sir Ddinbych
- 5km o ffin Sir Ddinbych
- Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
- Ardal Cadwraeth Arbennig
- Ardal Warchodaeth Arbennig


Graddfa map 1:260,000 @ A3

Ffigur 2: Cynefinoedd â Blaenoriaeth



- Ffin Sir Ddinbych
- 5km o ffin Sir Ddinbych
- WOM21 Cynefin â Blaenoriaeth - Sensitifrwydd Uchel (pob cynefin)**
- Gorgors
- Glaswelltir calchaid yr iseldir
- Glaswelltir asid sych yr iseldir
- Ffeniau a chorsleoedd yr iseldir
- Rhostir yr iseldir
- Dolydd yr iseldir
- Cynefin Clytwaith Agored ar Dir a Ddatblygwyd o'r Blaen
- Parcdir
- Glaswellt y Gweunydd a Phorfeydd Brwyn
- Cyforgors
- Perllannau Traddodiadol
- Glaswelltir Calchaid yr Ucheldir
- Rhuthrau Dŵr, Ffeniau a Chorsydd yr Ucheldir
- Rhostir yr Ucheldir
- Porfeydd Coediog

Ffigur 3: Prif Rwydwaith Cynefinoedd yr Iseldir



- Ffin Sir Ddinbych
- 5km o ffin Sir Ddinbych
- Rhwydwaith cynefinoedd ffocal yr iseldir**
- Corsydd
- Ffeniau
- Glaswellt
- Gweundir
- Coed

Graddfa map 1:260,000 @ A3

Newid yn yr Hinsawdd a Llygredd

3.28 Mae'r bennod hon yn ymdrin â themâu Newid Hinsawdd a Llygredd mewn perthynas â Gwybodaeth Ddaearyddol a'r rhwydwaith Gwybodaeth Ddaearyddol presennol yn Sir Ddinbych.

Cyd-destun

3.29 O ganlyniad i newid hinsawdd, gall Sir Ddinbych ddisgwyl gweld mwy o law a llifogydd dwysach mewn ardaloedd arfordirol isel, yn ogystal â hafau poethach a sychach. Mae'r rhagolygon hefyd yn darogan mwy o ddiwrnodau eithriadol o gynnes, gyda gaeafau cynhesach, gwlypach. Bydd angen i bobl a natur geisio addasu i'r newidiadau hyn. Mae'r bobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio yn byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig **[Gweler gyfeirnod 15]**. Dangosir hyn gan Fynegai Perygl Llifogydd Cymdogaeth Joseph Rowntree Foundation, sy'n rhoi cipolwg ar fregusrwydd cymdeithasol cymdogaeth pe ceid llifogydd. Mae'r Rhyl, ac yn arbennig gorllewin y Rhyl, yn gyson yn dangos perygl uchel, anallu i baratoi, anallu i ymateb, anallu i adfer a diffyg cefnogaeth gymunedol yn dilyn llifogydd. Yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Sir Ddinbych, gan gynnwys y Rhyl a phocedi o Brestatyn a Dinbych yw'r rhai mwyaf diamddiffyn, ac maent yn rhan uchaf y Mynegai Perygl Llifogydd Cymdogaeth **[Gweler gyfeirnod 16]**.

3.30 Gall IG chwarae rhan allweddol mewn lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd. Gellir defnyddio cynefinoedd o wahanol fathau i "atafaelu" carbon h.y. tynnu gormod o garbon i lawr o'r atmosffer. Gall rhai mathau o gynefinoedd, yn enwedig coetir, hefyd weithredu fel amddiffynfeydd naturiol rhag peryglon sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys perygl llifogydd a thymheredd uchel. Gall darpariaeth teithio llesol drwy IG hefyd helpu i leihau allyriadau carbon drwy gynorthwyo pobl i symud oddi wrth deithio mewn car. Cwmpesir teithio llesol yn adran 'Pobl' y bennod hon.

3.31 Gall IG hefyd chwarae rhan bwysig wrth leihau llygredd o wahanol ffurfiau gan gynnwys: llygredd dŵr drwy ddefnyddio llystyfiant i hidlo llygryddion; llygredd aer drwy ddefnyddio llystyfiant i amsugno deunydd gronynnol neu i greu rhwystr yn erbyn gwasgariad llygredd; a llygredd sŵn drwy ddefnyddio llystyfiant fel rhwystr sain, yn enwedig ar hyd ffyrdd.

Asedau a phroblemau presennol IG

Newid yn yr Hinsawdd

Gorchudd Coetiroedd

3.32 Mae gan goed a choetiroedd rôl fawr mewn lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys drwy reoli hinsawdd yn lleol drwy ddarparu cysgod, lleihau tymereddau amgylchynol ac effeithiau ynys wres drefol, darparu gwydnwch cynefinoedd a rhywogaethau, rheoli ansawdd aer a helpu i liniaru yn erbyn digwyddiadau tywydd eithafol megis llifogydd a thywydd poeth iawn. Mae gan goed a choetiroedd rôl allweddol hefyd mewn storio carbon.

3.33 Sir Ddinbych sydd â'r gorchudd canopi sirol isaf yng Nghymru. Amcangyfrifwyd bod gorchudd coed Cymru yn 16.3% yn 2013, i lawr o 17.0% yn 2009. Amcangyfrifwyd bod gorchudd canopi Sir Ddinbych yn 11.7% (305 hectar) yn 2013, i lawr o 12.4% yn 2009 **[Gweler gyfeirnod 17]**. Mae Ffigwr 4 yn dangos y gorchudd coetir presennol yn Sir Ddinbych.

3.34 Mae cymeriad y dirwedd yn dylanwadu ar y gwahaniaethau amlwg sy'n bodoli – yn aml yn isel mewn trefi arfordirol fel y Rhyl (5.5%) ac yn uchel yng Nghymoedd De Cymru (y tu allan i Sir Ddinbych e.e. 30% yn Nhreharris). Mae gorchudd 25% Llangollen yn cyferbynnu â threfi arfordirol Sir Ddinbych ac mae'r gorchudd yn tueddu i fod yn llawer uwch i ffwrdd o'r arfordir **[Gweler gyfeirnod 18]**. Ar y cyfan, Y Rhyl sydd â'r gorchudd canopi isaf (5.5%), ac yna Rhuddlan (7.2%), Dinbych (9%), Rhuthun (11.7%) a Phrestatyn (13.2%). Yn unol â

thuaddiadau gorchudd canopi, mae'r rhain i gyd wedi'u lleoli ar arfordir y gogledd, ac eithrio Dinbych a Rhuthun, sy'n dod o dan y categori cefnwlod **[Gweler gyfeirnod 19]**.

3.35 Er bod amrywiaeth ledled Cymru, mae gan 63% o wardiau mwy cefnog (wardiau fel Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is) orchudd coed cyfartalog o fwy na 15%, o gymharu â dim ond 23% o wardiau mwy difreintiedig. Mae ardal glwstwr cymunedau'n gyntaf 'gorllewin / de-orllewin a Dinbych Uchaf' yn un o ardaloedd mwyaf trawiadol Cymru o ran diffyg gorchudd ar draws yr holl wardiau. Mae gan orllewin y Rhyl 1, 2 a 3 orchudd canopi 1%, 2% a 3% yn y drefn honno. Mewn ardaloedd lle mae gorchudd coed uchel a lefel uchel o amddifadedd, ymddengys bod hyn yn gysylltiedig â bodolaeth coetir trefol lleol yn hytrach na choed amwynder. Gall coetiroedd o'r natur hon fod heb eu rheoli ac yn anhygyrch, gan gyfyngu ar eu defnyddioldeb ar gyfer bioamrywiaeth a hamdden **[Gweler gyfeirnod 20]**.

3.36 O ystyried gwerth sylweddol coed o ran darparu lleoedd gwydn a chadarnhaol o ran yr hinsawdd, mae gorchudd canopi coed yn ystyriaeth allweddol, rŵan ac yn y dyfodol. O ystyried y diffyg gorchudd coed yng ngogledd y Sir, mae cyfleoedd i gyflenwi coetiroedd maint canolig yn agos at orllewin y Rhyl, lle mae'n amlwg bod angen gorchudd coed fwyaf. Mae cyfleoedd yn bodoli ar hyd Afon Clwyd ar dir fferm a glaswelltir lled-naturiol rhwng y Rhyl a Rhuddlan. At hynny, mae cyfleoedd i gyflenwi coetir maint canolig i'r dwyrain o'r Rhyl, ger coridor ffordd yr arfordir (A548) tuag at Brestatyn ar dir trefol, ffermdir a glaswelltir lled-naturiol. Yn amlwg, mae llai o angen i gyflenwi coetir maint canolig tua de'r Sir, fodd bynnag mae mwy o gyfleoedd o gwmpas Dinbych hefyd **[Gweler gyfeirnod 21]**.

Lliniaru perygl llifogydd cynyddol

3.37 Llifogydd yw un o'r argyfyngau amgylcheddol mwyaf cyffredin yn y DU, gydag effeithiau iechyd, amgylcheddol ac ariannol eang a pharhaol yn effeithio ar gartrefi a busnesau. Gall llifogydd amharu'n sylweddol ar y ffordd y mae cymunedau cyfan yn gweithredu. Mae pocedi mawr o Barthau Perygl Llifogydd 2 a 3 ledled Sir Ddinbych, yn bennaf yn ardaloedd arfordirol y Sir fel y Rhyl a

Phrestatyn. Hefyd mewn canolfannau eraill sy'n dilyn Afon Clwyd ac Afon Dyfrdwy a'u llednentydd niferus, megis Llanelwy, Dinbych, Llangollen a Rhuthun [Gweler gyfeirnod 22]. Mae hyn yn dilyn patrwm Cofrestr Cymunedau mewn Perygl CNC, sy'n nodi lleoliadau'r perygl mwyaf o lifogydd o bob ffynhonnell (llanw, afonol ac arwyneb). Yn ôl Safle Cymunedau Mewn Perygl 2019, y Rhyl sydd â'r perygl mwyaf o lifogydd ac yna Prestatyn, Rhuddlan, Llanelwy, Dinbych, Rhuthun, Llandrillo, Dyserth, Llangollen a Glyndyfrdwy [Gweler gyfeirnod 23]. Mae'r rhain yn cynnwys y cymunedau mwyaf difreintiedig yn Sir Ddinbych, yn arbennig y Rhyl, Prestatyn a Dinbych, sydd hefyd yn dod o fewn dosbarth uwch yn y Mynegai Perygl Llifogydd Cymdogaethau. Mae ardaloedd perygl llifogydd yn Sir Ddinbych i'w gweld yn ffigur 5.

3.38 Mae llifogydd dŵr wyneb yn fwyaf cyffredin mewn ardaloedd adeiledig/trefol yn y gogledd yn bennaf, gan gynnwys Llanelwy, y Rhyl a Phrestatyn lle mae datblygiadau fel ffyrdd, adeiladau ac arwynebau caled eraill yn atal dŵr glaw rhag ymdreiddio i'r ddaear [Gweler gyfeirnod 24]. Gall ddigwydd hefyd mewn ardaloedd gwledig lle mae glaw trwm yn rhedeg oddi ar gaeau ar lethrau serth, tir cywasgedig ac arwynebau anhydraidd eraill. Yn arbennig, mae gan Fynydd Hiraethog a Choedwig Clocaenog gerllaw ac ardaloedd gwledig ar hyd coridor Afon Clwyd ardaloedd o berygl llifogydd uchel oherwydd dŵr wyneb. [Gweler gyfeirnod 25].

3.39 Ar y cyfan, dangosir bod gan Sir Ddinbych 8,320 eiddo mewn perygl o lifogydd llanw, 3,097 eiddo mewn perygl o lifogydd afon a 3,776 eiddo mewn perygl o lifogydd dŵr wyneb. Mae'r ffigurau eiddo hyn mewn perygl yn seiliedig ar FRAW (Asesiad Perygl Llifogydd Cymru), sef set ddata modelu cenedlaethol ac nid yw'n ystyried astudiaethau/tystiolaeth modelu manwl lleol nac effaith newid yn yr hinsawdd. Fodd bynnag, mae'r niferoedd hyn bron yn sicr o gynyddu wrth i newid yn yr hinsawdd gyflymu. [Gweler gyfeirnod 26].

3.40 Gellir dylunio Isadeiledd Gwyrdd i leihau'r perygl o lifogydd o bob ffynhonnell, drwy leihau cyflymder a maint y dŵr ffo sy'n mynd tuag at ddraeniau, carthffosydd cyfun a chyrsgiau dŵr. Gan weithio gyda phrosesau naturiol, gall **mesurau rheoli llifogydd naturiol** leihau llifogydd ar raddfa ddalgylchol a lleol. Os plannir coetir (ar lannau afonydd) wrth ymyl afonydd a

sianeli sy'n llifo gyda dŵr glaw ar ôl stormydd difrifol, gall y lleiniau coetir hyn fod yn rhwystr olaf i lif trostir a, thrwy hynny, leihau difrifoldeb ymchwydd afonydd. Yn Sir Ddinbych, mae mapio Gwybodaeth Cymru ar gyfer Atebion yn Seiliedig ar Natur yn amlygu cyfleoedd mawr ar gyfer plannu coetir ar lannau afon Clwyd, rhwng y Rhyl a Rhuddlan, a rhwng Bodfari a Rhuthun. Mae cyfleoedd mawr gan Gynwyd a Llandrillo hefyd i blannu coetir ar hyd yr Afon Dyfrdwy yn y de orllewin **[Gweler gyfeirnod 27]**.

3.41 At hynny, mae **Systemau Draenio Cynaliadwy** yn ddull rheoli dŵr wyneb sy'n dynwared neu'n ymgorffori prosesau a nodweddion naturiol mewn ardaloedd trefol i reoli a thrin dŵr glaw ffo. Mae enghreifftiau o Systemau Draenio Cynaliadwy yn cynnwys pantiau, sianeli â llystyfiant, gerddi glaw, neu byllau gyda llystyfiant naturiol ac is-haenau. Mae Systemau Draenio Cynaliadwy yn cynnwys gosodiadau newydd wedi'u hintegreiddio i ddatblygiad trefol, ac atebion wedi'u hól-osod a gynlluniwyd i reoli a lliniaru dŵr ffo stormydd mewn modd amgylcheddol gynaliadwy. Mae'r nodweddion hyn yn helpu i arafu, hidlo a storio dŵr ffo, gan ganiatáu iddo gael ei amsugno i'r ddaear neu ei ryddhau ar gyfradd reoledig.

3.42 Yn Sir Ddinbych, mae defnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy yn rhan o'r ymdrech i fynd i'r afael â phroblemau draenio trefol a llifogydd. Mae Strategaeth Leol Rheoli Risg Llifogydd Sir Ddinbych yn cydnabod natur amlochrog ac amrywiol Systemau Draenio Cynaliadwy, gan gynnwys basnau cadw (sych), pyllau cadw (gwlyb), pantiau glaswelltog, palmentydd mandyllog, ffosydd cerrig a thoeau 'gwyrrdd' sy'n storio dŵr o fewn ôl troed adeilad ei hun **[Gweler gyfeirnod 28]**.

3.43 Er nad yw wedi'i leoli yn Sir Ddinbych, ond yn awdurdod cyfagos Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, mae "Basin at the 16th" yn Neganwy wedi darparu cynllun GlawLif isadeiledd gwyrdd cyntaf Dŵr Cymru yng ngogledd Cymru. Mae'n fasn gwanhau mawr ar gyfer rheoli dŵr storm a gynhyrchir drwy wahanu dŵr wyneb i fyny'r afon, wedi'i hól-osod ar dir prysgoed blaenorol, wrth ymyl twll rhif 16 ar gwrs golff. Mae'n rhan o raglen amgylcheddol genedlaethol gyffredinol sy'n cael ei darparu gan Dŵr Cymru i leihau gollyngiadau i aber Afon Conwy. Mae'r dyluniad yn cynnwys basn gwanhau agored â phlanhigion, wedi'i leoli'n union gerllaw twll rhif 16 ar Gwrs Golff Maesdu. Mae'r basn a hól-osodwyd yn

darparu storfa a gaiff ei rheoli'n hydrolig gan ddefnyddio cored bren syml gyda slot llif isel yn y cwrs dŵr cyfagos. Roedd gwaith cysylltiedig yn cynnwys adlinio rhan fer o'r cwrs dŵr, darparu pontydd mynediad newydd, a gwaith tirlunio cysylltiedig i leihau faint o bridd sy'n cael ei gludo oddi ar y safle **[Gweler gyfeirnod 29]**.

3.44 Mae'r DLFRMS yn nodi ei fod yn croesawu canllawiau Llywodraeth Cymru ar annog, mabwysiadu a chynnal Systemau Draenio Cynaliadwy, gan roi cyfle i sicrhau bod amwynder a bioamrywiaeth yn cael eu hystyried gyda'r un pwysigrwydd â gwaith rheoli cyfeintiau dŵr **[Gweler gyfeirnod 30]**. Ers mis Ionawr 2019 yng Nghymru, mae Systemau Draenio Cynaliadwy wedi bod yn ofyniad gorfodol ar bob datblygiad newydd sy'n cynnwys mwy nag un adeilad neu ardal adeiladu sy'n fwy na 100m² **[Gweler gyfeirnod 31]**.

3.45 Gall integreiddio Systemau Draenio Cynaliadwy roi manteision amgylcheddol a chynaliadwyedd sylweddol. Mae Buddion Net i Fioamrywiaeth, sef y dull y bydd yn rhaid i ddatblygwyr yng Nghymru ei ddefnyddio i ddangos eu bod wedi cyflawni eu rhwymedigaethau i gynnal a gwella bioamrywiaeth **[Gweler gyfeirnod 32]**, yn annog y gwaith o ymgorffori mesurau ar gyfer bioamrywiaeth ac ecosystemau. Mae hyn yn cynnwys rheoli dŵr llwyd a Systemau Draenio Cynaliadwy i gyfrannu at isadeiledd gwyrdd ehangach a rhwydweithiau ecolegol gwydn **[Gweler gyfeirnod 33]**. Mae'r elfennau hyn yn helpu i reoli dŵr storm, gwella ansawdd dŵr, a chreu cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau amrywiol. Gellir optimeiddio dyluniad cyrff dŵr naturiol, mannau cyhoeddus, ac estheteg ddeniadol ardaloedd trefol i gydbwysu gwelliannau ecolegol ag ymarferoldeb trefol.

3.46 Mewn ymdrech i fynd i'r afael â mater llifogydd llanw, mae ardal ganolog y Rhyl (yn fras rhwng Splash Point i'r dwyrain a'r Ardal Chwarae Plant, gyferbyn â John Steet, i'r gorllewin) wedi ei hamddiffyn gan strwythurau amddiffyniad môr. Fodd bynnag, mae'r rhain yn dirywio ac, os na wneir unrhyw waith atgyweirio, gallant fethu o fewn y 10-15 mlynedd nesaf. Mae Cynllun Amddiffyn yr Arfordir yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r diffygion hyn. Bydd y gwaith o adeiladu'r rhan orllewinol, o'r hen SeaQuarium i John Street, yn cael ei gynnal o fis Chwefror 2023 i fis Hydref 2025, a disgwylir i'r rhan ddwyreiniol o Splash Point

i'r hen SeaQuarium gael ei chwblhau erbyn mis Mawrth 2024 [\[Gweler gyfeirnod 34\]](#).

3.47 Yn debyg, mae amddiffynfeydd ar hyd glan y môr yn diogelu Prestatyn rhag llifogydd o'r môr. Wrth i'r amddiffynfeydd hyn heneiddio mae eu cyflwr yn dirywio ac nid ydynt mwyach yn diogelu'r dref yn ddigon da. Dros yr hanner can mlynedd nesaf bydd newid yn yr hinsawdd yn codi lefel y môr ac achosi stormydd mwy grymus, gan greu tonnau mawr a fyddai'n torri dros yr amddiffynfeydd yn amlach. Heb wella'r amddiffynfeydd mae'r perygl o lifogydd yn effeithio ar gartrefi a busnesau ym Mhrestatyn yn debygol o waethygu yn y dyfodol. Mae Cynllun Amddiffyn Arfordir Canol Prestatyn yn canolbwyntio ar yr ardal sy'n peri'r mwyaf o bryder, sydd gerllaw Clwb Golff y Rhyl. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ym mis Gorffennaf 2022 gan Gyngor Sir Ddinbych a disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau yn 2026. Defnyddiodd y ddau Gynllun Amddiffyn yr Arfordir gyllid gan Gyngor Sir Ddinbych a Rhaglen Rheoli Risg Arfordirol Llywodraeth Cymru [\[Gweler gyfeirnod 35\]](#).

Ansawdd dŵr

3.48 Mae dŵr diogel sydd ar gael yn hawdd yn bwysig i iechyd y cyhoedd, boed yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yfed, defnydd domestig, cynhyrchu bwyd neu at ddibenion hamdden. Gall gwell cyflenwad dŵr a glanweithdra a gwell rheolaeth ar adnoddau dŵr hybu twf economaidd gwledydd. Gall gyfrannu'n fawr at leihau tlodi. Yn 2010, cydnabu Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig yn benodol yr hawl dynol i ddŵr a glanweithdra. Mae gan bawb yr hawl i ddŵr digonol, parhaus, diogel, derbyniol, hygyrch a fforddiadwy at ddefnydd personol a domestig [\[Gweler gyfeirnod 36\]](#).

3.49 Yn Sir Ddinbych, mae dau brif ddalgylch – Afon Clwyd ac Afon Dyfrdwy. Mae'r rhan fwyaf o ddalgylch Afon Clwyd o fewn Gogledd Ddwyrain Cymru gydag un llednant fawr, Afon Elwy, yn bennaf yn ardal Gogledd Orllewin Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae rhan uchaf Afon Dyfrdwy hefyd yn ymestyn i ardal y gogledd-orllewin, gyda'r dalgylch isaf yn ymledu dros y ffin â Lloegr i Wastadedd Swydd Gaer ac aber Afon Dyfrdwy [\[Gweler gyfeirnod 37\]](#).

3.50 Prif ddefnyddiau Afon Dyfrdwy yw cyflenwi dŵr ar gyfer 2.5m o bobl; twristiaeth gan gynnwys pysgota hamdden, canŵio a mordwyo; a chadwraeth natur **[Gweler gyfeirnod 38]**; a ffermio, yn bennaf gwartheg a defaid yn pori ar hyd glannau'r afon. Mae pwysigrwydd strategol y Ddyfrdwy fel ffynhonnell dŵr yfed, a'r risg a achosir iddi gan lygredd, wedi arwain at yr afon yn dod yn un o'r rhai a warchodir fwyaf yn Ewrop ac, o 1999, yn Barth Gwarchod Dŵr dynodedig **[See reference 39]**. Afon Dyfrdwy yw'r afon fwyaf yng Ngogledd Cymru ac mae wedi'i dynodi'n Ardal Cadwraeth Arbennig. Mae ei ddalgylch yn fwy na 1,800 km².

3.51 Yn 2015, nid oedd bron i hanner (48%) yr holl gyrff dŵr wyneb (fel y'u diffinnir gan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr) yn cyflawni statws cyffredinol da neu well yn nalgylch CNC Clwyd, sy'n cynnwys y mwyafrif helaeth o Sir Ddinbych. Mae corff dŵr yn rhan o (neu'n ffurfio holl ddŵr) afon, llyn, dŵr daear neu ddŵr arfordirol. Yn nalgylch Clwyd, mae cyfanswm o 36 o gyrff dŵr. Sgoriodd 42% o'r rhain yn gymedrol, tra sgoriodd 6% yn wael. Mae'r rhesymau dros beidio â chyflawni statws da yn cynnwys **[Gweler gyfeirnod 40]**:

- Llygredd o ardaloedd gwledig (gan gynnwys arferion rheoli tir yn ogystal ag effeithiau o ddefnyddiau eraill, er enghraifft ceffylau/stablau, cyrsiau golff), sy'n gyfrifol am 36% o gyrff dŵr.
- Llygredd o garthion a dŵr gwastraff, sy'n gyfrifol am 33% o gyrff dŵr.
- Addasu ffisegol, sy'n gyfrifol am 17% o gyrff dŵr.
- Asesiad Mesurau Lliniaru, sy'n gyfrifol am 11% o gyrff dŵr.
- Arall, sy'n gyfrifol am 8% o gyrff dŵr.
- Llygredd o drefi, dinasoedd a chludiant, sy'n gyfrifol am 6% o gyrff dŵr.

3.52 Mae traeth y Rhyl wedi'i amgylchynu gan y dref ei hun ac wedi'i leoli wrth ymyl aber Afon Clwyd. Yma, gall y dynodiad dŵr ymdrochi fod yn destun llygredd byrdymor, a achosir pan fydd glaw trwm yn golchi ysgarthion da byw, carthffosiaeth a draeniad trefol i'r môr drwy afonydd a nentydd. Ers 2015, mae'r dŵr ymdrochi wedi'i ddynodi'n 'ddigonol'. Mae'r dyfroedd ymdrochi ar hyd yr arfordir yn hanfodol i'r economi twristiaeth leol **[Gweler gyfeirnod 41]**.

3.53 Gall isadeiledd gwyrdd helpu i wella ansawdd dŵr. Mae llystyfiant yn darparu storfa glaw yn y ffynhonnell, a gall leihau llygredd gwasgaredig drwy wella'r modd y cedwir gwaddod. Hefyd, mae coed a choetiroedd yn effeithiol wrth atal symudiad awyr plaladdwyr o dir amaethyddol, a fyddai fel arall yn mynd i mewn i gyrsiau dŵr **[Gweler gyfeirnod 42]**.

3.54 Mae niwtraliaeth maeth yn ddull o reoli datblygiadau newydd a chynigion am drwyddedau gollwng dŵr, i'w hatal rhag achosi unrhyw gynnydd net mewn maetholion yn ystod y cyfnod awdurdodi. Mae niwtraliaeth maeth yn berthnasol yng Nghymru i ddatblygiadau sy'n gollwng ffosfforws i afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, megis Afon Dyfrdwy **[Gweler gyfeirnod 43]**. Gall IG chwarae rhan werthfawr wrth leihau cyfoethogiad maetholion, yn enwedig o amgylch cyrff dŵr wyneb sensitif. Er y gall plannu ar lannau afonydd helpu i atal cyfoethogiad maetholion, gall IG helpu ymhellach drwy adfer cynefinoedd, gwrychoedd a choridorau sianeli. Nododd map Gwybodaeth Cymru ar gyfer Atebion yn Seiliedig ar Natur gyfleoedd mawr i leihau cyfoethogiad maetholion ar hyd Afon Clwyd, yn enwedig ger Dinbych ac ochr yn ochr â Pharc Sirol Moel Famau, yn ogystal ag ar hyd de yr Afon Dyfrdwy **[Gweler gyfeirnod 44]**.

Ansawdd aer

9. Hyrwyddo a chynnal Rhwydwaith Llwybrau Treftadaeth, o aneddiadau'r cymoedd i ucheldiroedd hanesyddol	Ucheldiroedd (Afon Dyfrdwy a Bryniau Clwyd)					x	x		x
10. Darparu mannau cymunedol amlwrpas a llwybrau teithio hygyrch ar gyfer ymwelwyr a phobl leol yn Llangollen.	Llangollen			x		x		x	x


5.3 Mae gweddill y bennod hon yn amlinellu pob un o'r deg cyfle yn fanwl.

Cyflwynir pob cyfle fel a ganlyn:

- **Cyd-destun:** ymdrin â lleoliad y cyfleoedd a phroblemau lleol yn y rhwydwaith IG
- **Pwrpas:** pam bod y cyfle'n bwysig a pha amcanion strategol y mae'n mynd i'r afael â nhw
- **Disgrifiad:** manylion am brif gydrannau'r cyfle a pham bod y rhain yn fuddiol
- **Heriau:** trosolwg o'r prif heriau posibl i gyflawni
- **Darpariaeth:** trosolwg o sut y gellid darparu'r cyfle drwy'r system gynllunio drwy fecanweithiau a amlinellir ym mhennod 6. Lle canfuwyd ei bod yn annhebygol y gellir darparu cyfle drwy'r system gynllunio yn unig, nodir dulliau darparu amgen neu ychwanegol.

5.4 Rhennir y cyfleoedd yn dair ardal - gogledd, canol a de Sir Ddinbych a dangosir eu lleoliadau ar y ffigurau cysylltiedig.

Figure 9: Strategic Opportunities - North Denbighshire



- Denbighshire county boundary
- Lowland core habitat network - woodland
- Local Nature Reserve
- Site of Special Scientific Interest
- Special Area of Conservation
- Special Protection Area
- Main Rivers

GI Priority Projects

- 1** Creation or expansion of woodland areas adjacent to Maes Gwilyn estate and the Rhyl Cut.
Strategic. Develop a multi-functional blue-green corridor along the River Clwyd.
- 2** Support the extension of the Lon Clwyd cycle route and PRoW network south of Rhuddlan.
- 3** Promote opportunities for greening at Prestatyn Shopping Park and along the High Street.
- 4** Increase the quality and multi-functionality of low-quality amenity greenspace in the residential estate bounded by Marsh Road to the north and Rhydwen Drive to the south

Cyfleoedd IG Allweddol

Gogledd Sir Ddinbych

Cyfle IG 1: Creu llwybr teithio llesol ac ehangu coetir gerllaw ystâd Maes Gwilym a 'Ffos y Rhyl'.



Cyd-destun

5.5 Mae Ffos y Rhyl, sydd wedi'i dynodi'n gwrs dŵr 'prif afon' statudol, yn rhedeg i'r dwyrain o Afon Clwyd, ar draws canol tref y Rhyl drwy Vale Road a Grange Road ac yna allan i Brestatyn. Wrth iddi adael y Rhyl, mae'n mynd drwy warchodfa natur Maes Gwilym, gerllaw ystâd breswyl Maes-Y-Gog. Cafodd

Maes Gwilym gyllid sylweddol yn 2019 i greu coetir ychwanegol, adfer ardal wlyptir, gwella'r safle ar gyfer bioamrywiaeth, gwella mynediad llwybrau troed a gosod mannau eistedd gyda meinciau. Cwblhawyd y gwaith ar ddiwedd 2022 ac mae bellach yn gyrchfan hamdden leol boblogaidd.

5.6 Mae rhan o'r Ffos rhwng y Rhyl a Phrestatyn yn mynd drwy dir amaethyddol preifat a gynhelir. Mae'r Ffos yn mynd o dan chwe phont breifat a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer mynediad cerbydau amaethyddol rhwng caeau, a dwy ffordd breifat. Mae gwybodaeth leol yn awgrymu nad yw'r Ffos yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda ar hyn o bryd a'i bod yn dueddol o ddioddef achosion o dipio'n anghyfreithlon. O ganlyniad, mae ansawdd y dŵr yn wael **[Gweler gyfeirnod 99]**. Mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn dangos bod yr ardal o amgylch Ffos y Rhyl yn agored i berygl llifogydd dŵr wyneb a chyrsgyffwrdd bach.

5.7 Ar wahân i lan y môr, mae'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus rhwng y Rhyl a Phrestatyn yn dameidiog, a rhaid i gerddwyr ddefnyddio palmentydd ar hyd ffyrdd prysur i deithio rhwng y ddwy dref. Nid oes llwybr troed/llwybr beicio hygyrch pwrpasol rhwng y ddau anheddiad. Mae Ffos y Rhyl yn agos iawn at rai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.

Pwrpas y cyfle

5.8 Mae'r cyfle hwn yn ceisio sefydlu llwybr troed / llwybr beicio hygyrch, cysylltiedig ar hyd glan ddeheuol y Ffos, rhwng gwarchodfa natur Maes Gwilym yn nwyrain y Rhyl a Ffordd Penrhwylyfa ym Phrestatyn. Y nod yw ymgorffori coetir newydd, prysgwydd a phlannu blodau gwyllt i greu coridor cynefin parhaus rhwng y ddau anheddiad.

5.9 Mae'r cyfle hwn yn cyd-fynd â'r amcanion strategol a amlinellwyd gan fod ganddo'r potensial i greu a gwella ansawdd cynefinoedd coetir a chynyddu gorchudd canopi, cynyddu atafaeliad carbon, gwella ansawdd dŵr, darparu mwy o fynediad i fannau gwyrdd newydd o safon a gwella a sefydlu cysylltiadau teithio llesol newydd rhwng aneddiadau'r Rhyl a Phrestatyn.

Disgrifiad

5.10 Prif elfen y cyfle hwn yw creu llwybr teithio llesol hygyrch ar hyd glan ddeheuol y Ffos rhwng y ddau anheddiad. Byddai'r llwybr yn croesi i lan ogleddol y Ffos wrth iddo gyrraedd Ysgol Gynradd Clawdd Offa, gan ddefnyddio'r bont fynediad bresennol yn y lleoliad hwn. Yna gellid ymestyn y llwybr ar hyd rhan ogleddol y Ffos drwy Brestatyn, gan ddod i ben yng Ngwarchodfa Natur Prestatyn lle mae'n cwrdd â Gwter Prestatyn a Hawl Tramwy Cyhoeddus presennol. Byddai clymu i mewn i'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus presennol yma a'r llwybr beicio presennol i'r de o'r warchodfa natur yn galluogi cyswllt parhaus yr holl ffordd i ganol y dref Bydd creu'r llwybr hwn yn caniatáu mwy o fynediad at natur a dewisiadau teithio llesol i bobl leol ac ymwelwyr, drwy ddarparu cyswllt teithio llesol diogel oddi ar y ffordd rhwng y Rhyl a Phrestatyn. Bydd hyn yn annog mwy o ymgysylltu cadarnhaol â'r amgylchedd a natur leol, gan gryfhau gwerthfawrogiad o leoliad yr ardal, lleihau achosion presennol o ymddygiad gwrthgymdeithasol a chynyddu lles yn gyffredinol.

5.11 Dylai'r llwybr ddilyn ffurf naturiol y Ffos, gan ddechrau yng ngwarchodfa natur Maes Gwilym a gorffen yn Ffordd Penrhwylyfa ym Mhrestatyn, a mynd drwy'r dirwedd naturiol a rhychwantu pellter o tua 2 cilomedr. Er mwyn sicrhau hygyrchedd, disgwylir i'r llwybr fod o leiaf 2 fetr o led, gydag arwyneb rhannol neu lawn i ganiatáu mynediad diogel i gadeiriau olwyn a beicwyr. Dylai'r cyswllt teithio llesol newydd gyrraedd safonau hygyrchedd uchel, gan gynnwys darparu meinciau a chyfeirbwyntiau o ansawdd. Mae cydrannau eraill yn cynnwys;

- Isadeiledd beicio, gan gynnwys storfa beiciau ac opsiynau neu offer ar gyfer atgyweiriadau brys, wedi'i leoli ar ddau ben y llwybr
- Digon o seddi ar gyfer demograffeg poblogaeth a lefelau ffitrwydd amrywiol

5.12 Yn ogystal â chreu cyswllt teithio llesol newydd rhwng y ddau anheddiad, bydd y llwybr hwn yn rhoi'r cyfle i sefydlu coridor cynefin 10m o led newydd ger y llwybr, yn cynnwys cymysgedd o goetir, prysgwydd a blodau gwyllt. Bydda hyn yn creu coridor cynefin di-dor yn ymestyn rhwng y ddau anheddiad. Byddai

o fudd arbennig i beillwyr, gyda'r llwybr yn mynd drwy eu canol. Bydd buddion o'r gwaith plannu hwn yn dibynnu ar y canlynol:

- Dewis a dylunio'r holl waith plannu mewn ymgynghoriad ag ecolegydd.
- Bydd rhaglen cynnal a chadw effeithiol yn allweddol i sicrhau iechyd y cynefin, i osgoi unrhyw effaith negyddol ar berygl llifogydd i dir fferm cyfagos, a gwelededd a mynediad clir ar hyd y llwybr yn cael eu cadw.

Heriau

5.13 Bydd y rhwydwaith arfaethedig yn rychwantu tua 2 cilomedr o dir amaethyddol preifat, ac o'r herwydd, bydd angen proses ymgynghori gadarn gyda thirfeddianwyr a thrigolion lleol. Gallai wynebu ymateb negyddol gan ymgynghoreion, yn enwedig ffermwyr. Dylid gwneud unrhyw waith plannu ar y cyd â thirfeddianwyr, gan amlygu manteision creu cynefinoedd, a chynlluniau ariannu posibl megis y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a allai hyrwyddo buddion y cynllun i dirfeddianwyr lleol.

Mecanweithiau darparu

5.14 Gallai'r cyfle hwn ddenu cyllid ar gyfer cyflawni, drwy'r system gynllunio ac o ffynonellau eraill. Rhoddir rhestr isod o ffynonellau ariannu a phartneriaid cyflawni posibl.

System gynllunio

- Cyfraniadau datblygwyr ar gyfer isadeiledd
- Darparu buddion net i fioamrywiaeth mewn achosion lle mae cyfraniadau oddi ar y safle yn cael eu hystyried yn eithriadol

Ffynonellau Eraill

- Cynllun Ffermio Cynaliadwy

- Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
- Cronfa Rhwydweithiau Natur
- Sustrans
- Cronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru (a weinyddir gan Trafnidiaeth Cymru)

Partneriaid cyflawni posibl

- Tirfeddianwyr a ffermwyr
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
- Cyngor Sir Ddinbych
- Grwpiau cymunedol lleol

Cyfle Strategol Allweddol 2a / 2b: Sefydlu coridor teithio aml-fodd hygyrch ar hyd Afon Clwyd



Cyd-destun

5.15 Mae Afon Clwyd yn un o ddwy afon fawr yn Sir Ddinbych. Mae Afon Clwyd yn llifo drwy Sir Ddinbych, gan ffurfio'r ffin rhwng Sir Ddinbych a Bwrdeistref Sirol Conwy wrth ei aber. Mae'n codi 7 milltir (11 cilomedr) i'r de-orllewin o Ruthun ac yn disgyn tua 1,200 troedfedd (370 metr) wrth iddi lifo 35 milltir drwy Ddyffryn Clwyd, heibio Llanelwy, i Fôr Iwerddon yn y Rhyl.

5.16 Mae Afon Clwyd yn wynebu heriau o berygl llifogydd, ansawdd dŵr a llygredd, ac mae pob un ohonynt yn debygol o gynyddu o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd. Yn arbennig, yn 2015, nid oedd bron i hanner (48%) yr holl gyrff dŵr wyneb (fel y'u diffinnir gan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) yn cyflawni

statws cyffredinol da neu well yn nalgylch CNC Clwyd, sy'n cynnwys y mwyafrif helaeth o Afon Clwyd. Roedd llygredd o ardaloedd gwledig (gan gynnwys dŵr ffo o amaethyddiaeth) yn gyfrifol am 36% o gyrff dŵr yn methu â chyflawni statws da. Amaethyddiaeth fugeiliol yw'r defnydd tir ar hyd yr afon yn bennaf, gydag ychydig o gnydau â'r. Mae rhannau o lan ddwyreiniol Afon Clwyd yn ffurfio rhan o rwydwaith cynefin craidd yr iseldir ar gyfer glaswelltir, gyda rhannau nodedig yn ymestyn o'r Rhyl i Ruddlan ac i'r gogledd-ddwyrain o Lanelwy. Mae blociau cyfyngedig o goetir ar hyd glan ddwyreiniol yr afon, yn enwedig i'r de o Ruddlan, ond mae'r rhain yn dameidiog.

5.17 Mae Afon Clwyd hefyd yn gartref i lwybr beicio Lôn Clwyd sy'n dilyn glan ddwyreiniol Afon Clwyd rhwng y Rhyl a Rhuddlan, ac yn cysylltu'r ddau anheddiad. Fodd bynnag, mae'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus y tu hwnt i'r rhain yn aml yn dameidiog, gyda chysylltiadau cyfyngedig â manau gwyrdd amwynder lleol, manau gwyrdd lled-naturiol a'r ardal wledig ehangach.

Pwrpas y cyfle

5.18 Pwrpas y cyfle hwn yw gwella cyflwr cynefin a chysylltedd ar hyd Afon Clwyd, tra'n gwella ac ymestyn llwybr beicio / rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus Lôn Clwyd i'r de o Ruddlan.

5.19 Mae'r cyfle hwn yn cyd-fynd â'r amcanion strategol a amlinellwyd, gyda'r potensial i wella ansawdd a gwydnwch cynefinoedd, integreiddio atebion yn seiliedig ar natur i leihau perygl llifogydd a gwella ansawdd dŵr, cynyddu gorchudd canopi coed, darparu mwy o fynediad at fannau gwyrdd o ansawdd da a gwella a sefydlu cysylltiadau teithio llesol newydd.

Disgrifiad

5.20 Byddai'r cyfle hwn yn cyflwyno cynefin glannau afon ychwanegol mewn ardaloedd lle nad yw'n bodoli ar hyn o bryd ar hyd Afon Clwyd, ac yn ymestyn ardaloedd o goetir presennol. Dylai'r ffocws fod ar lannau dwyreiniol yr afon, i'r

gogledd o'r A525 lle mae'r mwyaf o dir âr a lle mae'r gorchudd canopi coed ar ei isaf. Mae data WINS yn dangos y potensial ar gyfer coetir glannau afon, yn enwedig tuag at aber yr afon, i'r gogledd o'r A525. Ceir y rhan fwyaf o dir âr yn yr ardal hon hefyd. Bydd mwy o waith plannu ar lan yr afon yn rheoli llifogydd yn naturiol yn yr ardal hon, yn ogystal â rheoli llygredd / dŵr ffo o dir âr cyfagos, gan wella ansawdd dŵr lleol. Mae ymyriadau penodol i'w hystyried yn cynnwys y canlynol:

- Lle mae gorchudd coed torlannol presennol yn bodoli ac ar droadau naturiol yn yr afon, lledu ardaloedd o gynefin drwy adeiladu oddi ar y sylfaen llystyfiant presennol. Dylid gweithredu rhwystrau i bori o amgylch planhigion newydd, er mwyn caniatáu iddo sefydlu.
- Lle bo modd, cysylltu pocedi o gynefin ar hyd Afon Clwyd, gan greu clustogfa barhaus ar hyd y ddyfrffordd wrth iddi fynd drwy aneddiadau a thir âr. Dylai clustogfeydd glannau afon ymestyn o leiaf 2m y naill ochr i'r afon, gan godi i 5m o led neu fwy lle bo modd.
- Yn enwedig lle mae Afon Clwyd yn mynd drwy dir âr, dylai ardaloedd o gynefin iseldir newydd gael eu lleoli yn y rhannau o'r caeau sydd mewn perygl mwyaf o lifogydd, a thrwy hynny leihau'r effeithiau ar dir cynhyrchiol. Dylai rhywogaethau planhigion dethol fod yn frodorol ac wedi'u cydlynu â thirfeddianwyr ac ecolegwyr lleol.

5.21 Bydd y cyfle hwn yn ategu'r prosiect presennol ar raddfa'r dirwedd i leihau llifoedd uchel i Afon Clwyd a gwella bioamrywiaeth yn rhannau uchaf yr afon ger Cadwyn Clwyd Cyfyngedig. Dylid cysylltu â'r sefydliad hwn i weld sut y gall y cyfle ategu'r prosiect presennol. **[Gweler gyfeirnod 100]**

5.22 Byddai'r cyfle hwn hefyd yn ymestyn ac yn gwella llwybr beicio Lôn Clwyd / Hawliau Tramwy Cyhoeddus i'r de o Ruddlan, gan wella'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus tameidiog yn yr ardal. Gwerthfawrogir y rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn fawr, a chaiff ei ddefnyddio'n helaeth gan drigolion ac ymwelwyr â Sir Ddinbych. Drwy sicrhau bod hygyrchedd Lôn Clwyd yn cael ei wella, gellir darparu mwy o gyfleoedd hamdden, hyrwyddo cyswllt â natur a gwella buddion iechyd i nifer fwy o bobl. At hynny, nid yn unig y byddai'r cyfle hwn yn hybu cyfleoedd ar gyfer cerdded a beicio, ond byddai hefyd yn caniatáu ar gyfer dulliau cludiant amgen rhwng pentrefi a threfi llai i drigolion,

gan hyrwyddo teithio llesol yng ngogledd y Sir. Mae ymyriadau penodol i'w hystyried yn cynnwys:

- Pwyntiau mynediad newydd i'r llwybr presennol i'r gogledd o Ruddlan o'r Rhyl a Rhuddlan, sydd wedi'u diffinio a'u harwyddo'n dda er mwyn annog pobl i'w defnyddio. Byddai lleoliadau penodol ar gyfer hyn yn cynnwys:
 - Ger Ffordd Tan-yr-Eglwys i wella mynediad i Lôn Clwyd o Ruddlan.
 - Yn Ffordd Cefndy i wella mynediad i Lôn Clwyd o'r Rhyl.
- Llwybr newydd i'r de o Ruddlan, wedi'i ddylunio i fod yn hygyrch i bob defnyddiwr drwy ymgorffori argymhellion dylunio llwybr nodweddiadol, megis canllawiau Sustrans ar gyfer lled llwybr beicio, deunydd, ymylon a draeniad **[Gweler gyfeirnod 101]**.



Heriau

5.23 Dylai unrhyw waith plannu gael ei wneud ar y cyd â thirfeddianwyr, gan amlygu buddion plannu wrth lannau afonydd / creu coetir, gan gynnwys gwell ansawdd dŵr, amddiffyn rhag llifogydd a mynediad at gynlluniau ariannu posibl megis y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

5.24 Gall fod yn her nodi cyllid ar gyfer y llwybr beicio, yn enwedig lle mai dim ond at ddiben hamdden y mae'r llwybr, yn hytrach na darparu dulliau teithio llesol dyddiol.

Mecanweithiau darparu

5.25 Gallai'r cyfle hwn ddenu cyllid ar gyfer cyflawni, drwy'r system gynllunio ac o ffynonellau eraill. Rhoddir rhestr isod o ffynonellau ariannu a phartneriaid cyflawni posibl.

System gynllunio

- Darparu buddion net i fioamrywiaeth mewn achosion lle mae cyfraniadau oddi ar y safle yn cael eu hystyried yn eithriadol
- Cyfraniadau datblygwyr ar gyfer isadeiledd
- Ymrwymadau unochrog rhwng CSDd a datblygwyr

Ffynonellau Eraill

- Cynllun Ffermio Cynaliadwy
- Cronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru (a weinyddir gan Trafnidiaeth Cymru)
- Rhaglen Gyfalaf Argyfyngau Natur a Hinsawdd Llywodraeth Cymru

Partneriaid cyflawni posibl

- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Coed Cadw Cymru
- Sustrans
- Cadwyn Clwyd Cyfyngedig (Cronfa Cymunedau Gwyrdd)
- Perchnogion Tir Lleol
- Grwpiau buddiant cymunedol (pysgota, grwpiau caiacio)

Camau nesaf a argymhellir

- Ymgynghori â thirfeddianwyr, cymunedau lleol a grwpiau diddordeb arbennig.
- Cynnal astudiaethau dichonoldeb ac ymgysylltu â datblygwyr ar lwybrau posibl.
- Sefydlu mesuriadau bioamrywiaeth sylfaenol, ac ardaloedd o angen ar hyd y llwybr.
- Archwilio cyfleoedd ariannu ychwanegol.

Cyfle Strategol Allweddol 3: Hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer gwyrddni ym Mharc Siopa Prestatyn ac ar hyd y Stryd Fawr.

Cyd-destun

5.26 Prestatyn yw un o ardaloedd trefol dwysedd uchaf Sir Ddinbych, gyda thua 1,195 o bobl fesul cilomedr sgwâr. Mae Safonau Mannau Gwyrdd Naturiol Hygyrch Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi y dylai pawb fyw o fewn 300m i'w man gwyrdd naturiol agosaf. Maent yn datgan y dylai pob man gwyrdd naturiol fod yn

0.25 hectar neu fwy ac y dylid gwneud darpariaeth ar gyfer o leiaf 2 hectar o fannau gwyrdd naturiol fesul 1000 o bobl. Mewn ardaloedd trefol sefydledig fel Prestatyn mae cynyddu darpariaeth, yn enwedig mannau gwyrdd mwy, yn anoddach. Mae data CNC WINS yn nodi ardaloedd yng nghanol Prestatyn fel rhai sydd â'r galw mwyaf am fannau gwyrdd hygyrch.

5.27 Mae Parc Siopa / Stryd Fawr Prestatyn yn gryno a'r mannau gwyrdd yn gyfyngedig iawn. Mae hyn yn bennaf oherwydd faint o le sydd wedi'i gadw ar gyfer parcio ceir yn y Parc Siopa, a mynediad i gerbydau ar hyd y Stryd Fawr, sy'n cynnwys traffig unffordd o Heol Penisardre i Gronant Road yn ne canol y dref. Yn arbennig, prin yw'r cysylltedd i gerddwyr rhwng y Parc Siopa a'r Stryd Fawr, ac mae'r arwyddion yn gyfyngedig. Mae hyn wedi effeithio ar nifer yr ymwelwyr â'r Stryd Fawr, sy'n gartref i siopau llai ac annibynnol. Ymysg Marks and Spencer a Tesco, mae Parc Siopa Prestatyn yn cynnwys bron i 200,000 troedfedd sgwâr o ofod manwerthu, wedi'i leoli'n agos at ganol y dref. Oherwydd y ddibyniaeth ar y defnydd o gerbydau preifat yn Sir Ddinbych, mae'r Parc Siopa yn denu nifer fawr o ymwelwyr oherwydd ei hygyrchedd i geir. Mae maes parcio mawr a pharcio am ddim, sy'n ei gwneud yn hawdd cael mynediad i siopau cadwyn mwy.

5.28 Y prif fan gwyrdd presennol yng nghanol y dref yw'r parc a'r ardd breifat sy'n gysylltiedig ag Eglwys Crist. Mae gerllaw'r stryd fawr ond mae'n gyfyngedig o ran maint ac nid yw'n hygyrch i'r cyhoedd.

Pwrpas y cyfle

5.29 Pwrpas y cyfle hwn yw darparu mwy o fynediad i IG yn un o brif ganolfannau trefol Sir Ddinbych, y mae hygyrchedd a chyfleoedd ar gyfer IG yn amlwg yn gyfyngedig. Mae'n amlwg hefyd bod lefelau uchel o amddifadedd.

5.30 Mae'r cyfle hwn yn cyd-fynd â'r amcanion strategol a amlinellwyd gan fod ganddo'r potensial i integreiddio datrysiadau'n seiliedig ar natur i barth cyhoeddus Prestatyn, cynyddu gorchudd canopi'r dref, integreiddio Systemau

Draenio Cynaliadwy, cefnogi twf cymunedol a hybu mannau gwyrdd sy'n canolbwyntio ar y gymuned yng nghanol y dref.

Disgrifiad

5.31 Byddai'r cyfle hwn yn golygu ymgorffori IG yn y strydlun, gan wella mynediad i fannau gwyrdd naturiol a lled-naturiol i drigolion ac ymwelwyr â Phrestatyn.

5.32 Mae llawer o'r unedau manwerthu yn y Parc Siopa yn cynnwys ffasadau mawr gwag sy'n amharu ar gymeriad yr ardal. Mae'r rhain yn cyflwyno cyfleoedd i ymgorffori waliau gwyrdd wedi'u cynllunio'n ofalus, a fyddai'n cyfrannu at amwynder gweledol, gwella ansawdd aer a lleihau effaith gwres trefol. Mae dwy wal werdd eisoes wedi'u cyflwyno yn y Parc Siopa, ond mae'r rhain yn fach o ran maint ac wedi'u cuddio o'r golwg. Mae cyfleoedd penodol i integreiddio waliau gwyrdd newydd yn bodoli ar:

- Wal fawr Archfarchnad Tesco sy'n wynebu'r gorllewin.
- Dwy wal frics fawr ar ochrau gorllewinol a deheuol siop Marks and Spencer. Mae'r olaf wedi'i leoli ar y fynedfa i'r Parc Siopa.
- Wal siop Costa Coffee sy'n wynebu'r gogledd. Mae hwn wedi'i leoli wrth un o brif fynedfeydd y Parc Siopa, yn union gyferbyn â wal frics Marks and Spencer sy'n wynebu'r de.

5.33 Mae llawer o'r Parc Siopa wedi'i ddominyddu gan faes parcio mawr, sy'n gwasanaethu'r siopau manwerthu yn y Parc Siopa a llawer o'r siopau manwerthu llai ar y Stryd Fawr. Oherwydd natur galed y meysydd parcio, nid yw'r llecyn yn cynnig fawr ddim man gwyrdd, coed na phlanhigion ar hyn o bryd ac eithrio darn bach o laswelltir ym mynedfa ddeheuol y parc. Ychydig iawn o lwyni sydd o amgylch ffiniau'r de-orllewin a'r dwyrain hefyd.

5.34 Mae llawer o gyfleoedd i greu maes parcio 'gwyrdd', a fyddai'n cyfrannu at oeri, lleihau'r effaith gwres trefol, darparu mannau gwyrdd ychwanegol a chreu

cynefinoedd posibl. Mae nodweddion allweddol i integreiddio i'r maes parcio presennol yn cynnwys:

- Plannu mwy o goed a llwyni. Gellid lleoli planhigion ar hyd perimedr y llwybrau i gerddwyr neu eu hintegreiddio i ddyluniad y maes parcio.
- Cyflwyno colofnau planhigion i oleuadau stryd presennol ar draws y Parc Siopa. Mae'r defnydd o blannu colofnog wedi'i ddylunio fel dewis amgen i blannu coed mewn ardaloedd lle mae tagfeydd.

5.35 Yn ogystal â gwneud y Parc Siopa yn wyrdd, mae yna nifer o gyfleoedd ar hyd Stryd Fawr Prestatyn i gyflawni hyn hefyd, gan leihau'r ymdeimlad o ardal drefol sy'n cael ei dominyddu gan dirwedd galed. Yn benodol, gallai hyn gynnwys:

- Mwy o blanhigion drwy gael gwared ar rai mannau parcio ar y stryd, a throi'r rhain yn barciau poced bach gyda phlanhigion bioamrywiol a seddi. Bydd hyn yn fodd i liniaru llygredd a achosir gan dagfeydd ar hyd y stryd fawr, darparu cysgod ac yn liniaru rhywfaint o lifogydd ar yr wyneb.
- Lle mae cyrbau presennol yn bodoli ar gyfer cerbydau, ystyried cyflwyno coed stryd a phlanhigion ychwanegol, a fydd hefyd yn gweithredu fel elfennau tawelu traffig.
- Creu gwell integreiddiad rhwng y parc a'r stryd fawr drwy lwybrau gwell, planhigion cydlynol a llyfydd eistedd a golau cyson.

Heriau

5.36 Y brif her i'r cyfle hwn fyddai ymgysylltu â pherchnogion parciau siopa, a allai wrthwynebu i golli gofodau parcio ceir. Efallai y bydd angen asesiad parcio i nodi faint o leoedd y gellid eu colli heb leihau nifer yr ymwelwyr. Gallai gwelliannau cysylltiedig i deithio llesol neu gysylltedd cludiant cyhoeddus liniaru effeithiau gostyngiad mewn gofodau parcio ceir, gan annog mwy o gludiant drwy ddulliau cynaliadwy.

5.37 Mae'r rhan fwyaf o'r ymyriadau a awgrymir fel rhan o'r cyfle hwn yn gymharol rad. Maent yn annhebygol o ddenu cyllid o ddatblygiadau newydd yn yr ardal neu drwy arian grant, gan y byddent yn cael eu darparu gan fentrau preifat. Fodd bynnag, gellid eu hatodi fel amod ar gyfer unrhyw geisiadau cynllunio y mae busnesau presennol yn eu cyflwyno. Gellid ceisio cyfraniadau ariannol gan fusnesau a fyddai'n elwa o integreiddio'r IG hwn.

Mecanweithiau darparu

5.38 Gallai'r cyfle hwn ddenu cyllid ar gyfer cyflawni, drwy'r system gynllunio ac o ffynonellau eraill. Rhoddir rhestr isod o ffynonellau ariannu a phartneriaid cyflawni posibl.

System gynllunio

- Ymrwymadau unochrog rhwng CSDd a datblygwyr
- Cyfraniadau datblygwyr ar gyfer isadeiledd
- Darparu buddion net i fioamrywiaeth mewn achosion lle mae cyfraniadau oddi ar y safle yn cael eu hystyried yn eithriadol
- Gweithredu Systemau Draenio Cynaliadwy mewn datblygiadau newydd

Ffynonellau Eraill

- Cronfeydd plannu coed cenedlaethol, gan gynnwys rhaglen Coedwigoedd Bach yng Nghymru
- Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
- Cadwyn Clwyd Cyfyngedig (Cronfa Cymunedau Gwyrdd)
- Cronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru (a weinyddir gan Trafnidiaeth Cymru)
- Rhaglen Gyfalaf Argyfyngau Natur a Hinsawdd Llywodraeth Cymru

- Rhaglen Trawsnewid Trefi

Partneriaid cyflawni posibl

- Busnesau lleol
- Datblygwyr
- Sustrans
- Trigolion lleol a grwpiau cymunedol

Camau nesaf a argymhellir

- Cychwyn ymgynghoriad gyda busnesau a thrigolion lleol.
- Nodi partneriaethau, cytuno ar gwmpas y prosiect a blaenoriaethau.
- Ymgynghoriadau cyhoeddus, i ennyn cymorth a chefnogaeth leol.
- Archwilio cyfleoedd ariannu ychwanegol.

Cyfle Strategol Allweddol 4: Gwella ansawdd ac aml-swyddogaeth mannau gwyrdd amwynder o ansawdd isel yn yr ystâd breswyl sy'n ffinio â Marsh Road i'r gogledd, a Rhydwen Drive i'r de.



Cyd-destun

5.39 Yn Sir Ddinbych, mae'r ardaloedd a nodir gan ddata WINS fel rhai sydd â'r galw mwyaf am fannau gwyrdd hygyrch trefol yn cyd-fynd yn agos ag ardaloedd lle ceir lefelau uwch o amddifadedd. Yn arbennig, mae ystadegau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru sy'n seiliedig ar ystod o ffactorau cymdeithasol-economaidd yn nodi mai 'Gorllewin y Rhyl 2' yw'r mwyaf difreintiedig o'r 1,896 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru. O ystyried y buddion i iechyd a lles a geir drwy gael mynediad i fannau gwyrdd o ansawdd da, byddai

manteision sylweddol i gymunedau lleol pe bai mynediad i fannau gwyrdd o ansawdd da yn cael ei wella. Mae'r ystâd breswyl sy'n ffinio â Marsh Road i'r gogledd a Rhydwen Drive i'r de wedi'i lleoli yn 'Gorllewin y Rhyl 2' ac felly dyma'r mynediad mwyaf cyfyngedig i fannau gwyrdd a'r ardal sydd fwyaf mewn angen.

5.40 Er bod gan yr ystâd bocedi bach o laswellt amwynder, nid yw'r rhain yn darparu fawr ddim pwrpas hamdden ac nid ydynt yn amlbwrpas.

Pwrpas y cyfle

5.41 Pwrpas y cyfle hwn yw darparu IG amlswyddogaethol newydd o ansawdd uchel i ystâd breswyl o fewn Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig Cymru.

5.42 Mae'r cyfle hwn yn cyd-fynd â'r amcanion strategol a amlinellwyd, gan fod ganddo'r potensial i wella ansawdd a gwydnwch cynefinoedd lleol. Gall integreiddio atebion yn seiliedig ar natur i ardaloedd preswyl yng ngorllewin y Rhyl, cynyddu gorchudd canopi yn yr ardal, integreiddio Systemau Draenio Cynaliadwy i reoli perygl llifogydd dŵr wyneb yn well, drwy atal dŵr ffo o strydoedd cyfagos. Gall hefyd gefnogi cydlyniant cymunedol a darparu hygyrchedd i fannau gwyrdd newydd o ansawdd uchel i wella iechyd a lles.

Disgrifiad

5.43 Byddai'r cyfle hwn yn gwella mynediad i fannau gwyrdd o ansawdd da. Byddai manteision o ran rheoli llifogydd dŵr wyneb a chynefinoedd cysylltiedig, drwy wella ansawdd a defnyddioldeb yr ardaloedd o laswellt amwynder presennol sydd wedi'u gwasgaru o fewn stadau preswyl presennol.

5.44 Gellid gwella mannau gwyrdd bach presennol o fewn yr ystâd (er enghraifft Man Chwarae Chatsworth Road) drwy gynnwys;

- Plannu ffin is, i greu gwahaniad gweledol a chanfyddiadol oddi wrth y ffordd heb rwystro gwelededd (am resymau diogelwch cymunedol). Rhaid i'r planhigion hyn fod yn fioamrywiol, yn frodorol a gallant ddarparu gwedd i'r gofod.
- Strwythurau chwarae bach naturiol sy'n gwasanaethu amrywiol ddemograffeg ieuenctid, o blant ifanc hyd at bobl ifanc yn eu harddegau.
- Llefydd i eistedd, gyda'r potensial ar gyfer byrddau amldeffnydd sy'n darparu ar gyfer gweithgareddau hamdden a chymdeithasol.
- Integreiddio gerddi glaw i reoli dŵr wyneb.
- Gosod gwaith celf cymunedol ar hyd y waliau terfyn presennol, a rhaglen o weithgarwch cysylltiedig i ymgysylltu cymunedau â dyluniad, darpariaeth a gwaith rheoli'r cyfle.

5.45 Mae cyfle hefyd i greu cyswllt cryfach â'r ardaloedd naturiol cyfagos, megis Coetir Cymunedol Glan Morfa. Gellir cyflawni hyn drwy blannu coed stryd cryfach ar hyd Marsh Road, gan greu cyswllt gweledol i'r ardal goetir. Mae lôn feics yn bodoli ar hyd y palmant ar Marsh Road, ond gellid ei diffinio'n well, gyda chyfeirbwyntiau a marciau stryd ychwanegol. Mannau croesi diogel i gerddwyr o'r ystâd i'r coetir cymunedol.

Heriau

5.46 Dylid dylunio a gweithredu'r holl ymyriadau ar y cyd â chymunedau lleol er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion lleol. Rhaid sicrhau perchnogaeth gymunedol a lleihau achosion posibl o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ogystal. Byddai angen sefydlu rhaglen gynnal a chadw wedi'i hariannu, a allai gynnwys mabwysiadu a rheoli'r lleoedd gwag gan sefydliad cymunedol penodedig pe bai galw am hyn a chapasiti.

Mecanweithiau darparu

5.47 Gallai'r cyfle hwn ddenu cyllid ar gyfer cyflawni, drwy'r system gynllunio ac o ffynonellau eraill. Rhoddir rhestr isod o ffynonellau ariannu a phartneriaid cyflawni posibl.

System gynllunio

- Cyfraniadau datblygwyr ar gyfer isadeiledd
- Ymrwymadau unochrog rhwng CSDd a datblygwyr
- Gweithredu Systemau Draenio Cynaliadwy mewn datblygiadau newydd

Ffynonellau eraill

- Rhaglen Trawsnewid Trefi
- Cronfeydd plannu coed cenedlaethol, gan gynnwys rhaglen Coedwigoedd Bach yng Nghymru
- Cronfa Gyfalaf Lleoedd Lleol ar gyfer Natur
- Cronfa Rhwydweithiau Natur
- Cronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru (a weinyddir gan Trafnidiaeth Cymru)
- Llwybrau Diogel mewn Cymunedau
- Cronfa Ddatblygu Cymunedau Gwledig

Partneriaid cyflawni posibl


- Trigolion lleol a grwpiau cymunedol
- Sustrans
- Cadwyn Clwyd Cyfyngedig (Cronfa Cymunedau Gwyrdd)

Camau nesaf a argymhellir

- Nodi grwpiau cymunedol a thrigolion lleol i gymryd rhan mewn ymgynghoriad a phartneriaeth.
- Ymgynghoriadau cyhoeddus, i ennyn cymorth a chefnogaeth leol.
- Archwilio cyfleoedd ariannu ychwanegol.

Figure 10: Vignette of Key Opportunity 4

4 Key Opportunity 4 - Increase the quality and multifunctionality of low-quality amenity greenspace in the residential estate bounded by Marsh Road to the north and Rhydwen Drive to the south.



-  Enhance existing small green spaces within the estate with additional planting, seating and recreational infrastructure and natural play areas.
-  Improve connection to surrounding nature reserves and green spaces, with increased wayfinding, street planting, and cycle infrastructure.
-  Improve streetscape presence, particularly along Marsh Road, with community artworks, new planting, and seating options.

Contains Natural Resources Wales information © Natural Resources Wales and database right. Contains derived Ordnance Survey Data. Ordnance Survey license number 100019741. Crown Copyright and Database right 2024.




Figure 11: Strategic Opportunities - Central Denbighshire

- Denbighshire county boundary
- Lowland core habitat network - woodland
- Local Nature Reserve
- Site of Special Scientific Interest
- Special Area of Conservation
- Special Protection Area
- Main Rivers

GI Priority Projects

- Embrace and enhance the riverine setting of the settlement, between two rivers at St Asaph.
- Increase the extent and connectivity of habitat and greenspace surrounding Denbigh.
- Increase the extent and connectivity of habitat and greenspace surrounding Ruthin.

Canol Sir Ddinbych

Cyfle Allweddol 5: Gwella a manteisio ar leoliad afonol yr anheddiad, rhwng dwy ddyfrffordd Llanelwy.

Cyd-destun

5.48 Mae anheddiad Llanelwy ychydig i'r de o gydlifiad Afon Elwy ac Afon Clwyd, gyda'r amlen drefol fel arfer wedi'i threfnu ochr yn ochr â'r dyfrffyrdd. Ychydig o gysylltiadau dwyrain-gorllewin sydd ar draws yr anheddiad, gyda rhwydwaith tameidiog o Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn aml ar hyd ffyrdd presennol. Yn ogystal, mae ardaloedd o fannau cyhoeddus neu fannau gwyrdd agored gan amlaf wedi'u datgysylltu oddi wrth ei gilydd o fewn yr anheddiad.

5.49 Mae'r agosrwydd at yr afon hefyd yn her o ran perygl llifogydd. Mae llifogydd dŵr wyneb yn fygythiad ar hyd hanner gorllewinol yr anheddiad, sydd ar y drychiad isaf ac sydd wedi'i ddisbarthu'n bennaf yn Barth Llifogydd 3. Mae ardaloedd cyfyngedig o fannau gwyrdd naturiol ar hyd hanner gorllewinol Afon Clwyd, sy'n gweithredu fel clustogau naturiol yn ystod glaw. Mae tir i'r gogledd o'r A55 yn dir fferm a reolir yn bennaf, tra i'r de o'r A55 mae'r gwaith caledu helaeth o fewn yr anheddiad yn cyfyngu ar gapasiti storio llifogydd cyffredinol.

Pwrpas

5.50 Nod y cyfle hwn yw sefydlu cyfres fwy rhyng-gysylltiedig o lwybrau troed drwy'r anheddiad, ar draws Afon Elwy ac yn ymestyn tuag at Afon Clwyd. Mae'n ymgorffori strategaethau rheoli llifogydd naturiol gan gynnwys mwy o gapasiti storio llifogydd.

Disgrifiad

5.51 Un elfen o'r cyfle hwn yw creu neu wella llwybrau troed o fewn yr anheddiad. Bydd gwella'r rhwydwaith llwybrau troed presennol yn galluogi mwy o fynediad at natur a dewisiadau teithio llesol i drigolion lleol ac ymwelwyr. Bydd hyn yn annog mwy o ymgysylltu â'r amgylchedd a natur leol, gan gryfhau gwerthfawrogiad o leoliad unigryw Llanelwy a chynyddu lles yn gyffredinol.

5.52 Dylid defnyddio llwybrau troed presennol ar hyd Afon Elwy fel sail ar gyfer canghennau newydd, gan ymestyn oddi ar y coridor las ac i mewn i graidd yr anheddiad. Mae pont droed yn bodoli ger Llyfrgell a Chlwb Criced Llanelwy, sef yr unig lwybr di-gerbyd dros Afon Elwy yn yr anheddiad. Dylid ystyried sefydlu llwybrau troed newydd neu gysylltu llwybrau presennol. Gallai cyfleoedd penodol ar gyfer hyn gynnwys:

- Afon Elwy tuag at Eglwys Gadeiriol Llanelwy, ar draws Ffordd Dinbych Uchaf tuag at y llwybr troed presennol ar dir yr ysgol uwchradd.
 - Gwell llwybr, gan gyflwyno palmant cyson neu arwyddion amlwg.
 - Planhigion wedi'u cynnal a'u cadw ar hyd y llwybr, gan glirio llystyfiant lle bo angen er mwyn gwella gwelededd a diogelwch.
 - Croesfan well yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy a Ffordd Dinbych Uchaf, gyda chroesffordd uwch, arwyddion a phlanhigion fel elfennau tawelu traffig.
 - Ailwrpasu rhan o'r palmant llydan ychwanegol ar hyd Ffordd Dinbych Uchaf ar gyfer llwybr aml-fodd wedi'i ddiffinio, a all ffurfio asgwrn cefn gwell o'r gogledd i'r de drwy ganol yr anheddiad.
- Man agored Y Comin i Stryd y Felin, tuag at y llwybrau presennol yn Gemig Street a Rhodfa'r Eglwys Gadeiriol, sefydlu llwybr troed newydd ar hyd Bryn Gobaith, heibio'r maes chwarae yn Llys Celyn, a chysylltu â'r rhwydwaith presennol i'r gogledd.
 - Lledu llwybrau troed presennol lle bo modd, gan ddefnyddio marciau stryd neu balmentydd i amlygu defnydd a rennir ac i wella diogelwch i gerddwyr.

- Croesi dros Lower Street, gan ddefnyddio arwyddion ac elfennau tawelu traffig. Ystyried palmant fel elfen uno ar hyd y llwybr.
- Dylid ystyried pont droed newydd dros Afon Elwy yn hanner deheuol yr anheddiad, gan gysylltu cymdogaethau preswyl ar hyd Ffordd Dinbych Isaf a Paddock/Bishops Walk.
- Ffurfioli llwybrau troed drwy'r mannau gwyrdd presennol ar hyd Afon Elwy, gan gryfhau'r cysylltiadau o hanner gorllewinol yr anheddiad i ganol y dref.
- Cryfhau cysylltiadau ag Afon Clwyd i'r dwyrain o'r anheddiad, gan gysylltu â mannau natur posibl ar hyd y ddyfrffordd.

5.53 Mae elfen arall y cyfle hwn yn gysylltiedig â'r cyntaf, gan ymgorffori mesurau lliniaru llifogydd naturiol yn y coridorau glaswyrdd hyn sy'n datblygu. Awgrymodd adroddiad diweddar y byddai'r mesurau llifogydd naturiol mwyaf buddiol yn cael eu cyflawni yn y dalgyllch uchaf, ac y dylai unrhyw waith a gyflawnir fel rhan o'r cyfle hwn gael ei wneud ar y cyd â gwaith sy'n cael ei wneud gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ogystal â'r prosiect presennol ar Afon Clwyd gan Cadwyn Clwyd Cyfyngedig. Mae potensial i wella'r mesurau Rheoli Llifogydd yn Naturiol hyn yn y dalgyllchoedd uchaf, gyda mesurau yn is i lawr yr afon, yn nes at Lanelwy. Bydd gorlifdroedd wedi'u hadfer, basnau llifogydd a phlanhigion clustogi ar hyd yr afonydd yn lleihau'r perygl o lifogydd drwy arafu llif y dŵr a chynyddu'r gallu i storio dŵr, tra hefyd yn cynyddu cysylltedd cynefinoedd tir isel. Mae cyfleoedd hefyd ar gyfer elfennau hamdden integredig, a fyddai'n gwella mynediad at natur i drigolion lleol hyd yn oed yn fwy.

- Adfer gorlifdir ar hyd Afon Elwy mewn ardaloedd o dir â'r ymylol sy'n dioddef llifogydd cyson.
 - Gwlyptir, glaswelltir gwlyb, a choetir glannau afonydd, wedi'u sefydlu o fewn ac yn ymyl troellau naturiol yr afon
 - Cynlluniau rheoli cynefinoedd sy'n annog adfywiad naturiol brithwaith cynefinoedd tir isel.
- Ehangu bandiau llystyfiant glannau afon lle mae cyfyngiadau gofod llorweddol neu ddefnyddiau tir eraill yn cyfyngu ar ymyriadau mwy.

- Cynefinoedd glannau afon wedi'u hail-naturïoli ar hyd Afon Elwy, yn enwedig gan ei bod yn llifo drwy graidd yr anheddiad.
- Plannu planhigion clustogi ar hyd caeau hamdden a mannau eraill o laswelltir sydd ar y gorlifdir.
- Ailraddio rhai ardaloedd o fewn gorlifdir Elwy, gan ymgorffori strategaeth arbed tir drwy greu ardaloedd ar gyfer storio llifogydd.
 - Byndiau sy'n cynyddu amddiffyniad rhag llifogydd tra hefyd yn cyflwyno ardaloedd uchel ar gyfer golygfeydd a chwarae.
 - Mannau cerfiedig a ddefnyddir fel caeau chwaraeon neu ddefnydd hamdden arall (amffitheatr) pan nad ydynt yn cadw dŵr.
- Llwybrau troed uchel ar hyd yr afon, gan ganiatáu mynediad diogel ar adegau o law trwm neu lifogydd, yn ogystal â diogelu safleoedd ecolegol sensitif wrth i gynefinoedd iseldir newydd gael eu sefydlu.
 - Ystyried llwybrau pren lle bo modd, gan ragweld llifogydd yn amlach a mwy difrifol yn y dyfodol.

Heriau

5.54 Bydd angen gwneud gwaith cynllunio a rheoli manwl ar gyfer yr ardal fawr o leoliadau posibl ar gyfer y cyfle hwn, a gall y broses adeiladu fod yn hir oherwydd y gwasgariad daearyddol. Bydd angen proses ymgynghori gadarn gyda thirfeddianwyr a thrigolion lleol ac mae'n bosib y ceir ymateb negyddol gan ymgynghoreion, yn enwedig ffermwyr. Gall dod o hyd i ddigon o gyllid fod yn her.

5.55 Mae rhai o'r cyfleoedd yn ddewisiadau cost uchel, yn enwedig y llwybrau troed a'r bont droed newydd. Byddai angen cynnal astudiaethau dichonoldeb manwl ac achosion busnes i sefydlu eu hyfywedd. Dylid blaenoriaethu'r cyfleoedd yn ôl asesiad cost a budd ac argaeledd cyllid priodol.

Mecanweithiau darparu

5.56 Gallai'r cyfle hwn ddenu cyllid ar gyfer cyflawni, drwy'r system gynllunio ac o ffynonellau eraill. Rhoddir rhestr isod o ffynonellau ariannu a phartneriaid cyflawni posibl.

System gynllunio

- Cyfraniadau datblygwyr ar gyfer isadeiledd
- Darparu buddion net i fioamrywiaeth mewn achosion lle mae cyfraniadau oddi ar y safle yn cael eu hystyried yn eithriadol
- Ymrwymadau unochrog rhwng CSDd a datblygwyr

Ffynonellau Eraill

- Cynllun Ffermio Cynaliadwy
- Cronfa Dreftadaeth
- Cronfa Rhwydweithiau Natur
- Cronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru (a weinyddir gan Trafnidiaeth Cymru)
- Rhaglen Gyfalaf Argyfyngau Natur a Hinsawdd Llywodraeth Cymru
- Llwybrau Diogel mewn Cymunedau

Partneriaid cyflawni posibl


- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Coed Cadw Cymru
- Cadwyn Clwyd Cyfyngedig (Cronfa Cymunedau Gwyrdd)
- Perchnogion Tir Lleol

Camau nesaf a argymhellir




- Gofyn am ymgynghoriad â thirfeddianwyr lleol, cymunedau lleol a grwpiau diddordeb arbennig.
- Nodi lle mae'r angen mwyaf am lwybrau troed, a chwilio am fannau gwyrdd segur sydd eisoes wedi'u gwreiddio'n agos at aneddiadau.
- Cydweithio â ffermwyr a thirfeddianwyr i nodi ardaloedd ar hyd Afon Elwy ac Afon Conwy ar gyfer adfer gorlifdir a phlannu wrth lan yr afonydd.
- Archwilio cyfleoedd ariannu ychwanegol.

Figure 12: Vignette of Key Opportunity 5

5 Key Opportunity 5 - Embrace and enhance the riverine setting of the settlement, between the two waterways of St Asaph.



Contains Natural Resources Wales information © Natural Resources Wales and database right. Contains derived Ordnance Survey Data. Ordnance Survey license number 100019741. Crown Copyright and Database right 2024.

-  Establish new footpaths or connect existing footpaths, using the River Elwy as the base for new branches and to extend the routes further into the settlement core.
-  Floodplain restoration along the River Elwy and River Clwyd, with widened habitat buffers and riparian plantings where appropriate.
-  Multifunctional flood storage areas along the River Elwy, with embedded recreational elements such as bunds or elevated footpaths.

Cyfle Allweddol 6: Cynyddu maint a chysylltedd cynefinoedd a mannau gwyrdd o amgylch Dinbych.

Cyd-destun

5.57 Saif Dinbych ar y ffin rhwng tirwedd amaethyddol ffrwythlon Dyffryn Clwyd i'r dwyrain a thirwedd fwy bugeiliol Mynydd Hiraethog i'r gorllewin. Mae rhan hynaf y dref wedi'i threfnu i'r gogledd o frigiadau creigiog lle saif gweddillion Castell Dinbych, gyda datblygiadau mwy newydd yn ymestyn i'r gwastadedd tua'r dwyrain. Gan ei bod wedi'i lleoli o fewn tirwedd amaethyddol yn bennaf, prin yw'r ardaloedd o gynefinoedd lled-naturiol, ac eithrio ardaloedd o goetir ar lethr deheuol y brigiadau creigiog, ac ardal eang o goetir collddail cymysg Crest Mawr i'r gogledd, sy'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

5.58 Mae ardaloedd o gynefin lled-naturiol sy'n weddill yn bodoli ar hyn o bryd ar gyrion yr anheddiad, ond mae diffyg cysylltedd. Mae diffyg cynefinoedd lled-naturiol, yn enwedig coetir, yn golygu bod yr ychydig ardaloedd sydd ar ôl wedi'u datgysylltu'n ecolegol oddi wrth ardaloedd mwy o goetir. Maen nhw'n cynnwys y rhai sydd i'w cael ar hyd Afon Ystrad i'r de o Ddinbych a bryniau a dyffrynnoedd Mynydd Hiraethog i'r gogledd-orllewin. Mae'r tir o amgylch Dinbych, yn enwedig i'r gogledd a'r de, wedi'i nodi gan Cyfoeth Naturiol Cymru fel ardal flaenoriaeth ar gyfer creu coetir. Daw hyn yn rhan o rwydwaith cynefinoedd canolbwynt yr iseldir.

Pwrpas

5.59 Nod y cyfle hwn yw cynyddu maint a chysylltedd cynefinoedd lled-naturiol, yn enwedig coetir, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ardaloedd yng ngogledd, gorllewin a de o ran hŷn y dref. Mae angen cynyddu gallu bywyd gwylt i groesi'r dirwedd ehangach ac ehangu cyswllt pobl â byd natur o fewn y dref ei hun.

Disgrifiad

5.60 Mae coetiroedd presennol yn darparu'r sail ar gyfer nodi cyfleoedd ar gyfer ymestyn a chysylltu coetir a chynefinoedd lled-naturiol eraill. Mae'r rhain yn cynnwys Crest Mawr, y llethr coediog i'r de o Gastell Dinbych, a blociau tameidiog o goetir i'r de o'r A543, i'r de-orllewin o Ddinbych. Gallai cyfleoedd penodol gynnwys:

- Coetir i'r de o Gastell Dinbych.
 - Sefydlu cysylltiad ecolegol, coediog yn ddelfrydol, rhwng pen gorllewinol y coetir a thirwedd y parcdir o amgylch hen Ysbyty Gogledd Cymru i'r de, a dyffryn coediog yr afon Ystrad y tu hwnt.
 - Plannu coed a llwyni ychwanegol ar hyd ffiniau ac mewn corneli segur Parc Canol i wella cysylltedd ecolegol dwyrain-gorllewin rhwng coetir Castell Dinbych, coed parcdir Coleg Myddelton, Mynwent Dinbych a choridor Afon Ystrad i'r de-ddwyrain.

- Coed Crest Mawr

- Sicrhau bod adfer Chwarel Dinbych yn cynnwys creu a gwella cynefinoedd priodol, a fydd yn ymestyn neu'n ategu'r coetir presennol.

Ymestyn cyrhaeddiad ecolegol Crest Mawr a'r cynefinoedd yn Chwarel Dinbych a'r cyffiniau, drwy greu coridorau ecolegol (plannu coed a gwrychoedd, er enghraifft) ar hyd yr hawliau tramwy cyhoeddus rhwng yr ymyl drefol a choed Crest Mawr a Chwarel Dinbych, a/neu drwy sefydlu cymysgedd o gynefinoedd coetir a glaswelltir ar hyd ffin ddeheuol y chwarel

- Gwella cysylltedd ecolegol rhwng ymyl gorllewinol Crest Mawr a'r coetir i'r de o gwrs golff Dinbych drwy ledu a gwella'r cloddiau (caniatáu i goed gwrychoedd newydd ymsefydlu) ar hyd y B5382 ac ar draws y tir amaeth rhwng y ddau floc o goetir.

- Coetiroedd tameidiog i'r de o'r A543

- Lledu a gwella'r gwrychoedd presennol sy'n cysylltu'r blociau coetir i'r de o'r A543 ac i'r dwyrain o fynedfa a thramwyfa ystâd Gwaenynog.

- Ehangu coetir cymunedol presennol (Pencoed) i sicrhau na chaiff y coetir presennol ei ddiraddio gan bwysau hamdden cynyddol yn y dyfodol.

5.61 Mae elfen arall y cyfle hwn yn clymu i mewn i'r cyntaf, drwy gynyddu cyrhaeddiad ecolegol y blociau o goetir sy'n weddill i rannau o amlen drefol Dinbych. Mae mannau gwyrdd yn y dref sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer creu cynefinoedd neu wella cysylltedd ecolegol yn cynnwys Cae Hywel, Parc Canol, a'r mannau gwyrdd drwy'r ardaloedd preswyl sy'n ffinio â'r A543 a'r A525. Mae cyfleoedd penodol yn cynnwys:

■ Cae Hywel

- Plannu coed a llwyni ar y ffin i greu ardaloedd o gynefin bywyd gwyllt, ond hefyd i sefydlu ardaloedd o gysgod ar yr ehangder mawr hwn o dir hamdden.

■ Parc Canol

- Gweler yr ail bwynt bwled yn yr adran flaenorol yn ymwneud â'r coetir i'r de o Gastell Dinbych.

■ Mannau gwyrdd yn nwyrain Dinbych

- Creu cysylltiad ecolegol drwy blannu coed a llwyni ar hyd ffin ddwyreiniol caeau chwarae Ysgol Gynradd Twm o'r Nant, i greu cangen gogledd-de o'r coridor gwyrdd sy'n rhedeg ar hyd y nant rhwng Brodordy Dinbych a'r A525.
- Plannu coed ychwanegol mewn mannau gwyrdd amwynder, gan gynnwys y rhai sydd:
 - i'r gorllewin o Lôn y Gelli;
 - rhwng yr A543 a Ffordd Celyn;
 - rhwng yr A525 a Ffordd Celyn;
 - ar gyffordd Lôn Y Fedr Arian a Ffordd Colomendy;
 - rhwng Parc Clwyd a Lôn Derwen; a'r
 - gylchfan ar y gyffordd rhwng yr A525 a'r A543.

Heriau

5.62 Bydd y rhan fwyaf o'r potensial ar gyfer creu cysylltiadau ecolegol ystyrllon yn gofyn am naill ai cydweithredu â ffermwyr a thirfeddianwyr lleol i greu coridorau ecolegol ehangach a mwy di-dor ar hyd perthi presennol er enghraifft, neu drwy sicrhau bod unrhyw ddatblygiad newydd yn agos i'r safleoedd a ddisgrifiwyd uchod yn darparu clustogau a choridorau tirwedd sylweddol wedi'u rheoli'n dda.

5.63 Mae ymestyn a/neu adfer Chwarel Dinbych a chyflwyno safleoedd datblygu cyfagos posibl yn arbennig o bwysig o ran gwella cynefinoedd drwy ddatblygiad. Pe bai'r rhain yn cael eu cynllunio'n dda, gallent sefydlu ardal sylweddol o gynefinoedd cysylltiedig i'r gogledd o'r dref.

Mecanweithiau darparu

5.64 Gallai'r cyfle hwn ddenu cyllid ar gyfer cyflawni, drwy'r system gynllunio ac o ffynonellau eraill. Rhoddir rhestr isod o ffynonellau ariannu a phartneriaid cyflawni posibl.

System gynllunio

- Cyfraniadau datblygwyr ar gyfer isadeiledd
- Darparu buddion net i fioamrywiaeth mewn achosion lle mae cyfraniadau oddi ar y safle yn cael eu hystyried yn eithriadol
- Ymrwymadau unochrog rhwng CSDd a datblygwyr

Ffynonellau Eraill

- Cynllun Ffermio Cynaliadwy
- Cronfa Dreftadaeth

- Cronfa Rhwydweithiau Natur
- Cyfraniadau datblygwyr, gan gynnwys Chwarel Dinbych
- Rhaglen Gyfalaf Argyfyngau Natur a Hinsawdd Llywodraeth Cymru

Partneriaid cyflawni posibl


- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
- Coed Cadw Cymru
- Cadwyn Clwyd Cyfyngedig (Cronfa Cymunedau Gwyrdd)
- Llais y Goedwig
- Perchnogion Tir Lleol

Camau nesaf a argymhellir

- Ymgysylltu â thirfeddianwyr lleol i archwilio cyfleoedd i gryfhau cysylltedd ecolegol, drwy reoli perthi'n well a phlannu coed a gwrychoedd ochr yn ochr â hawliau tramwy cyhoeddus sy'n rhedeg rhwng y darnau o gynefin lled-naturiol sy'n weddill.
- Cadarnhau safleoedd i'w dyrannu yn y Cynllun Lleol newydd a datblygu fframweithiau tirwedd dangosol i sicrhau bod dyluniad unrhyw ddatblygiad yn gwneud y gorau o'r cysylltiadau ecolegol posibl.
- Nodi ffrwd ariannu ar gyfer plannu coed a llwyni mewn mannau gwyrdd er mwyn cynyddu mynediad i fyd natur, yn enwedig i drigolion dwyrain Dinbych a chyffiniau Cae Hywel.

Figure 13: Vignette Key Opportunity 6

6 Key Opportunity 6 - Increase the extent and connectivity of habitat and greenspace surrounding Denbigh.



Enhanced woodlands south of Denbigh Castle, with new plantings and connectivity from the western end of the woodland to the south and River Ystrad beyond.

Improved conditions surrounding Crest Mawr Wood, with restoration of Denbigh Quarry, enhanced connectivity of the woodlands, and enhanced hedgerows boundaries where appropriate.

Extending ecological reach of fragmented woodlands into the urban envelope of Denbigh, and enhancing conditions of existing greenspaces within the settlement.

Contains Natural Resources Wales information © Natural Resources Wales and database right. Contains derived Ordnance Survey Data. Ordnance Survey license number 100019741. Crown Copyright and Database right 2024.

Cyfle Allweddol 7: Cynyddu maint a chysylltedd cynefinoedd a mannau gwyrdd o amgylch Rhuthun.

Cyd-destun

5.65 Saif Rhuthun yn gyfan gwbl o fewn tirwedd amaethyddol Dyffryn Clwyd, gyda bryniau a dyffrynnoedd Mynydd Hiraethog i'r gorllewin a bryniau grug Bryniau Clwyd i'r dwyrain. Mae rhan ganoloesol y dref wedi'i lleoli ar fryn bach. Saif llawer o'r datblygiadau preswyl mwy diweddar ar hen dir fferm i'r dwyrain, gyda mwy o ddatblygiadau masnachol i'r gogledd-orllewin. Wedi'i lleoli o fewn tirwedd amaethyddol yn bennaf, prin yw'r ardaloedd o gynefin lled-naturiol o fewn ac o gwmpas ymylon y dref, ar wahân i Afon Clwyd a dau floc bach o goetir hynafol, sydd o fewn tirwedd y parcdir mwy i'r de o gastell Rhuthun.

5.66 Mae maint cyfyngedig y cynefin lled-naturiol yn Rhuthun yn golygu bod diffyg cysylltedd ecolegol gyda'r ardaloedd ehangach o goetir i'r gorllewin o'r dref, megis y rhai sydd i'w cael ar dir fferm i'r gorllewin o'r A525 i'r gogledd o Ruthun, ar hyd Afon Clywedog rhwng Rhewl a Bontuchel a'r ardal o goetir hynafol i'r gorllewin o'r A494 sydd i'r de-orllewin o Ruthun. Mae'r ardaloedd hyn wedi'u nodi gan Cyfoeth Naturiol Cymru fel ardal flaenoriaeth ar gyfer creu coetir. Daw hyn yn rhan o rwydwaith cynefinoedd canolbwynt yr iseldir.

Pwrrpas

5.67 Nod y cyfle hwn yw cynyddu maint a chysylltedd cynefinoedd lled-naturiol, yn enwedig coetir, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ardaloedd i'r gorllewin a'r de o'r dref. Mae angen cynyddu gallu bywyd gwyllt i groesi'r dirwedd ehangach ac ehangu cyswllt pobl â byd natur.

Disgrifiad

5.68 Mae'r parcdir i'r de o Gastell Rhuthun, gyda'i ddau floc bach o goetir hynafol a thirwedd gyda llawer o goed hen iawn neu hynafol, yn ased ecolegol pwysig yn y dref. Fodd bynnag, mae angen iddo fod wedi'i gysylltu'n ecolegol ag ardaloedd eraill o goetir lled-naturiol (yn enwedig coetir) a gellid ymestyn ei bellter ecolegol drwy blannu coed a choetir cyflenwol ar hyd a lled Rhuthun. Mae cyfleoedd penodol yn cynnwys:

- Ehangu pellter ecolegol parcdir Castell Rhuthun
 - Plannu coed addas ar hyd yr ymyl llydan ar hyd Lôn Fawr, gyferbyn â'r caeau pêl-droed, ac ar hyd ffin orllewinol y caeau chwaraeon, a gosod gwrychoedd cysylltiol ar hyd y ffiniau gogleddol a deheuol.
 - Annog a chefnogi adferiad ecolegol y tir rhwng glan orllewinol Afon Clwyd a Lôn Fawr i sefydlu cynefin gorlifdir a pharcdir, a sicrhau hirhoedledd coed hen a hynafol.
 - Plannu gwrych cysylltiol gyda choed ar hyd ffin ddeheuol tir Clwb Rygbi Rhuthun.
 - Plannu gwrych cysylltiol gyda choed ar hyd y llwybr troed rhwng Ffordd Corwen a Ffordd Wreccsam.
 - Archwilio cyfleoedd i adfer rhannau o hen dirlun y parcdir rhwng Ffordd Corwen a Ffordd Wreccsam.
- Cysylltiadau coetir ag Afon Clywedog
 - Gwella cysylltedd ecolegol rhwng ymyl gorllewinol Rhuthun a choridor coediog yr afon, drwy ledu a gwella gwrychoedd (caniatáu i goed gwrychoedd newydd ymsefydlu) ar draws y tir fferm i'r gorllewin o'r A525, yn enwedig ar hyd y llwybr troed o Lanfwrog i Ben Y Bryn.
 - Archwilio cyfleoedd ar gyfer plannu coetir newydd sylweddol ar dir i'r gogledd o Stryd Mwrog ac i'r gorllewin o Faes Hafod, i sefydlu coetir cymunedol i gysylltu'r coetir i'r gorllewin o Rhuthun â rhannau preswyl y dref.

5.69 Mae cydran arall y cyfle hwn yn gysylltiedig â'r cyntaf, sef ei fod yn nodi ardaloedd yn rhan ddwyreiniol Rhuthun lle mae cyfleoedd i blannu coed a choetir i gyd-fynd â'r prosiectau ar raddfa fwy a nodir uchod. Yn ogystal, darparu gwelliannau ecolegol ar raddfa lai sy'n gwella mynediad pobl at natur. Mae cyfleoedd penodol yn cynnwys:

- Meysydd gwyrdd amwynder mewn ardaloedd preswyl i'r dwyrain o'r A525
 - Plannu coed brodorol â chanopi mawr mewn lleoliadau addas yn y mannau gwyrdd amwynder canlynol:
 - cyffordd Stryd y Rhos a Stryd y Brython;
 - y ffin â Stryd y Brython a Ffordd Edern;
 - gerllaw Cae Castan;
 - gerllaw Bryn Rhydd a
 - Bro Deg.
- O amgylch caeau chwarae a maes chwaraeon yr ysgol
 - Ar hyd ffiniau Ysgol Brynhyfryd, yn enwedig ar hyd y ffin orllewinol a'r llwybr troed o Ffordd Llanrhydd.
 - O amgylch y ffiniau ac yn rhan ogleddol y maes chwaraeon i'r dwyrain o Wern Uchaf
- Clustog tirwedd o amgylch y tir cyflogaeth
 - Sefydlu ffin goediog sylweddol ar hyd ymylon gogleddol a dwyreiniol y tir a neilltuwyd ar gyfer defnydd cyflogaeth i ogledd y dref, yn enwedig pan fydd y tir a ddynodwyd yn cael ei adeiladu i'r gorllewin a'r de-ddwyrain o'r gwaith trin carthion presennol.

Heriau

5.70 Bydd y rhan fwyaf o'r potensial ar gyfer creu cysylltiadau ecolegol ystyrlon yn gofyn am naill ai cydweithredu â ffermwyr a thirfeddianwyr lleol i greu coridorau ecolegol ehangach a mwy di-dor ar hyd perthi presennol; neu drwy

ganiatáu datblygiad ar safleoedd datblygu yn y dyfodol sy'n sicrhau y darperir clustogau a choridorau tirwedd sylweddol wedi'u rheoli'n dda.

5.71 Yr ardal sydd â'r potensial mwyaf ar gyfer gwelliant ecolegol sylweddol yw'r tir o fewn ac yn ymyl yr hen barcdir sy'n gysylltiedig â Chastell Rhuthun. Mae hon yn ardal sydd wedi'i ffinio'n fras gan Stryd y Cerrig i'r gorllewin, Ffordd Wrecsam i'r dwyrain, ac i'r de-ddwyrain o'r gyffordd rhwng Ffordd Corwen a Lôn Speiriol-Isaf.

Mecanweithiau darparu

5.72 Gallai'r cyfle hwn ddenu cyllid ar gyfer cyflawni, drwy'r system gynllunio ac o ffynonellau eraill. Rhoddir rhestr isod o ffynonellau ariannu a phartneriaid cyflawni posibl.

System gynllunio

- Cyfraniadau datblygwyr ar gyfer isadeiledd
- Darparu buddion net i fioamrywiaeth mewn achosion lle mae cyfraniadau oddi ar y safle yn cael eu hystyried yn eithriadol
- Ymrwymadau unochrog rhwng CSDd a datblygwyr

Ffynonellau Eraill

- Cyfraniadau datblygwr
- Cynllun Ffermio Cynaliadwy
- Cronfa Dreftadaeth
- Cronfa Rhwydweithiau Natur
- Rhaglen Gyfalaf Argyfyngau Natur a Hinsawdd Llywodraeth Cymru

Partneriaid cyflawni posibl


- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
- Coed Cadw Cymru
- Cadwyn Clwyd Cyfyngedig (Cronfa Cymunedau Gwyrdd)
- Llais y Goedwig
- Perchnogion Tir Lleol

Camau nesaf a argymhellir

- Ymgysylltu â thirfeddianwyr lleol i archwilio cyfleoedd i gryfhau cysylltedd ecolegol, drwy reoli perthi'n well a phlannu coed a gwrychoedd ochr yn ochr â hawliau tramwy cyhoeddus sy'n rhedeg rhwng y darnau o goetir sy'n weddill.
- Cadarnhau safleoedd i'w dyrannu yn y Cynllun Lleol newydd a datblygu fframweithiau tirwedd dangosol i sicrhau bod dyluniad unrhyw ddatblygiad yn gwneud y gorau o'r cysylltiadau ecolegol posibl.
- Nodi ffrwd ariannu ar gyfer plannu coed a llwyni mewn mannau gwyrdd.

Figure 14: Vignette of Key Opportunity 7

7 Key Opportunity 7 - Increase the extent and connectivity of habitat and greenspace surrounding Ruthin.



Contains Natural Resources Wales information © Natural Resources Wales and database right. Contains derived Ordnance Survey Data. Ordnance Survey license number 100019741. Crown Copyright and Database right 2024.





-  Enhanced woodlands south of Ruthin Castle, creating ecological connectivity with other areas of semi-natural woodland, lowland habitat along the river, and parkland.
-  Create woodland connections to the River Clwydog, between the western edge of Ruthin, and across the farmland along the A525.
-  Identify areas within eastern Ruthin to provide smaller scale ecological enhancements, such as within the residential areas east of the A525, around sports grounds, and along potential development sites or employment land.

Figure 15: Strategic Opportunities - South Denbighshire



- Denbighshire county boundary
- Lowland core habitat network - woodland
- Local Nature Reserve
- Site of Special Scientific Interest
- Special Area of Conservation
- Special Protection Area
- Main Rivers

GI Priority Projects

- Refresh riverside public spaces along the Dee Valley.
- Strategic.* Promote and maintain a Heritage Trail / Network from valley settlements to historic uplands.
- Provide multifunctional community spaces and accessible travel routes to accommodate both visitors and locals in Llangollen.

De Sir Ddinbych

Cyfle Allweddol 8: Adnewyddu mannau ar lan yr afon ar hyd Dyffryn Dyfrdwy.

Cyd-destun

5.73 Mae Dyffryn Dyfrdwy yn lleoliad syfrdanol ar gyfer yr aneddiadau bach ar ei hyd, gyda phob anheddiad yn cynnal cysylltiadau gweledol a ffisegol â'r afon. Mae mannau agored presennol ar hyd yr afon yn gyfyngedig ac, ar y cyfan, maent yn cynnwys mannau anffurfiol gydag ychydig o seddi. Mae'r ddaeareg naturiol ar hyd Afon Dyfrdwy yn darparu seddi anffurfiol a mynediad i'r afon mewn mannau, yn enwedig wrth greigiau'r afon yn Llangollen. Mewn mannau eraill ar hyd yr afon mae mynediad yn fwy cyfyngedig, yn enwedig wrth i'r gorlifdir ledau heibio Corwen. Rhwng Llangollen a Chorwen ceir nifer cyfyngedig o safleoedd bywyd gwyllt.

5.74 Er bod llwybrau troed presennol Llangollen yn caniatáu mynediad i'r afon, y tu hwnt i gymuned y Berwyn mae cysylltiadau cyfyngedig ar lan yr afon y gellid eu hystyried. Mae Llwybr Dyfrdwy, llwybr troed hir, yn mynd tua'r gogledd i'r ucheldir rhwng y Berwyn a Charrog, gan wro o ddyffryn yr afon nes cyrraedd Corwen.

Pwrpas

5.75 Nod y cyfle hwn yw gwella mynediad i'r afon a chreu mannau ymgynnull a seddi newydd ar hyd glan yr afon. Byddai hyn yn gwella gosodiad yr aneddiadau hyn, drwy greu ffyrdd newydd o ymgysylltu â'r amgylchoedd lleol. Byddai hefyd yn gwella lles cyffredinol cymunedau lleol drwy annog mwy o amser ym myd natur, yn ogystal â gwella cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio a gweithgarwch cymunedol.

Disgrifiad

5.76 Mae'r cyfle hwn yn cynnwys creu mannau ymgynnull cymunedol newydd ar hyd Afon Dyfrdwy, a darparu'r mannau hyn yn agos at aneddiadau glan yr afon. Dylai mannau fod yn aml-swyddogaethol a dylent allu darparu ar gyfer grwpiau defnyddwyr o wahanol feintiau a demograffeg. Dylent wella mynediad rhwng yr aneddiadau a'u lleoliad wrth yr afon. Yn ogystal â hyn, dylid cyflwyno isadeiledd llwybrau troed newydd a gwell ar hyd yr afon er mwyn cysylltu llwybrau troed presennol a gwella mynediad cyffredinol. Mae cydrannau posibl yn cynnwys:

- Ystyried cyflwyno man ymgynnull mwy ar hyd glan ogleddol Afon Dyfrdwy, gyda mynediad i Bafiliwn Llangollen. Byddai hyn yn cynnwys pobl leol ar ochr ogleddol yr afon, yn ogystal ag ymwelwyr yn ystod gwyliau neu'r tymor twristiaeth.
 - Gall elfennau gynnwys seddi ar wahanol uchder, i ddynwared y ddaeareg naturiol, goleuadau integredig, rampiau ar gyfer hygyrchedd a rheiliau.
 - Gwell croesfannau dros y ffordd a chroesfannau rheilffordd, gyda mesurau diogelwch priodol.
- Ystyried edrychiadau mewn rhannau ar hyd yr afon, gyda seddau a rheiliau integredig, gan ddarparu lle i ymgynnull a mannau gorffwys mewn pocedi oddi ar y rhwydwaith llwybrau presennol.
- Ystyried ymyriadau ffurfiol yn Rhaeadr y Bedol, i ddarparu ar gyfer grwpiau a cherddwyr sy'n defnyddio'r ardal yn aml. Atgyfnerthu'r llwybrau answyddogol sydd eisoes wedi'u ffurfio, gydag opsiynau eistedd a grisiau/palmantau, ac i annog pobl i beidio â ffurfio rhai newydd.
 - Fel rhan o'r ymyriad hwn, ystyried gwella cynefinoedd ar hyd ymyl yr afon, er mwyn clustogi'r ddyfrffordd a'r erydiad graddol. Integreiddio paneli neu arwyddion addysgol, i atal gweithredoedd a allai fod yn niweidiol i'r amgylchedd naturiol.
- Ceisio cysylltu darnau tameidiog ar hyd yr afon rhwng Eglwys Sant Tysilio a Choed Rhyd Gog, ac ymlaen i'r Rhewl a Glyndyfrdwy.

- Ystyried pontydd cerddwyr i greu'r cysylltiadau newydd hyn, gan integreiddio seddi a bywyd gwyllt a goleuadau 'cyfeillgar' i awyr dywyll.
- Mannau cyhoeddus a llwybrau cerdded o fewn parth clustogi glan yr afon ger Corwen, i wneud lle i'r gorlifdir llydan tra'n caniatáu mwy o fynediad i'r afon.
- Integreiddio goleuadau sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt a mesurau diogelwch eraill ar hyd yr afon lle bo angen.

5.77 Dylid gwella gosodiad naturiol syfrdanol yr afon, gan ddatblygu seddi gwell sy'n dynwared daeareg bresennol y lle. Lle bo modd ar argloddiau, ystyried integreiddio seddi'n uniongyrchol, yn camu i lawr tuag at y dŵr. Yn ogystal, dylid archwilio cyfleoedd i gynyddu ymgysylltiad â'r afon, naill ai gyda rampiau neu gyda golygfannau ychwanegol. Mae'r elfennau y gellid eu hystyried yn cynnwys;

- Gwell mynediad a seddi ger Pont Llangollen a ger Parc Glan yr Afon, gan ddefnyddio daeareg naturiol yr afon ar hyd y darn hwn fel ysbrydoliaeth a sylfaen.
- Man lansio canŵau cyhoeddus dynodedig, gan ganiatáu mynediad hamdden ar hyd yr afon lle bo hynny'n bosibl ac yn ddiogel (ac mewn cydweithrediad â chlybiau canŵio presennol).



Heriau

5.78 Dylid ystyried datblygu mannau ar lan yr afon yn ofalus, am resymau diogelwch y cyhoedd ac er mwyn gwarchod ac amddiffyn y cynefinoedd afonol presennol. Gall creu mannau ymgynnull newydd achosi problemau yn ymwneud ag Ymddygiad gwrthgymdeithasol neu sbwriel. Felly bydd yn bwysig datblygu mesurau glanhau priodol, er mwyn sicrhau bod sbwriel a gwaith cynnal a chadw arall yn cael ei wneud yn ystod y misoedd prysurach. Gallai gweithio gyda thirfeddianwyr lleol i gytuno ar hawddfrait ar hyd ymyl yr afon gynnwys ychydig o heriau.

Cyflawni

5.79 Gallai'r cyfle hwn ddenu cyllid ar gyfer cyflawni, drwy'r system gynllunio ac o ffynonellau eraill. Rhoddir rhestr isod o ffynonellau ariannu a phartneriaid cyflawni posibl.

System gynllunio

- Cyfraniadau datblygwyr ar gyfer isadeiledd
- Darparu buddion net i fioamrywiaeth mewn achosion lle mae cyfraniadau oddi ar y safle yn cael eu hystyried yn eithriadol
- Ymrwymadau unochrog rhwng CSDd a datblygwyr

Ffynonellau Eraill

- Cyfraniadau datblygwr
- Sustrans
- Cronfeydd Rhwydwaith Natur
- Cronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru (a weinyddir gan Trafnidiaeth Cymru)
- Cronfa Ddatblygu Cymunedau Gwledig
- Cynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles

Partneriaid cyflawni posibl

- Cyfoeth Naturiol Cymru (Prosiect LIFE Afon Dyfrdwy)
- Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
- Cynghorau a phlwyfi lleol

Camau nesaf a argymhellir

- Monitro'r aflonyddwch presennol, sathru, sbwriel i nodi targedau ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol.
- Ymgysylltu â chymunedau a thirfeddianwyr lleol, i benderfynu ar y camau nesaf a chreu cefnogaeth.
- Nodi ffiniau'r prosiect a mapio cysylltiadau llwybrau posibl mewn ymgynghoriad â grwpiau a chynghorau lleol.

Cyfle Allweddol 9: Hyrwyddo a chynnal Rhwydwaith Llwybrau Treftadaeth, o aneddiadau'r cymoedd i ucheldiroedd hanesyddol.

Cyd-destun

5.80 Mae Dyffryn Dyfrdwy a'r ucheldiroedd cyfagos yn cynnwys nifer o nodweddion hanesyddol a diwylliannol bwysig. Mae'r rhain yn cynnwys bryngaerau o'r Oes Haearn ar hyd cribau'r rhostir grug, nodweddion diwydiannol hanesyddol fel Camlas Llangollen, a'r nodweddion daearegol nodweddiadol sy'n diffinio Bryniau Clwyd a'r dyffryn.

5.81 Mae'r aneddiadau lluosog ar hyd Dyffryn Dyfrdwy yn darparu manau 'gychwynnol' ar gyfer archwilio'r ucheldiroedd, a hefyd yn ffurfio rhan o leoliad y nodweddion hanesyddol. Fodd bynnag, mae llawer o lwybrau o aneddiadau'r dyffrynnoedd i'r nodweddion hyn yn dameidiog ar hyn o bryd neu heb eu diffinio'n dda. Er enghraifft, nid yw llwybrau troed hyd at Gastell Dinas Brân wedi'u marcio'n dda wrth gerdded o Langollen, ac mae cyfleoedd i wneud y llwybr priodol yn gliriach. Yn ogystal, mae pwysau ar hyn o bryd ar y nodweddion hanesyddol a diwylliannol presennol sy'n bygwth eu cyfanrwydd, ac felly'r gallu i genedlaethau'r dyfodol ddatblygu eu dealltwriaeth o'r dirwedd hanesyddol a'i esblygiad dros amser.

5.82 Mae prosiect a gwblhawyd yn y gorffennol, 'Grug a Bryngaerau', yn rhoi cefndir helaeth a chyfoethog i'r ddaear a'r nodweddion archaeolegol allweddol ar draws Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Wrth ddatblygu'r cyfle hwn, dylid cyfeirio at waith y gorffennol er mwyn nodi nodweddion allweddol yn effeithlon, a chynnwys elfennau addysgol yn seiliedig ar ddogfennaeth sy'n bodoli eisoes. Deellir ei bod yn debygol bod nifer o safleoedd archeolegol ar draws y dirwedd hon yn cael eu darganfod drwy'r amser, gan gynnig cyfleoedd yn y dyfodol i ennyn cefnogaeth i warchod y nodweddion hyn yn barhaus, ac i ychwanegu at y corff presennol o waith.

Pwrpas

5.83 Mae'r cyfle hwn yn ceisio gwella cysylltiadau â'r dirwedd o'i hamgylch, gan ganiatáu mynediad gwell i nodweddion hanesyddol tra hefyd yn gwarchod cyfanrwydd y nodweddion hynny. Bydd darparu gwell isadeiledd yn annog pobl leol ac ymwelwyr i ymgysylltu â'u hamgylchedd, annog teithio llesol, a bydd yn cryfhau eu dealltwriaeth o'r dirwedd o amgylch a'r ymdeimlad o le.

Disgrifiad

5.84 Mae un elfen fawr o'r cyfle hwn yn ymwneud â gwella llwybrau troed - gan ddechrau o fewn yr aneddiadau, ymestyn i fyny ochrau'r dyffrynnoedd ac ar draws y rhostiroedd. Gallai ymyriadau gynnwys:

- Mesurau canfod ffordd, gan gynnwys paneli gwybodaeth o fewn pob un o'r aneddiadau ar ddechrau llwybr, yn nodi nodweddion allweddol a gwybodaeth bwysig i ymwelwyr a phobl leol.
- Ystyried integreiddio codau QR yn y paneli, gan gysylltu â gwybodaeth ar-lein neu fapiau llwybrau y gellir eu lawrlwytho, sy'n hawdd eu diweddarau yn ôl yr angen.
- Arwyddbyst clir a rheolaidd ar hyd y llwybrau - byddai hyn yn annog ymwelwyr i gadw at y llwybrau ac yn lleihau dryswch mewn darnau lle mae llwybrau'n mynd dros ddeunyddiau naturiol nad oes modd eu 'marcio' neu glirio.

- Gwella cyflwr llwybrau, a allai gynnwys palet o ddeunyddiau cydlynol, cynnal a chadw planhigion yn enwedig wrth fynedfeydd a chroesfannau llwybrau, ac atgyfnerthu ffiniau o fewn ardaloedd â llawer o lystyfiant i amlygu'r llwybr cywir. Gall nodweddion daearegol, ecolegol neu hanesyddol bregus gael eu sathru neu eu difrodi fel arall os na anogir defnydd priodol.
- Bydd cadw ymwelwyr ar y rhwydwaith llwybrau yn helpu i leihau'r llwybrau anffurfiol a wneir, gan leihau'r aflonyddwch i gynefinoedd sy'n bodoli ar hyd y rhwydwaith llwybrau.
- Cysylltu â rhwydweithiau llwybrau presennol, gan gynnwys Llwybr Hanes Llangollen a Ffordd Dyfrdwy.

5.85 Mae mesurau diogelu i warchod cyfanrwydd nodweddion hanesyddol hefyd yn elfen allweddol o'r cyfle hwn. Bydd atgyfnerthu rhannau bregus o'r llwybr a darparu manau gwyllo lle bo'n briodol yn helpu i gynnal nodweddion hanesyddol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

5.86 Mae arwyddion addysgol neu baneli dehongli ar hyd y llwybrau hefyd yn bwysig, yn galluogi i ymwelwyr a phobl leol ddeall hanes a chefnidir nodweddion penodol yn well. Dylid gosod y rhain yn agos at nodweddion allweddol. Mae cyfleoedd penodol yn cynnwys:

- Paneli clir neu dryloyw, yn dangos sut olwg fyddai ar nodwedd yn ei chyflwr gwreiddiol, gan ganiatáu i ymwelwyr ei dychmygu o fewn y lleoliad presennol.
- Ystyried integreiddio codau QR yn y paneli, gan gysylltu â phrofiad realiti estynedig ar y ffôn, neu wybodaeth ar-lein neu fapiau llwybrau y gellir eu lawrlwytho, sy'n hawdd eu diweddarau yn ôl yr angen.
- Adnabod rhywogaethau a ffeithiau, ynghyd â gwybodaeth am ba rywogaethau a fyddai wedi bod yn bresennol ac nad ydynt bellach yn bodoli, gan hybu dealltwriaeth o esblygiad y dirwedd dros amser.

Heriau

5.87 Sicrhau consensws gydag archeolegwyr a chynghorau lleol ynghylch pa nodweddion sydd i'w blaenoriaethu. Gweithio gyda thirfeddianwyr lleol i bennu llwybrau mynediad a gwneud gwaith ar lwybrau sy'n croesi tir preifat Dod o hyd i gyllid digonol ar gyfer darnau mwy o waith, megis llwyfannau gwyllo neu atgyfnerthu darnau hwy o lwybrau.

Mecanweithiau darparu

5.88 Gallai'r cyfle hwn ddenu cyllid ar gyfer cyflawni, drwy'r system gynllunio ac o ffynonellau eraill. Rhoddir rhestr isod o ffynonellau ariannu a phartneriaid cyflawni posibl.

System gynllunio

- Cyfraniadau datblygwyr ar gyfer isadeiledd
- Darparu buddion net i fioamrywiaeth mewn achosion lle mae cyfraniadau oddi ar y safle yn cael eu hystyried yn eithriadol
- Ymrwymadau unochrog rhwng CSDd a datblygwyr

Ffynonellau Eraill

- Cronfa Rhwydweithiau Natur
- Cronfa Dreftadaeth
- Sustrans
- Rhaglen Gyfalaf Argyfyngau Natur a Hinsawdd Llywodraeth Cymru
- Cronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru (a weinyddir gan Trafnidiaeth Cymru)
- Cronfa Adfer ac Ailadeiladu Diwylliannol Cymru

- Cynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles
- Cronfa Ddatblygu Cymunedau Gwledig

Partneriaid cyflawni posibl

- Cadw
- Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
- Cadwyn Clwyd Cyfyngedig (Cronfa Cymunedau Gwyrdd)
- Perchnogion Tir Lleol

Camau nesaf a argymhellir

- Cynnal ymgynghoriad cychwynnol gyda grwpiau archeolegol a threftadaeth, i nodi partneriaethau, cwmpas prosiectau a blaenoriaethau.
- Ymgynghori â chymunedau a thirfeddianwyr lleol, i gael cefnogaeth ac adborth lleol.
- Astudiaeth dichonoldeb, nodi ffiniau prosiectau a mapio cysylltiadau llwybr posibl.
- Archwilio cyfleoedd ariannu ychwanegol.

Cyfle Allweddol 10: Darparu manau cymunedol amlbwrpas a llwybrau teithio hygyrch ar gyfer ymwelwyr a phobl leol yn Llangollen.

Cyd-destun

5.89 Mae tref Llangollen yn anheddiad hanesyddol o fewn AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy ac mae'n boblogaidd gydag ymwelwyr. Mae llawer o wyliau'n cael eu cynnal yn y dref, gan gynnwys yr Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol

enwog, sy'n atyniad mawr. Pafiliwn Llangollen sy'n cynnal yr ŵyl ac mae wedi'i leoli mewn man allweddol rhwng Afon Dyfrdwy a Chamlas Shropshire Union (Cangen Llangollen), gyda chae mawr agored ynghlwm wrtho. Mae lleoliad syfrdanol y dref a nodweddion hanesyddol y dref a'r dirwedd o'i chwmpas yn golygu ei bod yn un o'r aneddiadau yr ymwelir â hi fwyaf yn y Sir. Mae lleoliad glan yr afon hefyd yn gwneud y gymuned yn agored i rywfaint o berygl llifogydd afonol ac arwynebol, yn enwedig yr ardaloedd sy'n clustogi'r afon bob ochr iddi a'r ffyrdd sy'n ymestyn i'r de o'r cwrs dŵr.

5.90 Mae Llangollen hefyd yn un o'r canolfannau poblogaeth mwyaf yn ne'r Sir, gyda grŵp oedran ychydig yn hŷn na'r cyfartaledd o gymharu ag aneddiadau eraill yn y Sir. Disgwylir i gyfran y bobl dros 65 ac 85 oed yn y gymuned gynyddu dros y degawdau nesaf, gyda galw cynyddol am wasanaethau a busnesau lleol. Er bod mannau cyhoeddus diffiniedig yn gysylltiedig â'r rheilffordd, yr afon ac atyniadau eraill i dwristiaid, mae mannau gwyrdd llai ledled y gymuned yn fwy cyfyngedig, gyda chraidd trefol trwchus a nodau preswyl i'r de o'r A5/Stryd y Rhaglaw.

Pwrrpas

5.91 Mae'r cyfle hwn yn ceisio sicrhau amgylchedd deniadol a hygyrch i ymwelwyr a phobl leol yn Llangollen, gan ddarparu ar gyfer gwahanol anghenion drwy ddarparu isadeiledd a mannau cyhoeddus priodol. Bydd cynyddu mannau gwyrdd cyhoeddus, mannau ymgynnull llai, a chyflwyno deunyddiau hygyrchedd a diogelwch yn ffordd o wella ymgysylltiad cymunedol cyffredinol ar draws demograffeg. Dylai integreiddio mannau gwyrdd, coed a Systemau Draenio Cynaliadwy newydd yn yr ymyriadau hyn hefyd helpu i leihau perygl llifogydd arwyneb a gwella ansawdd aer, oeri trefol, a lles yn gyffredinol.

Disgrifiad

5.92 Gellid gwella cysylltedd ar hyd glan yr afon prysur drwy Langollen, gydag isadeiledd mwy cefnogol ac arwyddion gweledol i ddenu pobl ar hyd y prif ardaloedd twristiaeth. Mae cyfleoedd penodol yn cynnwys:

- Seddi ychwanegol a chyfeirbwyntiau ar hyd y llwybr o'r orsaf reilffordd, ar draws y bont ac ar hyd Stryd y Castell, gan ddefnyddio dyluniad hygyrch priodol a deunyddiau cydlynol. Dylid atgyfnerthu croesfannau strydoedd gydag arwyddion gwell neu fesurau tawelu traffig.
- Mynediad gwell a diffiniedig i Bafiliwn Llangollen, gyda llwybrau o'r orsaf reilffordd, a dwy ddyfrffordd bob ochr iddo. Ystyried defnyddiau ychwanegol ar gyfer tir yr ŵyl, a gwelliannau dylunio amlswyddogaethol.
- Arwyddion neu baneli gwybodaeth wedi'u lleoli yn yr orsaf reilffordd neu fannau parcio mwy, sy'n dangos lle mae busnesau lleol penodol o ddiddordeb, parciau cyhoeddus neu fannau digwyddiadau wedi'u lleoli o fewn y craidd trefol. Mae hwn hefyd yn gyfle i alluogi busnesau lleol i arddangos digwyddiadau neu hysbysebion o ddiddordeb i ymwelwyr a phobl leol. Ystyried integreiddio codau QR sy'n cysylltu â gwybodaeth bellach a mapiau, y gellir eu haddasu'n hawdd yn y dyfodol.
- Gwell strydlyn (deunyddiau gwell a chyson, goleuadau, gwaith tirlunio, blaenau siopau) ar hyd Parade Street, Heol y Farchnad a Stryd y Bont, gan ddenu ymwelwyr i siopau llai, orielau neu fannau cyhoeddus nad ydynt wedi'u lleoli yng nghanol y dref.
 - Gwell blaenau siopau, a goleuadau stryd priodol drwyddi draw.
 - Parciau poced gyda meinciau a byrddau, a choed lle bo modd (gweler mwy o fanylion am leoliadau posibl isod).
- Cynllun plannu cyson drwyddo draw, gyda choed stryd newydd, llefydd eistedd integredig a phlanhigion, a deunyddiau palmant cydlynol yn cyfrannu at ddiffiniad gwell o'r parth cyhoeddus, yn ogystal â chanol tref mwy hygyrch a chydlynol i gerddwyr.

5.93 Elfen allweddol yw integreiddio mannau cyfarfod ar raddfa lai ledled y gymuned, wedi'u gwreiddio mewn ardaloedd mwy preswyl a lleoliadau trefol trwchus. Mae hwn hefyd yn gyfle i gyflwyno mesurau diogelwch ac arwyddion gweledol, i gysylltu ardaloedd preswyl ymhellach i'r de â'r craidd trefol yn well.

- Mannau cyfarfod llai mewn ardaloedd trefol trwchus a gaiff eu defnyddio drwy gydol y flwyddyn. Mae lleoliadau posibl yn cynnwys:
 - Trosi rhai mannau parcio bach yn barciau poced ar hyd Heol y Farchnad, yn agos at y farchnad ganolog, lle ar gyfer gwyliau bwyd, a siopau lleol. Dylid integreiddio byrddau a chadeiriau, planhigion bioamrywiol, Systemau Draenio Cynaliadwy.
 - Integreiddio planhigion a seddi o fewn meysydd parcio mwy (Maes Parcio Heol y Farchnad ac East Street), i ddarparu ar gyfer defnyddiau amgen pan nad ydynt yn cael eu defnyddio ar gyfer parcio y tu allan i'r tymor prysur.
- Gwelliannau i fannau gwyrdd presennol neu greu rhai newydd o fewn nodau preswyl ymhellach i'r de, yn ogystal â gwell strydlun a chroesfannau clir lle bo modd. Mae lleoliadau posibl yn cynnwys:
 - Cyffordd Pengwern a Brook Street – planhigion ychwanegol, seddi newydd, strwythurau chwarae, Systemau Draenio Cynaliadwy.
 - Erw-Deg a Phengwern – croesfannau uwch newydd rhwng yr ardaloedd bach o fannau gwyrdd ar draws Pengwern, planhigion newydd, a gwell mannau aros ar gyfer cludiant cyhoeddus.
 - Gwell croesfan ar gyffordd Stryd y Bont a Stryd y Rhaglaw, gan ddileu opsiynau parcio ar hyd y rhan hon a gwella gwelededd y groesfan bresennol.

5.94 Mae integreiddio mannau gwyrdd ychwanegol o fewn craidd trefol yr anheddiad yn darparu cyfleoedd ar gyfer mwy o blannu a Systemau Draenio Cynaliadwy. Lle mae gwelyau planhigion neu goed eisoes yn bodoli, rhaid ystyried cyflwyno ardaloedd estynedig ar gyfer gerddi glaw neu gynnal proses strategol i ddileu ardaloedd o dirwedd caled. Gellir cynnwys y nodweddion canlynol:

- Tirwedd caled a phalmentydd wedi'u tynnu mewn lleoliadau blaenoriaeth a gerddi glaw wedi'u creu lle ceir llifogydd arwyneb:
 - Ar hyd ardaloedd palmantog ehangach ar Heol y Castell, gyda photensial ar gyfer cronfeydd dŵr mwy o dan y ddaear a choed stryd uwchben.
 - Ystyried cael gwared ar fannau parcio achlysurol ar hyd Chapel Street i gyflwyno gerddi glaw mwy, gyda'r fantais ychwanegol o barciau poced newydd ac elfennau tawelu traffig.
 - Lle mae cyrbau adeiledig yn bod, ystyriwch ddefnyddio rhan o'r rhain ar gyfer ymylon blodau gwyllt neu erddi glaw, gan greu pocedi newydd sy'n llawn bioamrywiaeth yng nghanol y dref.

Mecanweithiau darparu

5.95 Gallai'r cyfle hwn ddenu cyllid ar gyfer cyflawni, drwy'r system gynllunio ac o ffynonellau eraill. Rhoddir rhestr isod o ffynonellau ariannu a phartneriaid cyflawni posibl.

System gynllunio

- Cyfraniadau datblygwyr ar gyfer isadeiledd
- Darparu buddion net i fioamrywiaeth mewn achosion lle mae cyfraniadau oddi ar y safle yn cael eu hystyried yn eithriadol
- Ymrwymadau unochrog rhwng CSDd a datblygwyr
- Gweithredu Systemau Draenio Cynaliadwy mewn datblygiadau newydd

Ffynonellau Eraill

- Sustrans
- Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

- Cronfa Rhwydweithiau Natur
- Cadwyn Clwyd Cyfyngedig (Cronfa Cymunedau Gwyrdd)
- Llwybrau Diogel mewn Cymunedau
- Cronfa Ddatblygu Cymunedau Gwledig
- Cynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles

Partneriaid cyflawni posibl


- Cyngor Tref Llangollen
- Cadwyn Clwyd Cyfyngedig
- Busnesau lleol, tîrfeddianwyr a grwpiau diddordeb (gan gynnwys gwyliau lleol)




Camau nesaf a argymhellir

- Ymgynghori â grwpiau cymunedol a thrigolion lleol
- Sefydlu sylfaen dystiolaeth – llif traffig, anawsterau parcio, peryglon llifogydd lleol.

Figure 16: Vignette of Key Opportunity 10

10 Key Opportunity 10 - Provide multifunctional community spaces and accessible travel routes to accommodate both visitors and locals in Llangollen.



-  Improved public realm, with enhanced visitor infrastructure along the central spines of the community.
-  Smaller gathering spaces throughout the community and enhanced streetscape infrastructure.
-  Greening elements and SuDS corridors within the urban core.

Contains Natural Resources Wales information © Natural Resources Wales and database right. Contains derived Ordnance Survey Data. Ordnance Survey license number 100019741. Crown Copyright and Database right 2024.

Pennod 6

Polisi cynllunio ac adnoddau cynllunio er mwyn cyflawni

6.1 Mae PCC 12 yn nodi bod yn rhaid i'r system gynllunio wneud y mwyaf o'i gyfraniad i ddiogelu a darparu asedau a rhwydweithiau isadeiledd gwyrdd. Mae hefyd yn nodi y dylai awdurdodau lleol gymryd ymagwedd ragweithiol a gofodol a chysylltu gyda gweithgarwch ehangach o fewn awdurdodau lleol. Nod yr AIG hwn yw nodi cyfleoedd i ddarparu a gwella IG drwy'r system gynllunio. Mae amrywiaeth o ffyrdd y gall CSDd gyflawni hyn drwy ddefnydd effeithiol o ystod lawn y polisi cynllunio a'r adnoddau cynllunio sydd ar gael iddynt. Mae'r bennod hon yn amlinellu'r adnoddau cynllunio amrywiol a sut y gellir eu gweithredu.

Polisi Strategol y CDLI

6.2 Yr elfen fwyaf allweddol o ran darpariaeth effeithiol Isadeiledd Gwyrdd drwy'r system gynllunio yw mabwysiadu polisi cadarn drwy CDLI CSDd. Mae Cyngor Sir Ddinbych wrthi'n paratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd. Adolygwyd y sylwadau a dderbyniwyd ar y strategaeth a ffeirir a gwnaed newidiadau cyn cymeradwyo'r Strategaeth a Ffeirir ar gyfer y CDLI ym mis Mai 2023. Mae diogelu, gwella a datblygu isadeiledd gwyrdd a glas yn gynaliadwy wedi'u cynnwys yn yr amcanion yn y strategaeth a ffeirir **[Gweler gyfeirnod 102]**. Tra bo gwaith ar y CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd yn parhau, mae Isadeiledd Gwyrdd yn ffurfio rhan o bolisiâu allweddol ar isadeiledd ehangach, gan gynnwys cludiant a hygyrchedd a'r amgylchedd naturiol ac adeiledig. Fodd bynnag argymhellir bod CSDd yn ymgorffori polisi Isadeiledd Gwyrdd penodol ac unigol yn eu CDLI Newydd.

6.3 Wrth ddatblygu polisi CDLI allweddol ar gyfer IG mae sawl adnodd asesu sy'n ddefnyddiol i ddatblygu hyn. Mae Teclyn Asesu Polisi Cynllunio Isadeiledd

Gwyrdd yn darparu teclyn hunanasesu ar gyfer awdurdodau lleol er mwyn gwella dyluniad a geiriad eu polisiâu IG [**Gweler gyfeirnod 103**]. Mae'r teclyn yn cynnwys 26 o feini prawf asesu ar gyfer prif swyddogaethau Isadeiledd Gwyrdd. Mae hyn ynghyd â'r canllawiau yn PCC 12 wedi'u defnyddio i ddarparu argymhellion penodol ar gyfer polisi IG allweddol ar gyfer CSDd. Yn benodol, gallai'r polisi gynnwys:

- Cydnabyddiaeth benodol o werth Isadeiledd Gwyrdd a chydabyddiaeth y dylai dyluniad Isadeiledd Gwyrdd gael ei arwain gan egwyddorion allweddol: cysylltedd, aml-swyddogaethol, amrywiol, hygyrch ac ymatebol i gymeriad yr ardal.
- Gofyniad y dylai bod dyluniad IG, yn enwedig ar gyfer datblygiadau mawr, yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r safle a'r cyd-destun ehangach, gan gynnwys anghenion lleol, rhwydweithiau cynefinoedd ehangach, darpariaeth gofod agored a mynediad i'r cyhoedd.
- Gofyniad bod Isadeiledd Gwyrdd ar safle yn darparu buddion net ar gyfer bioamrywiaeth a chadw a gwella cynefin ehangach a rhwydweithiau adfer natur.
- Gofyniad bod cwrs dŵr ac ardaloedd arfordirol (lle bo'n berthnasol) yn cael eu nodi'n benodol yn nyluniad yr Isadeiledd Gwyrdd.
- Gofyniad bod Systemau Draenio Cynaliadwy yn cael eu hintegreiddio yn nyluniad Isadeiledd Gwyrdd lle bo perygl llifogydd dŵr wyneb yn broblem, gan flaenoriaethu mesurau systemau draenio cynaliadwy a fydd yn gwella amwynder a gwerth bioamrywiaeth y datblygiad a hwyluso mynediad cyhoeddus lle bo'n briodol.
- Gofyniad bod Isadeiledd Gwyrdd wedi'i ddylunio i wella materion ansawdd aer lle bo'r rhain wedi'u nodi.
- Gofyniad bod darpariaeth Isadeiledd Gwyrdd ar gyfer datblygiadau mawr yn rhoi cyfleoedd ar gyfer teithio llesol a chysylltiadau i lwybr ehangach a rhwydwaith mynediad cyhoeddus sy'n darparu cyfleoedd cerdded a beicio hamdden.
- Gofyniad bod Isadeiledd Gwyrdd yn diwallu unrhyw safonau ar gyfer manau agored ac yn darparu cyfleoedd hamdden ar gyfer gwahanol grwpiau defnyddwyr ac oedran.

- Gofyniad bod rheolaeth hir dymor a threfniadau cynnal a chadw a'u cyllid yn cael eu cytuno a'u tystiolaethu ar bapur.
- Polisi cadarn a chlr sy'n darparu arweiniad ac eglurder i ddatblygwyr ar y gofynion ar gyfer Isadeiledd Gwyrdd mewn datblygiad, gan ddarparu hyblygrwydd i ystyried cyfyngiadau safle penodol.
- Gofyniad bod datganiad isadeiledd gwyrdd yn cael ei gyflwyno gyda'r holl geisiadau cynllunio yn nodi cynigion Isadeiledd Gwyrdd amlbwrpas (gweler y manylion pellach yn yr adran nesaf).

6.4 Efallai y bydd CSDd yn dymuno ystyried gofynion Isadeiledd Gwyrdd penodol ar gyfer gwahanol ardaloedd yn y Sir sydd â chymeriad nodedig. Yn benodol, mae gwahaniaeth clir rhwng yr ymylon arfordirol trefol yng ngogledd y Sir a'r patrwm o aneddiadau gwasgaredig a gwledig yng ngweddill y Sir. Felly efallai y byddai'n briodol nodi gofynion gwahanol ym mholisi allweddol Isadeiledd Gwyrdd neu unrhyw ganllawiau cynllunio atodol ar gyfer yr ardaloedd hyn. Byddai modd rhannu'r ardaloedd drwy leoliad gwibffordd Gogledd Cymru (yr A55). Fel arall, neu yn ychwaneg at hynny, gellir diffinio gofynion Isadeiledd Gwyrdd safleoedd penodol fel rhan o bolisiâu dyrannu safleoedd mwy (gweler rhagor o fanylion isod).

6.5 Y tu hwnt i'r polisi allweddol hwn, mae'n bwysig sicrhau bod Isadeiledd Gwyrdd yn cael ei ymgorffori o fewn y CDLI yn hytrach na'i ymdrin mewn polisi ar wahân yn unig. Felly dylid ategu at bolisi allweddol dynodedig drwy 'brif ffrydio' Isadeiledd Gwyrdd drwy integreiddio cyfeiriadau penodol at IG mewn polisiâu allweddol eraill yn y CDLI, gan gynnwys polisiâu allweddol ar greu lleoedd, tai a chanol trefi a datblygiadau manwerthu. Bydd hyn yn caniatáu i IG symud y tu hwnt i bolisi amgylcheddol 'ynysig' a rhyngweithio gyda rhaglenni eraill gan gynnwys meysydd polisi iechyd, economaidd a chymdeithasol.

Cyfraniadau datblygwyr

6.6 Gellir defnyddio cyfraniadau datblygwyr ar gyfer isadeiledd i gyfeirio cyllid i gefnogi isadeiledd gwyrdd. Mae dau fecanwaith o ran cyfraniadau datblygwyr ar gael:

- Cytundebau Adran 106
- Ardoll Seilwaith Cymunedol

Adran 106

6.7 Mae cytundebau Adran 106 yn fecanwaith sy'n gwneud datblygiad yn dderbyniol o safbwynt cynllunio na fyddai fel arall yn dderbyniol drwy liniaru effaith datblygiad ar safle penodol. Pan nad yw datblygiad yn diwallu meini prawf lleol, fel unrhyw safonau a nodwyd gan gynnwys safonau mannau gwyrdd hygyrch neu ddarparu coed ar y stryd, gellir defnyddio cytundebau adran 106 i sicrhau cefnogaeth ariannol ar gyfer prosiectau isadeiledd gwyrdd lleol.

6.8 Yn Sir Ddinbych, mae modd defnyddio'r amcanion strategol a'r cyfleoedd a amlinellwyd yn y AIG hwn i arwain dyraniad cyfraniadau datblygwyr o gytundebau adran 106 i wneud datblygiad yn dderbyniol o safbwynt cynllunio. Gall cytundeb adran 106 ymwneud â darpariaeth ar y safle neu gyfraniad ariannol i wella darpariaeth oddi ar y safle. Dylid ystyried a chynnwys costau rheoli a chynnal a chadw, er enghraifft, drwy amod cynllunio ar gyfer darpariaeth ar y safle neu swm cymudol ar gyfer darpariaeth oddi ar y safle.

6.9 Bydd gofynion polisi IG clir a thryloyw yn allweddol er mwyn diwallu'r profion ar gyfer cytundebau adran 106 (e.e. gofynnol; yn berthnasol i gynllunio; uniongyrchol, teg ac yn gysylltiedig â'r datblygiad ar arfaethedig). Mae'n debyg y bydd datblygu dogfen Canllaw Cynllunio Atodol IG hefyd yn ddefnyddiol er mwyn nodi, trafod a chadarnhau rhwymedigaethau cynllunio mewn perthynas ag IG.

Ardoll Seilwaith Cymunedol

6.10 Mae'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn dreth datblygu lleol, a ddaeth i rym yn 2010. Nid yw'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn cael ei ddefnyddio yn Sir Ddinbych ar hyn o bryd, ond pe bai'n cael ei gyflwyno, dylai CSDd ystyried nodi rhai o'r cyfleoedd priodol a amlinellwyd yn yr AIG hwn yn eu Datganiad Cyllid Isadeiledd (pe byddai'r rhain wedi'u prasio'n llawn) er mwyn i'r arian a geir gyfrannu tuag at gyflawni'r prosiectau hyn.

Budd Net ar gyfer Bioamrywiaeth

6.11 Cyflwynodd dyletswydd adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ddyletswydd bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau uwch ar awdurdodau cyhoeddus. Mae'n nodi bod yn rhaid i awdurdod cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth drwy arfer ei swyddogaethau o safbwynt Cymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, cyn belled â bod hynny'n gyson ag arfer cywir y swyddogaethau hynny **[Gweler gyfeirnod 104]**. Mae gweithrediad y ddyletswydd yn golygu symud o ddiwylliant effaith a lliniaru i un lle bo budd net bioamrywiaeth yn cynrychioli un o amcanion y datblygiad.

6.12 Mae PCC 12 yn adlewyrchu'r newid mewn deddfwriaeth ac yn cynnwys y gofyniad am fudd net ar gyfer bioamrywiaeth drwy ddatblygu. Mae hyn yn golygu y dylai pob datblygiad olygu bod bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau gryn dipyn yn well na'r cyflwr yr oeddent ynghynt drwy sicrhau buddion mesuradwy ac y gellir eu tystiolaethu ar unwaith ac yn hirdymor. Dylid darparu hyn ar y safle neu'n agos iawn at y safle yn bennaf.

Mesurau cyfaddawdu bioamrywiaeth oddi ar y safle

6.13 Os, wrth ddilyn y dull graddol, ac ar ôl ceisio pob dewis arall, ac os nad yw dewisiadau eraill fel addasiadau, safleoedd amgen, amodau neu

rwymedigaethau yn ddigon i sicrhau canlyniadau bioamrywiaeth ar y safle neu yn yr ardal gyfagos, yna mae'n rhaid darparu mesurau cyfaddawdu oddi ar y safle i wneud yn iawn am unrhyw golled ac i ddangos bod budd net cyffredinol ar gyfer bioamrywiaeth. Dylid cyfeirio'r mesurau cyfaddawdu oddi ar y safle i'r lleoliadau a nodwyd yn yr AIG hwn gan roi cyfleoedd ar gyfer gwydnwch ecosystem ehangach ar lefel tirwedd.

Y Dull Graddol a Fframwaith DECCA

6.14 Mae PCC 12 yn cyfeirio'n fanwl at y dull graddol fel modd o ddangos y camau y mae datblygwyr wedi'u cymryd i sicrhau budd net ar gyfer bioamrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â'r nodweddion a nodwyd o dan fframwaith DECCA. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cymhwyso'r diffiniad o wydnwch ecosystem a gyhoeddwyd yn eu hadroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol yn 2016, sef "capasiti ecosystemau i ddelio ag aflonyddwch, naill ai drwy ei wrthsefyll, adfer yn ei sgil neu addasu iddo a dal i ddarparu gwasanaethau a buddion yn awr ac yn y dyfodol." Mae modd cymhwyso fframwaith DECCA i IG ar wahanol raddfeydd, cynefinoedd a defnydd tir a thrwy ddefnyddio rhinweddau ecosystemau fel procsi ar gyfer gwydnwch i lywio dyluniad rhwydweithiau, mae hyn yn sicrhau dull yn seiliedig ar wydnwch yn wahanol i'r ymatebion traddodiadol sy'n fwy ymatebol o safbwynt rheoli adnoddau naturiol ac Isadeiledd Gwyrdd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datblygu fframwaith DECCA er mwyn gwerthuso gwydnwch ecosystem yn seiliedig ar bump o rinweddau a nodweddion a nodwyd yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Y pump o rinweddau yn y fframwaith yw:

- Amrywiaeth: cynnal a gwella amrywiaeth ar draws y graddfeydd, gan gynnwys genetig, strwythurol, cynefin a rhwng lefelau cynefin i gefnogi cymhlethdod swyddogaethau a rhyngweithio rhwng ecosystemau.
- Graddau: ymgorffori mesurau sy'n cynnal a chynyddu'r ardal o gynefin/nodweddion lled-naturiol a'r cysylltiadau rhwng y cynefinoedd.
- Cyflwr: mae pwysau amrywiol a chymhleth yn effeithio ar gyflwr ecosystemau gan weithredu fel aflonyddwch byrdymor a hir dymor. Dylid ystyried effeithiau uniongyrchol ac ehangach, er enghraifft osgoi neu

liniaru pwysau fel newid hinsawdd, llygredd, rhywogaethau ymledol, esgeuluso rheolaeth tir ac ati.

- Cysylltedd: mae hyn yn cynnwys y cysylltiadau ymysg ac o fewn cynefinoedd, sy'n gweithredu fel coridorau ffisegol, cerrig camu yn y dirwedd, neu ddarnau o fathau tebyg o lystyfiant. Mae'r elfennau hyn gyda'i gilydd yn ffurfio rhwydwaith sy'n hwyluso llif neu symudiad genynnau, rhywogaethau ac adnoddau naturiol. Dylai datblygiadau gymryd cyfleoedd i ddatblygu rhwydweithiau cynefin ac ecolegol gweithredol o fewn a rhwng yr ecosystemau, gan ategu at y cysylltedd sy'n bodoli eisoes.
- Agwedd: mae'r gallu i addasu, adfer a gwrthsefyll aflonyddwch yn agweddau sy'n diffinio gwydnwch ecosystem.

6.15 Wrth gymhwyso'r dull graddol, mae'n rhaid i ddatblygiad gydymffurfio â'r camau canlynol:

- Osgoi: I ddechrau, dylai datblygwyr flaenoriaethu gwarchod bioamrywiaeth drwy osgoi unrhyw golled neu niwed posibl o safbwynt bioamrywiaeth yn y cyd-destun ehangaf, gan ymgorffori'r amrywiaeth o rywogaethau a'u digonedd. Dylai datblygiad werthuso'r angenrheidrwydd ar gyfer y datblygiad, gan archwilio lleoliadau neu ddyluniadau amgen, ac ystyried ymgorffori neu ddisodli datrysiadau yn seiliedig ar natur lle bo modd.
- Lleihau: Pan fo'r holl ddewisiadau er mwyn osgoi colli neu ddifrodi bioamrywiaeth wedi'u hystyried, dylai ymdrechion datblygu flaenoriaethu lleihau'r effaith gychwynnol ar fioamrywiaeth ac ecosystemau ar y safle. Gallai hyn gynnwys gwarchod y cynefinoedd presennol cymaint â phosibl, gan leihau maint y datblygiad a sicrhau cyfeiriadedd priodol, gan gadw unrhyw nodweddion presennol, neu weithredu strategaethau arloesol i osgoi difrod.
- Lliniaru: Mewn achosion lle y gallai bioamrywiaeth ac ecosystemau barhau i oddef difrod er yr ymdrechion i leihau'r effaith, dylai'r datblygiad ganolbwyntio ar fesurau lliniaru. Dylid teilwra'r mesurau hyn i fynd i'r afael ag effeithiau andwyol penodol, sy'n ceisio adfer cynefinoedd sydd wedi'u difrodi a phoblogaethau'r rhywogaethau yr effeithiwyd arnynt. Dylai'r nod ragori ar ddisodli ('tebyg at ei debyg') ac, os oes modd, dylid gwella

bioamrywiaeth y tu hwnt i'r lefelau blaenorol. Dylai ymdrechion lliniaru geisio atgyfnerthu gwydnwch ecosystem yn y safle ac, os oes modd, ymestyn y buddion i'r ardal ehangach.

- Mesurau cyfaddawdu: Pan fydd yr holl ddewisiadau amgen wedi'u hystyried, a lle nad yw addasiadau, safleoedd amgen, amodau, neu rwymedigaethau'n ddigon i sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei ddiogelu, yna mae'n rhaid ceisio mesurau cyfaddawdu oddi ar y safle ar gyfer y difrod na ellir ei osgoi. Dylai bod y mesurau cyfaddawdu'n deillio o dystiolaeth yn seiliedig ar le ac alinio â'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn yr Adroddiad Cenedlaethol ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cymru, y Datganiad Ardal, a / neu Asesiad Isadeiledd Gwyrdd. Dylid cadarnhau a sefydlu'r mesurau cyfaddawdu ymhell cyn colli unrhyw fioamrywiaeth ar y safle. Gallai mesurau neu offer cyfaddawdu priodol gynnwys:
 - gwelliannau bioamrywiaeth gyda pherthynas ecolegol amlwg â'r safle;
 - trawsleoli ac adfer nodweddion, cynefinoedd a rhywogaethau'r safle, a / neu
 - gyfraniad at gynllun ardoll a gymeradwywyd neu'r banc cynefin.



Polisiâu CDLI Penodol i Safle

6.16 Lle y darperir rhai, dylai polisiâu dyrannu safleoedd o fewn y CDLI ymgorffori canllawiau manylach ar yr Isadeiledd Gwyrdd penodol y dylid eu

darparu ar y safleoedd hyn. Dylai'r rhain ddefnyddio data gwaelodlin yn yr AIG i nodi pa asedau Isadeiledd Gwyrdd sydd ar neu ger safle datblygu a pha fygythiadau neu heriau sydd yno, ynghyd â pha anghenion sy'n bodoli y gallai Isadeiledd Gwyrdd newydd fynd i'r afael â nhw. Dylent nodi unrhyw gyfleoedd sy'n gorgyffwrdd gyda'r rhai a nodwyd yn yr AIG. Dylai arolygon safle ychwanegol a gwybodaeth arbenigwyr lleol hysbysu'r broses o nodi cyfyngiadau a chyfleoedd ychwanegol i wella Isadeiledd Gwyrdd fel rhan o'r broses ddatblygu, neu i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a nodwyd yn y rhwydwaith.

6.17 Pan ddatblygir briffiau datblygu ar gyfer dyraniadau safle arfaethedig, dylent gynnwys disgwyliadau o ran darpariaeth Isadeiledd Gwyrdd, y math a'r lleoliad, ar y safle.

Datganiadau a Chanllawiau Ategol Isadeiledd Gwyrdd

Datganiadau Isadeiledd Gwyrdd

6.18 Fel y nodwyd yn PCC 12, dylai'r polisi allweddol gynnwys gofyniad i'r holl ddatblygwyr baratoi a chyflwyno datganiad Isadeiledd Gwyrdd gyda'u cais cynllunio sy'n gymesur â maint a natur y datblygiad. Dylai'r Datganiad Isadeiledd Gwyrdd ddangos y buddion amlbwrpas sy'n gysylltiedig ag Isadeiledd Gwyrdd ar y safle datblygu a dylai ddangos sut y cymhwyswyd dull graddol. Dylai'r datganiad gynnwys y canlynol:

- Nodi unrhyw ddata gwaelodlin a ystyriwyd ac unrhyw arolygon ac asesiadau a gynhaliwyd megis arolygon ecolegol, datganiadau draenio cynaliadwy, cynlluniau rheoli tirlun ac ecolegol, asesiadau manau agored, darpariaeth manau gwyrdd a chysylltiadau teithio llesol.
- Cynllun amlinellol o'r isadeiledd gwyrdd presennol a chysylltedd ar a ger y safle. Dylai adlewyrchu fframwaith y safle os yn berthnasol.

- Disgrifio sut mae Isadeiledd Gwyrdd presennol wedi'i ymgorffori yn y cynnig a dangos nad oes effaith na cholled net.
- Darparu cynllun i ddangos yr isadeiledd gwyrdd arfaethedig ar gyfer y safle a nodi lle bo cyfleoedd cysylltedd wedi'u gwella/sefydlu/adfer.
- Darparu manylion trefniadau rheoli hirdymor, gan nodi'r trefniadau rheoli ar unwaith a pharhaus y safle. Dylai gynnwys trefniadau monitro yn y dyfodol ar gyfer yr holl fesurau a ddarparwyd, a dylai nodi'n glir y trefniadau cyllid sydd yn eu lle i gyflawni amcanion y cynllun rheoli.

Canllawiau ategol: Dyluniad

6.19 Dylai'r Cyngor ystyried cefnogi polisiâu cynllunio Isadeiledd Gwyrdd newydd trwy ddatblygu canllawiau ategol yn nodi cynnwys y Datganiadau Isadeiledd Gwyrdd a pha Isadeiledd Gwyrdd y disgwylir drwy ddatblygu. Byddai hyn yn gymorth i sicrhau bod budd-ddeiliaid yn deall beth y dylid ei ddarparu o safbwynt Isadeiledd Gwyrdd mewn gwahanol leoliadau / mathau o ddatblygiad. Gallai hefyd egluro ymhellach sut y dylai datblygwyr geisio diwallu gofynion Isadeiledd Gwyrdd a Budd Net ar gyfer Bioamrywiaeth ar y cyd gan ddefnyddio dull â strwythur, yn seiliedig ar gyd-destun ar gyfer y dyluniad sy'n lleihau'r cymhlethdod ar gyfer datblygwyr a chynllunwyr.

6.20 Elfen allweddol o ganllawiau ehangach o'r fath fyddai 'rhestr wirio' ar gyfer cynllunwyr a datblygwyr. Byddai'r rhestr wirio yn darparu cyfres gryno o gwestiynau sy'n ymwneud ag Isadeiledd Gwyrdd i'w gofyn mewn perthynas ag unrhyw ddatblygiad newydd sy'n ceisio caniatâd cynllunio. Byddai fwyaf perthnasol i safleoedd mwy sy'n cynnwys proses uwchgynllun ac a fyddai'n cael eu hategu gan fframweithiau a chanllawiau dylunio sydd wedi'u cynhyrchu ar gyfer safleoedd datblygu penodol.

6.21 Mae wyth cwestiwn Isadeiledd Gwyrdd y dylid eu gofyn ar gyfer cynlluniau datblygu a allai ffurfio sylfaen y rhestr wirio wedi'u nodi isod. Yn absenoldeb unrhyw ganllawiau ategol, gallai'r cwestiynau hyn arwain unrhyw ystyriaeth sy'n rhan o'r Datganiad Isadeiledd Gwyrdd.

1. A yw'r dirwedd wedi arwain y gwaith o gynhyrchu uwchgynllun?

6.22 Dylai creu lleoedd o ansawdd uchel ddefnyddio cyd-destun y dirwedd fel man cychwyn, gan ddefnyddio asesiadau cymeriad tirwedd perthnasol, a dylent "weithio gyda" thirwedd i greu lleoedd nodedig. Mae hyn yn golygu y dylai nodweddion fel topograffeg, patrymau draenio a gwarchod nodweddion presennol y dirwedd megis coetir a pherthi arwain y camau dylunio cynharaf, gan gynnwys cynllun y ffyrdd ac adeiladau, yn hytrach na'u hôl-osod yn ddiweddarach.

2. A yw natur wedi arwain yr uwchgynllun ac a yw'r safle yn cysylltu â'r rhwydweithiau ecolegol ehangach?

6.23 Dylai dealltwriaeth o gynefinoedd presennol a chyfleoedd budd net ar gyfer bioamrywiaeth, yn seiliedig ar ddata cynefinoedd a rhywogaethau presennol a'r arolygon ecolegol cynnar, hysbysu'r uwchgynllun. Dylai hyn gynnwys ystyriaeth ofalus o sut y gellir diogelu ardaloedd amgylcheddol sensitif neu gynefinoedd o werth uchel (e.e. coed a choetiroedd hynafol) a sut y gellir gwella gwydnwch ecolegol.

6.24 Dylai'r cynigion ar gyfer datblygiad newydd gynnwys map o gyfleoedd cysylltedd cynefinoedd lleol a darparu tystiolaeth o ran sut mae'r datblygiad yn atgyfnerthu yn hytrach na gwanhau'r rhwydweithiau hyn; a sut mae'r mynediad at natur yn cael ei wella i bawb. Dylid integreiddio cynefinoedd drwy'r datblygiadau, gan ddefnyddio nodweddion fel coed ar y stryd, gwrychoedd a nodweddion cynefinoedd micro (e.e. blychau adar / ystlumod), yn hytrach na'u cyfyngu i ofodau gwyrdd allweddol.

6.25 Mae'n bwysig bod nodweddion IG amlbwrpas yn cael eu darparu ar y safle lle bynnag y bo modd, i greu ac adfer cynefinoedd a gwneud y mwyaf o gyd-

fuddion i fynd i'r afael ag anghenion lleol megis iechyd a lles a gwydnwch yn erbyn llifogydd.

3. A yw ystyriaeth o ddŵr a draeniau wedi hysbysu'r uwchgynllun?

6.26 Dylai cynllun y datblygiad ystyried cyfleoedd a chyfyngiadau yn sgil llwybrau dŵr a chyrrff dŵr presennol, gan wneud y mwyaf o fuddion amwynder a bioamrywiaeth yr 'isadeiledd glas' presennol a newydd a cheisio gwella ansawdd dŵr. Dylid gwneud y mwyaf o gyfleoedd i wella a chreu cyrrff dŵr newydd, o ystyried eu buddion sylweddol o safbwynt amwynder a bioamrywiaeth a nodi bod pyllau dŵr yn gynefin blaenoriaeth.

6.27 Pan fo tystiolaeth yn nodi bod perygl llifogydd yn sylweddol, dylid dylunio mesurau draenio cynaliadwy o ansawdd uchel yn rhan o'r datblygiad newydd - i'w darparu fel rhwydwaith o fesurau fel y bo'n briodol, gan gynnwys gerddi glaw, pafin hydraid, tyllau coed ac ardaloedd o wlypdir - yn hytrach na 'thwll yn y llawr' gyda swyddogaeth unigol. Dylai bod y rhain yn cael eu dylunio i wneud y mwyaf o'r buddion ar gyfer amwynder a bioamrywiaeth ynghyd â rheoli risg llifogydd. Dylid darparu mynediad lle bo'n ddiogel gwneud hynny. Drwy arafu llif ac annog ymdreiddiad (lle bo'n briodol) gall Systemau Draenio Cynaliadwy gynorthwyo i ddal dŵr ac ail-lenwi dyfrhaenau, gan gyfrannu at lai o straen dŵr. Gallant hefyd gynorthwyo i hidlo llygredd dŵr, gan wella ansawdd y dŵr.

6.28 Dylid gwneud y mwyaf o gyfleoedd i ddal a storio dŵr i'w aildefnyddio ar gyfer defnydd nad yw'n cynnwys ei yfed, megis dyfrhau gerddi hefyd. Dylid dilyn safonau statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer systemau draenio cynaliadwy yn y dyluniad manwl **[Gweler gyfeirnod 105]**.

4. A yw'r datblygiad yn diwallu safonau gofod agored a mannau gwyrdd lleol mewn modd cydlynol?

6.29 Dylai datblygiadau ddiwallu safonau mannau agored lleol (e.e. ar gyfer gofod chwarae a chaeau chwaraeon) a mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion presennol o ran mynediad i ofod gwyrdd (gweler y mapio yn yr astudiaeth isadeiledd gwyrdd). Dylai bod swyddogaethau clir i'r mannau gwyrdd. Dylent hefyd sicrhau bod gofodau agored yn cael eu dylunio i ddiwallu anghenion amrywiol, gan sicrhau mynediad cynhwysol i bawb.

5. A yw'r datblygiad yn cefnogi teithio llesol, gan gysylltu gyda llwybrau teithio llesol y tu hwnt i ffin y safle?

6.30 Dylai'r holl gynigion datblygu gynnwys map cyd-destun clir sy'n dangos sut y bydd y datblygiad arfaethedig yn cysylltu â'r rhwydwaith teithio llesol ehangach (e.e. llwybrau cerdded a beicio) a nodi ffyrdd y gall y datblygiad atgyfnerthu'r rhwydwaith, gan ystyried cyrchfannau allweddol (e.e. ysgolion, lleoliadau gwaith, cludiant cyhoeddus) y bydd pobl eisiau teithio iddynt o fewn yr ardal bresennol ac o fewn y datblygiad newydd.

6.31 Dylid integreiddio cynllunio llwybrau teithio llesol diogel a chyfleus a darpariaeth Isadeiledd Gwyrdd i greu llwybrau teithio llesol gwyrdd, deniadol sy'n apelio at ddefnyddwyr ac yn darparu buddion ehangach.

6. A yw gorchudd canopi coed ar draws y safle'n cael ei ehangu'n sylweddol?

6.32 Mae cynyddu gorchudd coetir yn bwysig er mwyn lliniaru newid hinsawdd a gall ddarparu ystod eang o fuddion ar gyfer natur a phobl. Mae PPC 12 yn annog Awdurdodau Cynllunio Lleol i osod targedau gorchudd coed lleol er mwyn cynorthwyo i ddiogelu ac ehangu gorchudd coed. Dylai pob cynnig datblygu:

- Nodi, cynnal, diogelu ac integreiddio coed, coetir a pherthi sy'n bresennol ar safle datblygu.
- Dylid osgoi difrodi coed, coetir a pherthi hefyd wrth ddarparu gwasanaethau ac isadeiledd a dylid ystyried hynny fel rhan o'r datblygiad a gynigir.
- Ni chaniateir cael gwared ar goed, coetir a pherthi yn barhaol oni byddai hynny'n sicrhau buddiannau cyhoeddus arwyddocaol a chilir. Dylai plannu coed i gymryd lle rhai a gollwyd fod mewn cymhareb sy'n gyfystyr ag ansawdd, pwysigrwydd amgylcheddol ac ecolegol y coed ac mae'n rhaid eu darparu ar y safle neu'n agos iawn at y safle gydag isafswm o 3 coeden debyg o ran math a maint ar gyfer pob 1 a gollwyd.

6.33 Dylid dilyn canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gynllunio coetir a dewis y rhywogaeth briodol a chytuno ar drefniadau cynnal a chadw'r coetir newydd **[Gweler gyfeirnod 106]**.

7. A yw'r uwchgynllun yn mynd i'r afael â dyluniad Isadeiledd Gwyrdd i ddiwallu anghenion ehangach?

6.34 Dylid archwilio'r cyfleoedd i ddylunio Isadeiledd Gwyrdd i ddiwallu anghenion y tu hwnt i'r rhai a nodwyd uchod hefyd. Er enghraifft, a oes anghenion lleol sydd heb eu diwallu er mwyn tyfu bwyd ac os felly, sut y gellir

dylunio hyn fel rhan o'r uwchgynllun? Neu a oes cyfleoedd i ddefnyddio rhwystrau trwchus o goetir neu berthi i leihau'r sŵn o'r ffyrdd cyfagos neu leihau lledaeniad llygredd aer o'r ffyrdd prysur sy'n arwain at y datblygiad?

8. Sut fydd y safle'n cael ei gynnal a'i gadw'n hirdymor?

6.35 Dylid trafod stiwardiaeth hirdymor Isadeiledd Gwyrdd yng nghanau cynnar y gwaith dylunio, i sicrhau parhad y stiwardiaeth. Dylid ystyried modelau fel partneriaethau gyda'r Ymddiriedolaeth Tir neu gorff elusennol neu gymunedol arall. Mae'n rhaid diffinio trefniadau cynnal a chadw, cyfrifoldebau a threfniadau cyllid hir dymor yn glir fel rhan o'r holl geisiadau cynllunio.

Adnoddau eraill

Safonau manau gwyrdd naturiol a gofod hamdden agored hygyrch

6.36 Yn yr Arweinyfr Manau Gwyrdd [**Gweler gyfeirnod 107**], mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n amlinellu'r Safonau Manau Gwyrdd Naturiol Hygyrch yn Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 16 Polisi Cynllunio Cymru. Mae argymhellion Chwaraeon, Hamdden a Gofod Agored yn cael eu defnyddio i ategu at AIG. Mae'r safonau fel a ganlyn:

- Dylai pawb fyw o fewn 300m o ofod gwyrdd naturiol hygyrch.
- Dylai fod o leiaf un safle >20ha hygyrch o fewn 2km o'r cartref
- Dylai fod un safle 100ha hygyrch o fewn 5km.
- Dylai fod un safle 500ha hygyrch o fewn 10km.

6.37 Mae meini prawf capasiti mannau gwyrdd yn cyd-fynd â'r safonau mynediad. Defnyddir safon Meysydd Chwarae Cymru o 2.4ha fesul 1,000 o'r boblogaeth yn aml.

6.38 Dylai fod safon ansawdd yn ategu at safonau ar gyfer mynediad a chyfanswm er mwyn sicrhau bod gofodau gwyrdd yn darparu amgylchedd diogel a dymunol gyda chyfleusterau sy'n diwallu anghenion y cymunedau lleol. Mae sawl Cyngor wedi dewis mabwysiadu meini prawf Gwobr y Faner Werdd fel eu safon ansawdd ar gyfer gofodau gwyrdd. Mae modd integreiddio cadw'r safon ansawdd fel disgwyliad o fewn y gofynion cynnal a chadw parhaus ar gyfer mannau agored.

6.39 Mae CSDd yn diweddarau eu Strategaeth ac Archwiliad Gofod Agored ar hyn o bryd, a bydd yn asesu'r math a chyfanswm y gofodau agored presennol yn y Sir ac yn datblygu safonau penodol i'r Cyngor. Bydd hyn yn hysbysu polisi newydd y CDLI ac unrhyw ddiweddariad dilynol i CCA Mannau Agored Hamdden. Lle y caniateir cyfraniadau oddi ar y safle yn unol â'r polisi lleol, dylid defnyddio'r rhain i gyfrannu at gyfleoedd a nodwyd yn yr AIG lle bynnag y byddai hyn o gymorth i ddiwallu'r safonau.

Safonau Adeiladu gyda Natur

6.40 Mae PCC 12 yn cyfeirio'n benodol at y defnydd o Safonau Adeiladu gyda Natur fel model effeithiol i wella ansawdd datblygiad a dangos sut y bydd adnoddau naturiol o fewn y datblygiad yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Mae Safonau Adeiladu gyda Natur yn safon yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n diffinio Isadeiledd Gwyrdd o ansawdd uchel yn seiliedig ar 12 safon **[Gweler gyfeirnod 108]**. Mae'n ceisio gwella'r safon yn y diwydiant drwy ddangos yn eglur beth yw Isadeiledd Gwyrdd da ym mhob cam o'r broses ddatblygu. Yn unol â chanllawiau PCC 12, gallai CSDd fabwysiadu'r safon fel meincnod i asesu ansawdd Isadeiledd Gwyrdd fel rhan o ddatblygiad. Mae safonau Adeiladu gyda Natur yn cynnwys yr egwyddorion allweddol canlynol:

- Amlbwrpas - mae cyfuniad o nodweddion unigol yn cyfrannu at rwydwaith o fuddion amrywiol.

- Cysylltiedig - yn darparu neu'n llenwi bwlch naturiol yn y dirwedd er budd natur a phobl.
- Wedi'i leoli'n briodol - yn adlewyrchu a / neu'n creu ymdeimlad o le, yn ystyriol o'r cyd-destun a chymeriad yr amgylchedd lleol a blaenoriaethau pobl a bywyd gwyllt.
- Gwydn - yn ymateb i'r argyfwng hinsawdd mewn modd cadarnhaol a chyfrannol.
- Wedi'i reoli'n gyfrifol - yn cynnwys mecanwaith cynaliadwy i gefnogi ei weithrediad a'r buddion gydol oes.
- Yn sensitif i'r amgylchedd - yn lliniaru ei effaith leol ac yn gwella ansawdd yr amgylchedd naturiol cyfagos.

6.41 Mae gan safon Adeiladu gyda Natur achrediad cysylltiol a dylid annog y prif ddatblygiadau yn Sir Ddinbych i geisio hynny.

Teclyn Ffactor Mannau Gwyrdd

6.42 Mae ffactor manau gwyrdd yn declyn i asesu cyfanswm a nodweddion isadeiledd gwyrdd mewn ceisiadau cynllunio. Byddai mabwysiadu'r teclyn ar gyfer datblygiadau mawr yn cynnwys gosod sgôr targed ar gyfer datblygiadau newydd a rhannu'r dull cyfrifo. Dylid gosod y sgôr targed yn lleol (yn seiliedig ar y cyd-destun lleol a'r anghenion o ran Isadeiledd Gwyrdd). Mae Natural England yn darparu argymhelliad sgôr o 0.3 ar gyfer datblygiad masnachol, 0.4 ar gyfer datblygiad preswyl a, lle bo'n briodol, 0.5 ar gyfer datblygiad preswyl tir glas. Mae cyfanswm sgôr UGF ar gyfer datblygiad yn cael ei gyfrifo yn seiliedig ar luosi sawl sgôr UGF ar gyfer gwahanol fathau o orchudd tir yn ôl yr ardal ofodol ar gyfer pob un ac yna rhannu'r cyfanswm gyda chyfanswm arwynebedd y safle. Mae nodweddion naturiol fel coed stryd a pherthi yn cyflawni scorau uwch na glaswelltir amwynder a phafin hydraid, sydd â sgôr uwch na ffyrdd tarmac.

6.43 Mae tystiolaeth o werth y teclyn er mwyn gwella cyfanswm ac ansawdd Isadeiledd Gwyrdd o fewn datblygiad. Ond, mae wedi'i gymhwyso mewn ardaloedd trefol yn Lloegr gan fwyaf hyd yma, ar ôl cael ei fabwysiadu yng Nghynllun Llundain yn 2021. Yng Nghymru, mae Cyngor Abertawe wedi bod yn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i sefydlu teclyn ffactor mannau gwyrdd i'w ddefnyddio yn Ardal Ganolog Abertawe gyda phwyslais ar ddatblygiadau sy'n cyfrannu at 'wythien werdd' yng nghanol y ddinas **[Gweler gyfeirnod 109]**. Nid oes tystiolaeth hyd yma o fuddion ei ddefnydd mewn ardaloedd sy'n wledig yn bennaf. Efallai, felly, os caiff ei fabwysiadu, y dylid ei gymhwyso mewn ardaloedd trefol penodol yn y Sir yn unig. Cyn cymhwyso teclyn ffactor mannau gwyrdd yn Sir Ddinbych, argymhellir y dylid casglu tystiolaeth yn lleol i ddechrau, drwy astudiaeth empirig o bosibl gan werthuso'r cyfanswm a'r math o ofod gwyrdd a ddarperir mewn datblygiadau a ganiatawyd yn ddiweddar. Gallai astudiaeth o'r fath gyfrifo sgôr ffactor mannau gwyrdd yn y cynlluniau enghreifftiol hyn, gan eu cymharu â'r sgorau targed a ddefnyddir mewn ardaloedd eraill, a phan fo'r sgorau'n is byddai modd archwilio a fyddai wedi bod yn bosibl cyflawni sgôr ffactor mannau gwyrdd drwy nodi mesurau gwyrdd ychwanegol. Byddai'n bwysig bod yr astudiaeth hefyd yn ystyried unrhyw effaith bosibl ar hyfywedd er mwyn gallu darparu cyfiawnhad cadarn dros ei fabwysiadu.

Pennod 7

Monitro ac adolygu

Cyflwyniad

7.1 Mae'n bwysig bod gweithrediad y Polisi Isadeiledd Gwyrdd ac unrhyw Safonau o fewn y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu monitro a'u gwerthuso i sicrhau eu heffeithiolrwydd o ran diogelu, cynnal a gwella rhwydwaith Isadeiledd Gwyrdd Sir Ddinbych dros amser. Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn bod yr holl Gynlluniau Datblygu Lleol yn cynnwys fframwaith monitro sy'n hysbysu'r canfyddiadau a adroddir mewn Adroddiad Monitro Blynyddol. Mae Adroddiadau Monitro Blynyddol yn gyfrwng pwysig i asesu cyflawniad Amcanion y CDLI, effeithiolrwydd polisi lleol, yn ogystal â chynnydd o ran cyflawni datblygiad ar safleoedd a ddyrannwyd.

7.2 Mae PCC 12 yn darparu canllawiau ar y broses o fonitro ac adolygu ar gyfer Isadeiledd Gwyrdd. Mae'n nodi bod yn rhaid adolygu AIG a'r data a'r allbynnau a fapiwyd yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y wybodaeth ar gynefinoedd, rhywogaethau a nodweddion gwyrdd eraill ac adnoddau yn cael eu diweddarau a bod y data gorau posib' yn cael ei ddefnyddio i sefydlu a monitro cyfres o ddangosyddion allweddol. Dylid ymgorffori'r dangosyddion hyn o fewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yr Awdurdod Cynllunio Lleol a, lle bo'n briodol, mewn Cynlluniau ac Adroddiadau Adran 6.

7.3 Mae PCC 12 yn nodi bod yn rhaid i'r dangosyddion hyn fod yn benodol i ardal, a chynnwys gwybodaeth am rywogaethau a chynefinoedd allweddol; cyfleoedd i ddiogelu, cadw, adfer a gwella natur (i sicrhau budd net ar gyfer bioamrywiaeth); a gwasanaethau buddion / ecosystem sy'n cyfrannu at iechyd a lles cymunedau. Byddai monitro llwyddiant a darpariaeth budd net ar gyfer bioamrywiaeth drwy'r broses gynllunio (gan gynnwys amodau a rhwymedigaethau cynllunio) yn cyfrannu at y broses hon, wedi'i hysbysu gan unrhyw gynllun rheoli a gytunwyd ar gyfer safle penodol.

7.4 Mae PCC 12 yn nodi ar ddiwedd pob cyfnod adrodd dylai'r awdurdodau cynllunio ddefnyddio'r data i nodi a fu budd net neu golled bioamrywiaeth; a yw cynnydd yn cael ei gyflawni o ran sicrhau mesurau lliniaru a gwella; a dylent ddefnyddio'r tueddiadau a nodwyd i bennu blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol o safbwynt cynllunio a gwneud penderfyniadau, gyda'r nod o gyflawni cynnydd ar nod Dyletswydd Adran 6 (y cyfeiriwyd ato yn flaenorol).

7.5 Mae'r adran hon yn darparu argymhellion ar ddangosyddion y gellir eu hymgorffori yn fframwaith monitro CDLI Sir Ddinbych, i ddiwallu gofynion PCC 12 ar gyfer monitro ac adolygu'r Isadeiledd Gwyrdd.

7.6 Mae CSDd wrthi'n adolygu eu CDLI. Bydd y CDLI newydd yn cynnwys polisi Isadeiledd Gwyrdd sy'n seiliedig ar yr argymhellion o fewn yr AIG hwn. Mae cyfres o ddangosyddion a gyflwynwyd yn yr adran hon yn seiliedig ar yr argymhellion polisi a ddarparwyd yn yr AIG; ond, efallai y bydd angen adolygu'r rhain pan fydd y Polisi Isadeiledd Gwyrdd strategol wedi'i gadarnhau.

7.7 Mae'r dangosyddion a ddatblygwyd wedi'u nodi gan gydnabod pwysigrwydd monitro ac adolygu wrth sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer Isadeiledd Gwyrdd ynghyd â'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i gyflawni'r gwaith monitro. Mae argaeledd y data ar hyn o bryd wedi'i ystyried hefyd. Mae'r dangosyddion isod yn darparu asesiad o *broses* cais cynllunio a *chanlyniadau* ceisiadau cynllunio.

7.8 Mae rhagor o wybodaeth am ddatblygiad y fframwaith monitro ar gael yn **Atodiad C.**

Dangosyddion

Dangosyddion monitro a awgrymir

Darparu Isadeiledd Gwyrdd fel rhan o ddatblygiad newydd.

- Dangosydd
 - Canllawiau cynllunio wedi'u mabwysiadu ar ddarpariaeth Isadeiledd Gwyrdd fel rhan o ddatblygiad newydd.
- Targed
 - Paratoi canllawiau cynllunio atodol wedi'u diweddarau o fewn tair blynedd o ddyddiad mabwysiadu'r CDLI.
- Pwynt Sbardun / Amllder
 - Nid oes canllawiau cynllunio atodol wedi'u diweddarau o fewn tair blynedd o ddyddiad mabwysiadu'r CDLI.
- Camau Gweithredu
 - Blaenoriaethu paratoi canllawiau cynllunio atodol ar gyfer darpariaeth Isadeiledd Gwyrdd.

Pan fydd y canllaw cynllunio wedi'i fabwysiadu bydd gwaith monitro'r dangosydd yn dechrau. Dylunio a darparu Isadeiledd Gwyrdd yn unol â'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn yr AIG.

- Dangosydd

- Nifer y ceisiadau cynllunio sy'n cynnwys datganiad isadeiledd gwyrdd sy'n cydymffurfio â'r canllaw dylunio IG a amlinellwyd yn yr AIG.
- Targed
 - Bod yr holl geisiadau cynllunio yn cynnwys datganiad IG sy'n cydymffurfio â'r canllawiau dylunio IG a nodwyd yn yr AIG.
- Pwynt Sbardun / Amllder
 - Datblygiad unigol yn derbyn caniatâd ac nad yw'n cynnwys Datganiad IG sy'n cydymffurfio'n llawn.
- Camau Gweithredu
 - Dadansoddi'r rhesymau dros beidio â chydymffurfio, sicrhau bod y canllawiau'n darparu canllawiau digonol o ran diwallu amcanion yr AIG, adolygu os bydd angen.

Darparu gofod agored cyhoeddus, gan gynnwys ardal chwarae i blant, fel rhan o ddatblygiad preswyl newydd.

- Dangosydd
 - Nifer y datblygiadau preswyl sy'n cynnwys gofodau agored cyhoeddus ar y safle, gan gynnwys ardal chwarae i blant.
- Targed
 - Yr holl ddatblygiadau preswyl yn cynnwys gofodau agored cyhoeddus ar y safle, gan gynnwys ardal chwarae i blant.
- Pwynt Sbardun / Amllder
 - Datblygiad preswyl unigol yn derbyn caniatâd ond nid yw'n cynnwys gofod agored cyhoeddus ar y safle, gan gynnwys ardal chwarae i blant, oni bai ei fod wedi'i gyfiawnhau gan eithriad polisi lleol.
- Camau Gweithredu

- Dadansoddi'r rhesymau dros y diffyg cydymffurfiaeth; sicrhau bod safonau gofod agored wedi'u diweddarau; adolygu'r polisi lleol os oes angen.

Cynnal a chadw elfennau cydrannau Isadeiledd Gwyrdd i sicrhau darpariaeth buddion hirdymor.

- Dangosydd
 - Datblygiad yn derbyn caniatâd sy'n cynnwys trefniadau rheoli a chynnal a chadw Isadeiledd Gwyrdd sydd wedi'u prisio a'u hariannu'n llawn.
- Targed
 - Mae'r holl geisiadau cynllunio'n cynnwys trefniadau rheoli a chynnal a chadw Isadeiledd Gwyrdd sydd wedi'u prisio a'u hariannu'n llawn o fewn eu Datganiad Isadeiledd Gwyrdd.
- Pwynt Sbardun / Amllder
 - Datblygiad sengl yn derbyn caniatâd heb drefniadau rheoli a chynnal a chadw Isadeiledd Gwyrdd wedi'u prisio a'u hariannu'n llawn, oni bai eu bod wedi'u cyfiawnhau drwy eithriad yn y polisi lleol.
- Camau Gweithredu
 - Dadansoddi rhesymau pam nad yw datblygiadau'n cynnwys trefniadau rheoli a chynnal a chadw Isadeiledd Gwyrdd, adolygu'r polisi lleol os bydd angen.

Isadeiledd Gwyrdd ar y safle yn darparu budd net ar gyfer bioamrywiaeth a chadw a gwella rhwydweithiau adfer cynefin a natur ehangach.

- Dangosydd

- Nifer o geisiadau sy'n dangos budd net ar gyfer bioamrywiaeth drwy ddefnyddio'r dull graddol.
- Targed
 - Mae budd net ar gyfer bioamrywiaeth yn cael ei ddarparu fel rhan o'r holl ddatblygiadau newydd dros gyfnod y cynllun datblygu lleol.
- Pwynt Sbardun / Amllder
 - Caniatâd unigol nad yw'n darparu budd net ar gyfer bioamrywiaeth, oni bai bod cyfiawnhad drwy eithriad polisi lleol.
- Camau Gweithredu
 - Dadansoddi'r rhesymau pam nad yw'r datblygiad yn darparu budd net, adolygu'r polisi lleol os bydd angen.

Gwella iechyd a lles trwy gynyddu hygyrchedd gwasanaethau a chyfleusterau hamdden mewn unrhyw ffordd heblaw mewn cerbydau modur unigol.

- Dangosydd
 - Hyd y rhwydwaith teithio llesol a ddarperir drwy ddatblygiad newydd.
- Targed
 - Cynyddu hyd y rhwydwaith teithio llesol yn y Sir drwy ddatblygiadau newydd.
- Pwynt Sbardun / Amllder
 - Dim cynnydd yn hyd y rhwydwaith teithio llesol ar ôl pedair blynedd ers mabwysiadu'r CDLI.
- Camau Gweithredu
 - Dadansoddi'r rhesymau pam nad yw datblygiad yn cyflawni cynnydd yn hyd y llwybrau teithio llesol, adolygu'r polisi lleol os bydd angen.

Gwella iechyd a lles trwy gynyddu hygrychedd gwasanaethau a chyfleusterau hamdden mewn unrhyw ffordd heblaw mewn cerbydau modur unigol.

- Dangosydd
 - Llunio cysylltiadau newydd o'r llwybrau teithio llesol mewn datblygiad newydd i'r rhwydwaith teithio llesol ehangach.
- Targed
 - Cynyddu nifer y cysylltiadau o'r llwybrau teithio llesol newydd i'r rhwydwaith teithio llesol presennol.
- Pwynt Sbardun / Amllder
 - Dim cysylltiadau newydd ar ôl pedair blynedd ers mabwysiadu'r CDLI.
- Camau Gweithredu
 - Dadansoddi'r rhesymau pam nad yw'r datblygiad yn darparu cysylltiadau newydd, adolygu'r polisi lleol os bydd angen.

7.9 Y tu hwnt i'r dangosyddion hyn **gellir ystyried dangosyddion canlyniadau ychwanegol ar lefel sirol**, y gallai darpariaeth Isadeiledd Gwyrdd gyfrannu atynt, fel ychwanegiadau i'r Adroddiad Monitro Blyneddol. Os cânt eu hymgorffori gellir priodoli'r rhain i sawl polisi yn y CDLI a'u hystyried fel dangosyddion trosfwaol o lwyddiant yn y system gynllunio yn Sir Ddinbych, er nad yw'n hawdd tystiolaethu mai'r broses gynllunio sy'n gyfrifol am yr effaith yn uniongyrchol bob tro. Gallai'r dangosyddion hyn gynnwys:

- Iechyd a lles: wedi'i fesur drwy barth amgylchedd ffisegol sy'n cael ei gyfrifo yn seiliedig ar dri is-barth; ansawdd aer, perygl llifogydd a mannau gwyrdd, a byddai darparu Isadeiledd Gwyrdd o ansawdd da yn cynorthwyo i wella'r rhain i gyd. Pe defnyddir hyn, y targed fyddai cymunedau yn Sir Ddinbych yn gwella eu safle o gymharu â sylfaen 2019. Felly'r pwynt sbardun fyddai cymunedau sydd ddim yn gwella eu safle. Byddai

polisiau'r CDLI ar gludiant, creu lleoedd, isadeiledd, gofod agored a rheoli dŵr yn cyfrannu at gyflawni'r canlyniad hefyd.

- Budd net bioamrywiaeth ar draws y sir: wedi'i fesur drwy gyfresi data ar draws y sir a chenedlaethol ar gyflwr safleoedd a ddiogelir, nifer y rhywogaethau a chynefinoedd a chynnydd mewn gorchudd canopi cyffredinol. Bydd darparu Isadeiledd Gwyrdd, gan gynnwys budd net ar gyfer bioamrywiaeth, drwy ddatblygu yn gymorth i ddiwallu'r targedau hyn. Pe defnyddir hyn, gellir gosod cynnydd mewn bioamrywiaeth a gwelliant yn ei gyflwr fel targed. Gallai'r pwyntiau sbardun ymwneud â gostyngiad yn statws cadwraeth rhywogaeth a / neu gynefin a warchodir o gymharu â'u statws pan fabwysiadwyd y CDLI, pan fo gostyngiad cyffredinol yn nifer y rhywogaethau a'r cynefinoedd a lle nad oes cynnydd yng ngorchudd coed a choetir y Sir ar ôl pedair blynedd ers mabwysiadu'r CDLI. Byddai polisiau'r CDLI ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig a gofod agored hefyd yn cyfrannu at gyflawni'r amcan. Byddai adolygiad o'r holl bolisiau y disgwylir iddynt gyfrannu at y dangosydd hwn pe na fyddai'r targedau'n cael eu diwallu.

Atodiad A

Geirfa

A.1 Teithio llesol: teithiau a wnaed drwy ymarfer y corff megis cerdded a beicio.

A.2 Coetiroedd hynafol a lled-naturiol: math o goetir sy'n cynnwys rhywogaethau coed brodorol nad ydynt yn amlwg wedi'u plannu. Maent yn adnodd ecolegol hynod werthfawr, gydag amrywiaeth uchel o fflora a ffawna, ac wedi'u diffinio fel cynefin nad oes modd ei ddisodli.

A.3 Coridorau glas: yn cysylltu ardaloedd o isadeiledd glas gan gynnwys afonydd a chamlesi, gwlypdiroedd, gorlifdir, ardaloedd storio llifogydd, pyllau a pharciau gyda'r nod o liniaru'r perygl llifogydd, gwella bioamrywiaeth ac ymgorffori cyfleoedd hamdden.

A.4 Adeiladu gyda Natur: safon yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n diffinio Isadeiledd Gwyrdd o ansawdd uchel yn seiliedig ar 12 safon. Mae'n ceisio codi'r safon yn y diwydiant drwy ddangos yn glir beth yw Isadeiledd Gwyrdd 'da'.

A.5 Dal a storio carbon: proses naturiol neu artiffisial lle bo carbon deuocsid yn cael ei dynnu o'r atmosffer a'i storio.

A.6 Gwasanaethau Ecosystem: yr holl brosesau ac allbynnau a gawn o ecosystemau sy'n gweithio'n dda. Gellir rhannu'r rhain yn ôl gwasanaethau darparu (fel bwyd, dŵr a thanwydd). Gwasanaethau Rheoleiddio (fel aer glân neu reoli llifogydd), gwasanaethau cefnogi (fel priddoedd iach a gofodau ar gyfer bywyd gwyllt) a gwasanaethau diwylliannol (fel iechyd a lles a gwybodaeth a dysgu).

A.7 Cynlluniau Rheoli Tir Amgylcheddol: cynlluniau'r llywodraeth sy'n talu ffermwyr a rheolwyr tir i ddarparu canlyniadau amgylcheddol cadarnhaol, ochr

Cyfeiriadau

yn ochr â chynhyrchu bwyd. Gallai'r nwyddau a'r gwasanaethau amgylcheddol sy'n cael eu hariannu gynnwys adfer a chreu cynefin, gwella ansawdd dŵr, cynyddu gwydnwch rhag llifogydd, plannu coetiroedd a lleihau allyriadau carbon.

A.8 Isadeiledd gwyrdd a glas: yn cyfeirio at y rhwydwaith o fannau gwyrdd a glas sy'n amgylchynu trefi a dinasoedd ac yn gweu trwyddynt.

A.9 Coridorau gwyrdd: yn cysylltu gofodau gwyrdd agored naturiol, lled naturiol ac wedi'u gwneud gan bobl, gan greu rhwydwaith rhyng-gysylltiedig o ofodau sy'n cefnogi bywyd gwylt a hamdden yn aml.

A.10 Gwobr y faner werdd: gwobr meincnod ar gyfer parciau a gofodau gwyrdd sydd wedi'u rheoli'n dda, yn aml defnyddir meini prawf asesu'r wobr fel meini prawf ansawdd ar gyfer parciau a gofodau gwyrdd.

A.11 Toeau gwyrdd: to adeilad sydd wedi'i orchuddio'n rhannol neu'n gyfan gwbl gan lystyfiant.

A.12 Presgripsiynu cymdeithasol gwyrdd: teclyn a ddefnyddir i wella iechyd corfforol a meddyliol drwy gefnogi pobl i ymgysylltu â gweithgareddau mewn natur megis grwpiau cerdded, gerddi cymunedol a phrosiectau tyfu bwyd.

A.13 Waliau gwyrdd: waliau sydd wedi'u gorchuddio'n rhannol neu'n gyfan gwbl gan lystyfiant.

A.14 Cymeriad hanesyddol: strwythurau a nodweddion o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol mewn lleoliad, a'i ddatblygiad dros amser, sy'n creu hynodrydd lleol ac ymdeimlad o le.

A.15 Cymeriad y dirwedd: patrwm nodedig neu gyfuniad o elfennau sy'n digwydd yn gyson mewn tirwedd penodol ac yn golygu bod un dirwedd yn wahanol i un arall.

Cyfeiriadau

A.16 Safle Bywyd Gwyllt Lleol: safleoedd anstatudol a ddynodwyd yn lleol sydd o bwysigrwydd o safbwynt cadwraeth natur.

A.17 Llwybr pellter hir: llwybr cerdded sy'n hirach na 20 milltir fel arfer ac oddi ar y ffordd gan fwyaf.

A.18 Gwarchodfa Natur Genedlaethol: safleoedd a ddynodwyd o dan Adran 35 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 i ddiogelu rhai o gynefinoedd, rhywogaethau a daeareg pwysicaf y DU ac i ddarparu labordai ymchwil awyr agored.

A.19 Gofodau gwyrdd naturiol a lled-naturiol: nodweddion tir, dŵr a daearegol sydd wedi'u gorchuddio gan blanhigion ac anifeiliaid yn naturiol.

A.20 Cyfalaf Naturiol: y term a ddefnyddir ar gyfer yr holl asedau naturiol gan gynnwys daeareg, pridd, aer, dŵr a phlanhigion ac anifeiliaid sy'n cyfuno i ddarparu llif o fuddion ar gyfer pobl.

A.21 Rheoli Llifogydd Naturiol: yn defnyddio prosesau naturiol i warchod, adfer a dynwared swyddogaethau naturiol dalgylchoedd afonydd, gorlifdiroedd a'r arfordir i arafu a storio dŵr gyda'r nod o leihau perygl llifogydd. Mae'n cynnwys dulliau fel plannu coetir, adfer gorlifdir gwlypdir a gwella rheolaeth pridd a thir.

A.22 Rhwydwaith natur: rhwydwaith cyfunol o safleoedd llawn natur, gan gynnwys ardaloedd adfer a phrosiectau amgylcheddol eraill drwy gyfres o ardaloedd o gynefinoedd addas, coridorau cynefinoedd a cherrig camu.

A.23 Budd Net ar gyfer Bioamrywiaeth: Cyflwynodd dyletswydd adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ddyletswydd bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau uwch ar awdurdodau cyhoeddus. Mae'n nodi bod yn rhaid i awdurdod cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth drwy arfer ei swyddogaethau o safbwynt Cymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, cyn belled â bod hynny'n gyson ag arfer cywir y

Cyfeiriadau

swyddogaethau hynny. Mae gweithrediad y ddyletswydd yn golygu symud o ddiwylliant effaith a lliniaru i un lle bo budd net bioamrywiaeth yn cynrychioli un o amcanion y datblygiad.

A.24 Parciau poced: gofod awyr agored cyhoeddus bychan, dim mwy na 0.4ha, ond yn llai na hynny gan amlaf, mewn ardal drefol.

A.25 Hawliau Tramwy Cyhoeddus: llwybr y mae gan y cyhoedd hawl i'w deithio drosodd a throsodd. Mae modd defnyddio'r llwybr ar droed, ar (neu'n tywys) ceffyl, neu ar feic neu gyda cherbyd modur, yn dibynnu ar statws y llwybr. Er y gallai'r tir fod yn eiddo i unigolyn preifat, gall y cyhoedd dderbyn mynediad ar draws y tir ar hyd llwybr penodol. Mae hawliau tramwy cyhoeddus wedi'u rhannu'n fathau gwahanol:

- **Llwybr troed:** ar gyfer cerdded, rhedeg, sgwteri symudedd neu gadeiriau olwyn â phŵer.
- **Llwybrau ceffyl:** ar gyfer cerdded, marchogaeth, beicio, sgwteri symudedd neu gadeiriau olwyn â phŵer.
- **Cilffyrdd cyfyngedig:** ar gyfer unrhyw fathau o gludiant heb fodur a sgwteri symudedd neu gadeiriau olwyn â phŵer.
- **Cilffyrdd sydd ar agor i bob traffig:** ar gyfer pob math o gludiant, gan gynnwys ceir (ond maent yn cael eu defnyddio'n bennaf gan gerddwyr, beicwyr a marchogion).
- **Ffyrdd Gwledig di-ddosbarth heb fetlin:** ffordd gyhoeddus heb ddosbarthiad A, B neu C.
- **Llwybrau Caniataol:** heb eu cofnodi'n gyfreithiol fel Hawliau Tramwy Cyhoeddus ond gellir eu defnyddio gyda chaniatâd y perchennog tir.
- **Llwybrau a hyrwyddir:** llwybrau gydag arwyddocâd yn yr ardal ac sy'n boblogaidd gydag ymwelwyr.

A.26 Cynefinoedd blaenoriaeth: cynefinoedd sydd â phrif bwysigrwydd o ddiogelu bioamrywiaeth, wedi'u rhestru o dan Adran 41 Deddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006.

Cyfeiriadau

A.27 Gardd law: ardal fas o dir neu ardal sy'n derbyn dŵr ffo o doeau ac arwynebau caled eraill. Mae wedi'i phlannu gyda phlanhigion sy'n gallu gwrthsefyll gormod o ddŵr am hyd at 48 awr ar y tro. Defnyddir planhigion sy'n gallu goddef diffyg dŵr ar yr ymylon. Mae dŵr stormydd yn llenwi'r pant ac yna'n draenio.

A.28 Coetir Glannau Afonydd: coetir ar neu ger glannau afonydd, yn aml yn cyflawni swyddogaethau pwysig fel lliniaru perygl llifogydd a darparu cynefin gwerthfawr.

A.29 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig: dynodiad cadwraeth o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, yn dynodi ardal a ddiogelir yn y Deyrnas Unedig, wedi'u dynodi oherwydd bod diddordeb arbennig yn y fflora, ffawna, nodweddion daearegol a ffisiograffeg. Maent wedi'u diogelu gan y gyfraith i ddiogelu bywyd gwyllt neu ddaeareg.

A.30 Systemau Draenio Cynaliadwy: yn cynnwys ystod o dechnegau ar gyfer rheoli dŵr ffo i leihau cyfanswm, a chynyddu ansawdd y dŵr wyneb. Dylai Systemau Draenio Cynaliadwy ddynwared systemau naturiol, ac maent yn wahanol i ddraeniau traddodiadol gan eu bod yn ceisio rheoli dŵr glaw yn agos at y man lle mae'n glanio. Mae'r mathau'n cynnwys toeau gwyrdd, arwynebau hydraiddd, pantiau a gerddi glaw.

A.31 Gwyrddu trefol: ymgorffori elfennau gwyrdd ar strydoedd a gofodau cyhoeddus, gan gynnwys plannu coed a thirlunio.

A.32 Ffactor Mannau Gwyrdd: teclyn i gynyddu faint o orchudd tir gwyrdd sydd o fewn amgylcheddau trefol drwy osod sgôr targed ar gyfer mannau gwyrdd o fewn datblygiad newydd. Mae hyn yn cael ei gymhwyso drwy osod sgôr targed ar gyfer datblygiad newydd sy'n cael ei gyfrifo yn seiliedig ar luosi sawl sgôr UGF ar gyfer gwahanol fathau o orchudd tir yn ôl yr ardal ofodol ar gyfer pob un ac yna rhannu'r cyfanswm gyda chyfanswm arwynebedd y safle.

Cyfeiriadau

A.33 Effaith ynys wres drefol: proses lle bo ardaloedd trefol yn profi tymereddau cynhesach nag ardaloedd gwledig cyfagos oherwydd diffyg gorchudd tir naturiol ac arwynebau caled ac adeiladau'n amsugno a dal gwres.

Atodiad B

Adolygu Polisiâu a Strategaethau

Rhyngwladol

Memorandwm Cyd-Ddealltwriaeth Rhyngwladol ar Ddulliau Seiliedig ar Natur o Weithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd (2017): Yn cydnabod pwysigrwydd dull sy'n seiliedig ar natur fel elfen allweddol o gamau gweithredu ar newid yn yr hinsawdd, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth Rhyngwladol ar Ddulliau Seiliedig ar Natur o Weithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd ac maent yn llofnodwyr sylfaenol.

Y DU

Dyfodol Gwyrdd: Ein Cynllun 25 mlynedd i Wella'r Amgylchedd (2018): Un o dargedau allweddol Cynllun 25 mlynedd Llywodraeth y DU ar gyfer yr Amgylchedd yw cyflawni rhwydwaith ehangach a gwydn o dir, dŵr a môr sy'n gyfoethocach o ran planhigion a bywyd gwylt. Mae hyn yn cynnwys targedau i adfer 75% o'r safleoedd daearol a warchodir i gyflwr ffafriol, ynghyd â chreu neu adfer 500,000 hectar o gynefin yn llawn bywyd gwylt y tu hwnt i'r rhwydwaith a ddiogelir. Mae targed arall yn canolbwyntio ar wella o leiaf tri chwarter dyfroedd y DU yn agos at eu cyflwr naturiol cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Cenedlaethol

Mae Cymru wedi derbyn newidiadau deddfwriaethol a pholisi sylfaenol, gyda phwyslais cryf ar egwyddorion datblygu cynaliadwy i sicrhau lles hirdymor Cymru. Mae'r newid mewn deddfwriaeth a pholisi yn cyflwyno llwybrau er mwyn i Awdurdodau Lleol nodi darlun cliriach o adnoddau naturiol, y peryglon

Cyfeiriadau

ar gyfer yr adnoddau hynny ac i fanteisio ar y cyfleoedd y maent yn eu darparu mewn proses effeithlon sy'n sicrhau y cyflawnir y camau cywir yn y lleoliad cywir.

Polisi Cynllunio Cymru (2024): Mae Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12 (PCC 12) yn nodi amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru ac mae cyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TAN) yn cyflwyno canllawiau ar weithredu PCC 12. Mae PCC 12 yn nodi rôl allweddol isadeiledd gwyrdd i lunio lleoedd a gwella lles, trwy ddarparu swyddogaethau amrywiol a buddion ar gyfer gwydnwch cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae'n nodi y dylai awdurdodau cynllunio fabwysiadu ymagwedd strategol a rhagweithiol i isadeiledd gwyrdd, a dylid ymgorffori hyn yn llwyr yn y Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae PCC 12 yn gofyn i'r holl awdurdodau cynllunio gynhyrchu Asesiad Isadeiledd Gwyrdd. Cyhoeddwyd rhifyn diweddaraf Polisi Cynllunio Cymru (PCC 12) ym mis Chwefror 2024, ac ymysg newidiadau eraill yn y ddogfen, mae'r ddogfen ddiweddaraf yn cefnogi mesurau amgylcheddol a bioamrywiaeth diwygiedig a amlinellwyd ym mhennod 6 a ddaeth i rym ar unwaith ym mis Hydref 2023, oddeutu pedwar mis cyn cyhoeddi'r PCC 12 yn swyddogol. Mae'r newidiadau allweddol i bennod 6 yn cynnwys:

- Dylid cyflwyno Datganiad Isadeiledd Gwyrdd gyda phob cais cynllunio.
- Mae'n rhaid cyflwyno Cynllun Gwelliannau i sicrhau budd net ar gyfer bioamrywiaeth.
- Mae'n rhaid i bob datblygiad gyflwyno budd net ar gyfer bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystem o gyflwr y waelodlin (yn gymesur â maint a natur y datblygiad a gynigir).
- Lle na ellir osgoi, lleihau neu liniaru/ adfer effeithiau andwyol ar fioamrywiaeth a gwydnwch ecosystem, neu gymryd camau gwneud yn iawn am yr effeithiau hyn fel y dewis olaf, bydd yn ofynnol gwrthod rhoi caniatâd cynllunio.
- Gall awdurdodau cynllunio sicrhau y cyflawnir gwelliannau bioamrywiaeth ar bob cam o'r dull graddol drwy atodi amodau cynllunio a / neu rwymedigaethau eraill i ganiatâd cynllunio.

Cyfeiriadau

- Mae'n rhaid osgoi datblygu o fewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig nad yw'n ofynnol er mwyn rheoli'r safle.
- Lle y nodir pridd mawn, dylid rhoi ystyriaeth sylweddol i'w ddiogelu ac oni bai bod ystyriaethau materol sylweddol eraill yn nodi fel arall, bydd yn ofynnol gwrthod rhoi caniatâd cynllunio.
- Dylid ystyried mecanweithiau cadarnhaol i gadw coed gwledig, a chyflwyno mesurau i'w disodli mewn modd effeithiol ac economaidd.

Pwysleisir y pwysigrwydd o ddiweddarau AIG drwy adolygiad rheolaidd o'r data gofodol diweddaraf er mwyn hysbysu penderfyniadau rheoli datblygu; ac mae mwy o bwyslais ar fonitro a gwerthuso cyfres allweddol o ddangosyddion ar fuddion amlbwrpas.

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021): Cymru'r Dyfodol yw'r Cynllun gofodol Cenedlaethol, a gyhoeddwyd yn 2021, sy'n nodi'r cyfeiriad lle y dylid gwneud buddsoddiad mewn isadeiledd a lle y dylid lleoli datblygiadau yng Nghymru. Mae strategaeth ofodol Cymru'r Dyfodol yn cynnwys nifer o bolisiâu sy'n berthnasol i Isadeiledd Gwyrdd, gan gynnwys:

- Polisi 2 - Llywio Twf ac Adfywio Trefol, sy'n nodi pwysigrwydd Isadeiledd Gwyrdd wrth greu lleoedd yn effeithiol;
- Polisi 8 - Llifogydd, sy'n ffafrio rheoli perygl llifogydd yn seiliedig ar natur yn hytrach na datrysiadau peirianyddol lle bo modd;
- Polisi 9 - Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn ac Isadeiledd Gwyrdd, sy'n nodi bod angen diogelu a chreu rhwydweithiau ecolegol newydd a nodi cyfleoedd lle y dylid gwneud y mwyaf o Isadeiledd Gwyrdd presennol a phosibl fel rhan o greu lleoedd;
- Polisi 12 - Cysylltedd Rhanbarthol, sy'n cefnogi Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 i gyflwyno cynnydd sylweddol mewn teithio llesol; a
- Polisi 15 - Coedwig Genedlaethol, sy'n hyrwyddo gweithrediad coedwig genedlaethol newydd yng Nghymru.

Cyfeiriadau

Strategaeth Buddsoddi yn Isadeiledd Cymru (2021): Mae Strategaeth Buddsoddi yn Isadeiledd Cymru yn amlinellu cynlluniau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddi mewn prosiectau isadeiledd. Mae'r strategaeth yn darparu ystyriaeth mor eang â phosibl ar isadeiledd, yn amrywio o amgylchedd adeiledig traddodiadol i isadeiledd gwyrdd a glas, gan gynnwys coetiroedd a buddsoddiadau rheoli llifogydd naturiol. Mae'n rhoi pwyslais penodol ar bwysigrwydd IG o fewn agenda Trawsnewid Trefi ac ym muddion amlbwrpas coetiroedd fel math o IG ar gyfer ansawdd aer a datgarboneiddio.

Y Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol (2017): Canolbwynt y polisi yw rheolaeth gynaliadwy adnoddau naturiol Cymru, i wneud y mwyaf o'u cyfraniad i gyflawni'r nodau o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r polisi'n nodi tair Blaenoriaeth Genedlaethol. Sef:

- Darparu datrysiadau'n seiliedig ar natur
- Cynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau
- Datblygu dull yn seiliedig ar le.

Mae Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol yn dangos bod buddsoddi yn ein hadnoddau naturiol yn cyflawni'r gorau o safbwynt gwydnwch ecosystem a buddion ar draws y nodau lles.

Deddf Cynllunio (Cymru) 2016: Mae Deddf Cynllunio Cymru yn nodi'r fframwaith ar gyfer datblygu cynaliadwy yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae'n ceisio sicrhau bod datblygiadau a defnydd tir yn cyfrannu at wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r system gynllunio yn ganolog er mwyn cyflawni datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Mae'n darparu fframwaith polisi a deddfwriaethol i reoli'r defnydd a datblygiad o dir ym mudd y cyhoedd fel ei fod yn cyfrannu'n gadarnhaol i gyflawniad y nodau lles.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016): Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cyflwyno Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ac yn nodi'r fframwaith i gyflawni hyn wrth wneud penderfyniadau. Nod Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yw cynnal a gwella cadernid ecosystemau a'r

Cyfeiriadau

manteision maent yn eu darparu. Mae'r Ddeddf yn cydnabod yr heriau y mae adnoddau naturiol ac ecosystemau yn eu hwynebu a'r cyfleoedd y gallant eu darparu. Mae hyn hefyd yn cynnwys y ffyrdd y rheolir adnoddau naturiol ar hyn o bryd a sut y gellir lleihau'r pwysau. Mae'r Ddeddf hefyd yn cyflwyno dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gynhyrchu a gweithredu Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol er mwyn cyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yng Nghymru.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015): Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Golyga hyn bod yn rhaid sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno saith nod lles. Mae pedwar o'r nodau yn berthnasol i weithrediad Isadeiledd Gwyrdd:

- *Cymru gydnerth* - cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd bioamrywiol naturiol gydag ecosystemau iach sy'n cefnogi gwydnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ac sydd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, newid yn yr hinsawdd).
